# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 4YDD GORFFENNAF, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 27.6.17)

# PWYLLGOR IAITH

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Aled Ll. Evans
Charles Wyn Jones
Olaf Cai Larsen
Alan Jones Evans
Judith Mary Humphreys
Elin Walker Jones
Elfed Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Kevin Morris Jones
Eirwyn Williams
Eric M. Jones
John Pughe Roberts

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd

[sedd wag]

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet – Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2017/18.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2017/18.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION — 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2017 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 7. ADRODDIAD YR AELOD CABINET - Y GYMRAEG

Derbyn adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg.

## 8. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR IAITH — 10

Cyflwyno, er gwybodaeth, yr adran berthnasol o Gyfansoddiad y Cyngor (ynghlwm).

## 9. Y DREFN GWYNION GORFFORAETHOL — 11 - 13

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH — 14 - 42

Ystyried adroddiad y Dirprwy Arweinydd (ynghlwm).

## 11. GWIREDDU'R UCHELGAIS - YMATEB I STRATEGAETH GYMRAEG NEWYDD LLYWODRAETH CYMRU — 43 - 115

Ystyried adroddiad y Dirprwy Arweinydd (ynghlwm).

# PWYLLGOR IAITH DYDD MAWRTH, 28 CHWEFROR 2017

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Charles Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Gareth Wyn Griffith, Alwyn Gruffydd, Eric M. Jones, Elfed Williams a Hefin Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Aelod Cabinet – Y Gymraeg)
**Cefnogaeth Gorfforaethol**), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg), Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith), Garem Jackson (Swyddog Addysg Ardal), Bethan Eleri Roberts (Swyddog Rheoli Perfformiad), Carys Lake (Arweinydd Canolfan Iaith Ysgol Eifionydd, Porthmadog) ac Ann Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Craig ab Iago, Thomas G. Ellis, Alan Jones Evans, Gareth Thomas a John Wyn Williams.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Hydref a 22 Tachwedd 2016 fel rhai cywir.

**3. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG**

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y canlynol:-

- Cafwyd cyfarfod buddiol ac adeiladol gydag Alun Davies AC i drafod trefniant Hunaniaith yn y Cyngor a’r bwriad i ddatblygu cynlluniau perthnasol i Wynedd. Cydnabuwyd bod sefyllfa Gwynedd yn dra gwahanol.
- Bwriedir cynnal seminar ym mis Mai/Mehefin yng Ngwynedd a fydd yn cynnig cymorth i gymunedau i hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg yn eu hardaloedd.
- Cafwyd yr ail gyfarfod o’r Bwrdd Hunaniaith gyda Swyddogion Iaith y cyrff cyhoeddus eraill i drafod sut y gallant gyfrannu tuag at ein Strategaeth. Disgwylir i’r Bwrdd fabwysiadu’r Cynllun Llesiant newydd a rhoi ymrwymiad i’r Gymraeg.
- Y gweithgareddau lleol amrywiol i hyrwyddo’r Gymraeg ar draws y sir yn cynnwys gweithgareddau ym Mangor a gwaith da Y Popty.
- Gwaith y Siarter Iaith – gweithgor yn cyfarfod i drafod cynnydd y gwaith yn yr Ysgolion Uwchradd.

Mewn ymateb i sylw bod trafodaethau yn digwydd yn y Saesneg yng nghyfarfodydd tu allan i’r Cyngor, adroddwyd bod prosiect ar y gweill gyda’r gwasanaethau cyhoeddus er ceisio cael y gwasanaethau normaleiddio’r Gymraeg trwy ymrwymo i’r cyswllt cyntaf fod yn y Gymraeg bob tro i.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**4. CYFLWYNIAD PRIF AMCANION STRATEGAETH IAITH UWCHRADD (DRAFFT)**

Derbyniwyd y cefndir gan y Swyddog Addysg Ardal. Nodwyd bod plant Ysgolion Cynradd wedi eu trochi yn y Siarter Iaith ers tair blynedd a'r bwriad ydi adeiladu ar hynny. Mae'r gwaith o greu strategaeth erbyn 31 Mawrth 2017 yn mynd rhagddo, gyda gweithrediad y strategaeth i ddigwydd o 1 Ebrill 2017 ymlaen.

Croesawyd Carys Lake, Arweinydd Canolfan Iaith Ysgol Eifionydd i'r cyfarfod ac eglurwyd ei bod yn gweithio am gyfnod ar gomisiwn i i greu'r strategaeth ar y cyd â'r Adran Addysg.

Cyflwynodd Arweinydd Canolfan Iaith Ysgol Eifionydd prif amcanion y Strategaeth Iaith Uwchradd (drafft) a rhoddodd y cyd-destun lleol i'r gwaith:

- Adroddiad Trywydd
- Adroddiad Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg
- Adroddiad Alun Charles
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-17
- Cynllun Strategol Y Cyngor

Nodwyd bod yr adroddiadau uchod i gyd yn nodi bod angen sicrhau dilyniant o'r gwaith gyda'r Gymraeg yn y Cynradd i'r Uwchradd.

O ran y cyd-destun cenedlaethol ac i gyrraedd y 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' ac i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu rhaid cael yr holl randdeiliaid ynghlwm â'r Cynllun e.e. y staff i gyd.

Nod Strategaeth Iaith Uwchradd yw hyrwyddo defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a'i datblygu fel cyfrwng effeithiol ar gyfer bywyd yr ysgol yn ei holl agweddau. Nodwyd bod dwy elfen i'r nod, sef y cwricwlwm a chymdeithasol. Mae profiadau mewn gwersi yn dylanwadu ar yr elfen gymdeithasol.

Y cam nesaf fydd rhoi cyflwyniad i weithgor o gynrychiolwyr o blith Penaethiaid sydd wedi cyfarfod dwywaith i drafod yr amcanion drafft. Cytunwyd ar yr wyth amcan canlynol:

i. Arweinyddiaeth a disgwyliadau
ii. Ethos
iii. Llais a pherchnogaeth pobl ifanc
iv. Anghenion hyfforddiant
v. Rôl yr Adran Iaith a'r Ysgol (arweiniad gan yr Adran Iaith a chael pobl ifanc i allu gwneud pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg)
vi. Profiadau cwricwlaidd
vii. Dysgwyr pontio (troi dysgwyr yn Gymru i'w galluogi i ddysgu trwy'r Gymraeg)
viii. Yr Ysgol a'r Gymuned (cyswllt yr ysgol efo busnesau a'r gymuned)

Adroddwyd y bwriedir defnyddio'r wyth amcan uchod i osod meini prawf i fonitro llwybrau cynnydd. Bydd y meini prawf yn gofyn am dystiolaeth i brofi cyrhaeddiad. Adroddwyd bod gwaith yn mynd ymlaen i osod y meini prawf ynghyd â'r gofynion tystiolaeth a chydnabuwyd bod angen bod yn uchelgeisiol.

Nodwyd bod Cyngor Gwynedd yn arwain yn y maes yma a bod gweddill Cymru yn edrych ar beth sydd yn digwydd yma yng Ngwynedd i gael arweiniad ar y ffordd ymlaen. Yn ogystal, nodwyd bod Swyddogion Cyngor yn cyfarfod Llywodraeth Cymru yn gyson i drafod y ffordd ymlaen.

Derbyniwyd sylw aelod nad oedd yr ysgolion yn gyfarwydd neu ddim yn adnabod y broblem bod plant a phobl ifanc yn siarad Saesneg tu allan i'r ysgol. Mewn ymateb adroddwyd bod

angen gweithio efo pobl ifanc i genhadu yn gymdeithasol. Gwnaed y sylw bod Clybiau Chwaraeon yn greiddiol i'r ateb o gael plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Nodwyd bod y cyfryngau cymdeithasol yn her a bod rhaid gwneud y Gymraeg yn berthnasol i waith a bywydau'r plant a phobl ifanc.

Adroddodd aelod bod angen i bob un ysgol fabwysiadu cynllun gweithredu.

Diolchwyd i Arweinydd Canolfan Iaith Ysgol Eifionydd am y cyflwyniad a'r gwaith.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cyflwyniad ac ymgorffori'r sylwadau ychwanegol.**

## 5. ADRODDIAD YMCHWILIAD IAITH – GWELEDEDD Y GYMRAEG YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Strategol, Perfformiad a Phrosiectau ar ran Cadeirydd yr Ymchwiliad gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

Eglurwyd y bu i aelodau'r ymchwiliad ganolbwyntio ar beth mae'r Cyngor yn gallu gwneud a'i wella o safbwynt gwelededdd y Gymraeg yng Ngwynedd e.e. caffael, ynghyd â diwylliant ac ethos y Cyngor. Ymchwiliwyd y meysydd canlynol

- Rheolaeth y Cyngor o'r eiddo a'i diroedd ei hun
- Trefniadau caffael y Cyngor
- Amodau grantiau a chymorth y mae'r Cyngor yn ei ddyrannu
- Y graddau o ddylanwad sydd gan y Cyngor ar arwyddion a osodir ar ymylon ffyrdd
- Enwau tai a lleoedd

Adroddwyd ar y cymorth a'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan Dr Rhian Hodges a Dr Cynog Prys, Prifysgol Cymru, Bangor a Durk Gorter, Athro Ymchwil ac arbenigwr ym maes tirwedd ieithyddol o Ikerbasque.net, sef sefydliad o Wlad y Basg

Nodwyd y prif bwynt sef bod angen bod yn rhagweithiol a pheidio â chymryd materion yn ganiataol. Dylai'r Cyngor normaleiddio defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf, fod yn rhagweithiol a hybu'r Gymraeg a bod yn uchelgeisiol a gwthio ffiniau.

Cyflwynwyd argymhellion drafft i'r Aelod Cabinet ac awgrymwyd bod lle i rannu ymarfer da efo eraill gan ystyried denu incwm ar yr un pryd.

Adroddwyd bod materion amlwg yn yr argymhellion y gellir cyd-blethu efo cynlluniau Awdit Iaith.

Adroddodd yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg nad oedd yn gweld anhawster i weithredu ar yr argymhellion a bod gwaith wedi cychwyn ar wella gwelededdd y Gymraeg drwy osod arwyddion Cymraeg yng nghynteddau'r Cyngor.

Diolchodd yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg am y gwaith wnaed gan yr aelodau a'r swyddogion.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhellion yr ymchwiliad a'u cyflwyno'n ffurfiol i'r Aelod Cabinet.**

## 6. GWEITHREDU SAFONAU IAITH

Cyflwynwyd crynodeb drafft o ymateb arfaethedig Cyngor Gwynedd i ddatganiad Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes 'Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg – Cais am dystiolaeth' gan y Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg.

Eglurwyd bod y Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi cyhoeddi eu bwriad i ystyried diwygio Mesur y Gymraeg 2011 yn sgil pasio'r Mesur pum mlynedd yn ôl. Y bwriad yw cyflwyno gwelliannau i'r Mesur er mwyn cyflawni'r uchelgais o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Adroddwyd bod y Gweinidog yn gofyn tri chwestiwn yn ei ddatganiad. Adroddwyd bod y Safonau Iaith yn ceisio dod â chysondeb ar draws Cymru ond bod y safonau yn feichus ac yn agored i ddehongliad.

Cyflwynwyd ymatebion arfaethedig y Cyngor a gofynnwyd am sylwadau'r aelodau.
Diolchwyd am yr adroddiad cynhwysol a gwnaed y sylw bod safonau yn iawn fel maent ond nad ydynt yn berthnasol i Gyngor Gwynedd. Gofynnwyd a oedd amserlen gan y Llywodraeth ac a oes bwriad i ymestyn i'r banciau, cwmnïau trydan, dŵr ac ati? Nodwyd bod angen y Safonau. Gwnaed y sylw bod gan Fwrdd Iaith arbenigedd yn y maes ac yn cynnig cefnogaeth ond y collwyd hynny gyda dyfodiad Swyddfa'r Comisiynydd.

Diolchwyd i'r Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg am yr adroddiad a nodwyd pwynt pwysig yr aelod bod angen pwyso am yr arbenigedd yn y Bwrdd Iaith.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys yr adroddiad.**

## 7. AWDIT IAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn crynhoi canfyddiadau'r Awdit Iaith a chynnig camau gweithredu pellach.

Diweddarwyd yr aelodau ar y datblygiadau yn y pedair adran dan sylw. Adroddwyd ar y bwriad i geisio cael yr Adrannau i gymryd cyfrifoldeb am y cynlluniau gweithredu.

Nodwyd bod
- cynlluniau gweithredu mewn lle ar gyfer yr Adran Ymgynghoriaeth a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a bod angen cytuno ar amserlen.
- cynllun gweithredu drafft wedi ei gynllunio gyda'r Adran Economi a phenderfynwyd ei ddal yn ôl nes y gellid gweld canfyddiadau'r Ymchwiliad Iaith. Er hynny, nodwyd bod gwaith ymlaen gan y Gwasanaeth Twristiaeth i wella'r berthynas efo trefnwyr digwyddiadau i geisio dylanwadu ar y digwyddiadau a gynhelir yn y Sir. Yn ogystal, nodwyd bod sylw penodol wedi ei roi i'r Gwasanaeth Hamdden drwy ail sefydlu sesiynau gwella'r iaith Gymraeg gyda'r staff.
- y gwaith gyda'r Adran Rheoleiddio i gychwyn cyn bo hir.
- y Swyddog Iaith yn ceisio sicrhau perchnogaeth yr Adrannau o'r cynlluniau gweithredu.
- cynllun cyfathrebu yn gosod canllawiau ar sut i annog staff i fod yn fwy rhagweithiol ac i hybu siarad drwy'r Gymraeg bob amser.
- mwy o staff wedi bod yn holi am y cortynnau Cymraeg yn ddiweddar a bod ceisiadau wedi dod gan staff i gael cymorth i greu arwyddion.

Yn dilyn sylw gan aelod bod amryw o staff di-gymraeg yn gweithio yng Nghanolfan Ail-gylchu cytunwyd i ymchwilio'r mater.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 8. CWYNION IAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn manylu ar y tri chŵyn iaith ddiweddaraf i law a'r ymatebion.

Yn dilyn trafodaeth am arwyddion strydoedd adroddwyd y byddir yn edrych ar y polisïau ac yn adrodd i'r Pwyllgor Iaith yn ystod y flwyddyn wleidyddol nesaf.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 4.05 y.h.

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR IAITH

- Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Adran 9 y Cyfansoddiad.

- Mae'r tabl isod yn rhestri'r swyddogaethau penodol sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor. Yn y drydedd golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i Brif Swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r Prif Swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ei hawl i weithredu, yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Atodiad 3 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad).

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)* |
|---|---|---|
| Goruchwylio gweithrediad Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd | | |
| Pennu cyfeiriad strategol a chydymffurfiaeth mewn ymateb i'r Safonau Iaith a osodir gan Gomisiynydd y Gymraeg gan roi sylw i waith y Cyngor ac unrhyw waith partneriaeth neu gydweithio | | |
| Derbyn gwybodaeth ar faterion yn ymwneud a'r Gymraeg yn unol â'r angen | | |
| Gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y sir gan wneud argymhellion i'r Cabinet yn ôl yr angen. | | |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Iaith** |
| **Dyddiad :** | **4 Gorffennaf 2017** |
| **Teitl :** | **Y Drefn Gwynion Gorfforaethol** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Cyflwyno gwybodaeth am y drefn gwynion a'r drefn o adrodd i'r Pwyllgor Iaith** |

**Cefndir**

1. Ers 1 Ebrill 2015 mae'r Cyngor yn gweithredu Trefn Gwynion Gorfforaethol sy'n cyd-fynd â'r Polisi Enghreifftiol ar Gwynion a Phryderon, a'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a luniwyd dan oruchwyliaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2. Dyma'r drefn a ddefnyddir i ymdrin â chwynion ynglŷn â holl wasanaethau'r Cyngor, heblaw am gwynion gan ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ac ynglŷn ag ysgolion, lle ceir trefniadau penodol eraill. Mae cwynion yn erbyn gwasanaethau'r Cyngor ac sy'n ymwneud â'u defnydd o'r iaith Gymraeg yn disgyn felly o fewn y Drefn Gwynion Gorfforaethol.

3. Mae dwy brif swyddogaeth i'r drefn sef:

(1) datrys cwynion unigol ac unioni unrhyw gam

(2) sicrhau y dysgir gwersi o'r cwynion a dderbynnir er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i bobl Gwynedd

**Y Drefn**

4. Yn gryno, ymatebir i gwynion mewn dwy ffordd, sef:

<u>Datrysiad Anffurfiol</u>

Mae'r cam hwn yn cynnig y cyfle i achwynydd gysylltu'n anffurfiol yn y man lle caiff y gwasanaeth ei gyflwyno i geisio datrys cwynion un ai pan fydd y pryder yn codi neu'n fuan iawn wedyn.

<u>Ymchwiliad ffurfiol</u>.

Os nad yw'r achwynydd yn fodlon gyda'r datrysiad anffurfiol i'r gŵyn gall ei chyfeirio am ymchwiliad ffurfiol. Swyddog o'r adran dan sylw, ond sydd ar lefel ddigon uchel ac sy'n ddigon annibynnol o ffynhonnell y gŵyn fydd yn cynnal yr ymchwiliad fel rheol, a dyma fydd ymateb swyddogol a therfynol yr awdurdod.

**Yr Ombwdsmon a Chomisiynydd y Gymraeg**

5. Os yw'r achwynydd yn parhau'n anfodlon yna gall gyfeirio'r gŵyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i honiadau o gamweinyddu.

6. Yn ogystal â hyn mae'n bosib cwyno i Gomisiynydd y Gymraeg:

- am fethiant sefydliad i gydymffurfio â safon iaith
- am fethiant sefydliad i weithredu ei bolisi iaith
- neu os yw'r achwynydd yn teimlo bod rhywun wedi ymyrryd a'i rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

7. Bydd y ddau gorff yn ymgynghori mewn achosion lle ceir gorgyffwrdd rhwng eu hawdurdod, ac yn cytuno ar y modd mwyaf priodol i ymchwilio i'r gŵyn dan sylw.

**Rôl Aelodau Etholedig**

8. Nid oes rôl i aelodau i ymchwilio i gwynion unigol. Os bydd etholwr yn cysylltu ag aelod gyda chwyn gall ei r(h)oi mewn cysylltiad â'r gwasanaeth perthnasol, a fydd wedyn yn mynd ati i ddelio â'r mater yn unol â'r drefn gwynion.

9. Mae gan aelodau hefyd wrth gwrs yr hawl i godi materion sydd o bryder iddynt yn uniongyrchol gydag adrannau'r Cyngor. Nid yw'r Drefn Gwynion yn newid y sefyllfa hynny o gwbl.

**Y Tîm Gwella Gwasanaeth a Chydlynu Cwynion**

10. Pan fabwysiadwyd y drefn bresennol sefydlwyd y Tîm Gwella Gwasanaeth a Chydlynu Cwynion i'w chefnogi. Mae'r Tîm yn cynnwys y Rheolwr Datblygu'r Sefydliad a'r Swyddog Gwella Gwasanaeth (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) ynghyd â'r Swyddog Monitro a'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol).

11. Yn ogystal â sicrhau gweithrediad Trefn Cwynion y Cyngor, sefydlwyd y Tîm er mwyn gwneud y mwyaf o'r data a gwybodaeth sy'n deillio o gwynion i sicrhau gwelliant yng ngwasanaethau'r Cyngor ac i yrru gwaith o greiddio'r diwylliant priodol ar draws y Cyngor. Mae gan y Tîm nifer o gyfrifoldebau wrth wireddu hyn:

- cynnig arweiniad a chyngor i adrannau ar sut i ddelio a chwynion unigol.
- cyflwyno ymyraethau addas er mwyn creiddio diwylliant priodol
- hyrwyddo ac ysgogi gwelliant ar sail cwynion neu dueddiadau
- adnabod meysydd ar gyfer gwelliant cyffredinol
- cyflwyno cyfleoedd datblygu perthnasol
- adolygu Trefn Cwynion y Cyngor
- codi ymwybyddiaeth o'r Drefn tu allan a thu fewn i'r Cyngor
- Adrodd ar berfformiad y Drefn

12. I gynorthwyo'r cyngor i ddysgu o gwynion sefydlwyd trefn lle bydd aelodau'r Tîm Cydlynu Cwynion yn trafod datrysiadau gyda'r gwasanaeth priodol os yw ymchwiliad

i gŵyn wedi adnabod lle i wella gweithdrefnau. Bydd hyn yn medru arwain at greu ‘cynlluniau gwella gwasanaeth’.

**Adroddiadau**

13. Mae’r Tîm yn adrodd yn rheolaidd i’r Aelod Cabinet a’r Tîm Arweinyddiaeth yn chwarterol ac i’r Cabinet yn flynyddol. Bydd adroddiad blynyddol cyhoeddus hefyd yn cael ei baratoi.

14. Pwrpas yr adroddiadau yma yw adrodd, nid yn unig ar berfformiad y drefn (niferoedd, amseroedd ymateb ayb) ond hefyd ar unrhyw batrymau a adnabyddir a sut y mae delio â chwynion wedi arwain at welliannau parhaol yn y gwasanaethau y mae pobl Gwynedd yn eu derbyn.

**Rôl y Pwyllgor Iaith**

15.Nid oes gan y Pwyllgor Iaith rôl ffurfiol o fewn y Drefn Gwynion, ond yn hanesyddol mae wedi bod yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd am gwynion iaith, fel rhan o’i swyddogaeth o oruchwylio gweithrediad Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd.

16. Credir y dylid addasu’r a diweddaru’r drefn o adrodd i’r Pwyllgor hwn fel ei bod yn cyd-fynd gyda swyddogaethau’r Pwyllgor a darpariaethau’r drefn gwynion ac yn manteisio ar y gyfundrefn sydd wedi eu sefydlu i adnabod y gwersi sydd i’w dysgu o gwynion a gwelliannau mewn gwasanaethau.

17. Bwriedir felly adrodd o hyn ymlaen ar:

- Y nifer a’r mathau o gwynion iaith sydd wedi eu derbyn.
- Unrhyw batrymau a adnabyddir o’r cwynion hynny.
- Unrhyw gynlluniau gwella gwasanaeth sydd wedi eu creu mewn ymateb i gwynion.

Bydd unrhyw ymchwiliadau gan y Comisiynydd Iaith ac unrhyw adroddiadau perthnasol gan yr Ombwdsmon hefyd yn cael eu hadrodd i’r Pwyllgor

18. Byddwn hefyd yn croesawu unrhyw awgrymiadau gan y Pwyllgor ynglŷn â’r math o wybodaeth a fyddai o fudd iddo wrth gyflawni ei ddyletswyddau

**Argymhellion**

19. Gofynnir i’r Pwyllgor:

Nodi trefniadau uchod

Awgrymu unrhyw wybodaeth fyddai o fudd i’r Pwyllgor ei dderbyn ynglŷn â chwynion iaith.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **4 GORFFENNAF 2017** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith** |
| **AWDUR:** | **MAIR ROWLANDS**<br>**DIRPRWY ARWEINYDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i sylw'r Aelodau** |

**1 CEFNDIR**

1.1 Cafodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chael cydsyniad brenhinol yn Chwefror 2011. Roedd y Mesur yn gwneud nifer o newidiadau arwyddocaol o safbwynt cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys:

- rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sy'n golygu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.
- sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg er mwyn hybu'r Gymraeg a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio.
- creu trefn o gyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith sydd yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg.
- sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg er mwyn gwrando ar achosion ar benderfyniadau'r Comisiynydd yn ymwneud â safonau'r Gymraeg.
- diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a dod a Chynlluniau Iaith i ben

1.2 Yn unol a'r drefn a osodwyd gan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, derbyniwyd Hysbysiad Cydymffurfio y Safonau, oedd yn cynnwys yr holl safonau y mae disgwyl i Gyngor Gwynedd gydymffurfio â nhw ar 30 Medi 2015.

1.3 Roedd 151 o Safonau yn yr Hysbysiad Cydymffurfio, wedi eu rhannu i bump dosbarth:

1. Cyflenwi Gwasanaethau
2. Llunio Polisi
3. Gweithredu
4. Cadw Cofnodion
5. Hybu

1.4 Daeth y Safonau i gyd i rym ar 30 Mawrth 2016, ac eithrio y 4 safon oedd yn ymwneud a hybu, oedd yn weithredol o 30 Mawrth 2017.

1.5 Yn sgil ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r iaith Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r safonau a osodwyd arno trwy weithrediad ei Gynllun Iaith, ac yn wir, roedd y Cynllun hwn yn mynd ymhellach na safonau'r Gymraeg mewn sawl maes.

1.6 Ystyriwyd na ddylid gwanhau ymrwymiad presennol y Cyngor tuag at y Gymraeg trwy gyfyngu'r ymrwymiad at gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn unig, ac o ganlyniad, datblygwyd Polisi Iaith o'r newydd. Mae'r Polisi hwnnw yn weithredol ers Ebrill 2016.

1.7 Fel rhan o'r Safonau, mae angen i'r Cyngor lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. Cyflwynir yn atodol felly, Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2015/16.

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Gofynnir i'r aelodau:

- drafod a derbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol

**ADRODDIAD AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG 2016/17**

**CYNGOR GWYNEDD**

**RHAGAIR**

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Fel awdurdod sydd yn gwasanaethu poblogaeth lle mae 65.4% yn gallu siarad Cymraeg, mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldeb dros warchod a hybu'r Gymraeg o ddifri, ac wedi dangos ymrwymiad clir i'r Gymraeg ers blynyddoedd lawer.

Rydym mewn sefyllfa ffodus o ganlyniad i'n cynllun iaith hanesyddol, blaenllaw, ac ymrwymiad i broses recriwtio cadarn sydd yn golygu bod cynifer o staff y Cyngor yn siarad Cymraeg, ac felly yn ei alluogi i ddarparu gwasanaethau yn gwbl naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Serch hynny, rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r heriau sydd yn wynebu'r Gymraeg, a'r ffaith bod arferion a hyder pobl i ddefnyddio'r iaith – boed yn weithwyr i'r Cyngor neu yn ddefnyddwyr gwasanaethau – yn newid yn gyson. Mae gennym ddyletswydd felly i beidio gorffwys ar ein rhwyfau, ac i weithio'n barhaus i wella ac adnabod cyfleoedd datblygu.

Mae'r diwylliant sydd yn cael ei hyrwyddo o fewn y Cyngor ar hyn o bryd, ac sydd yn rhan o weledigaeth y Prif Weithredwr ar gyfer y dyfodol, yn roi pwys ar symleiddio prosesau a biwrocratiaeth o blaid yr hyn sydd yn rhoi y gwerth gorau ac sydd yn rhoi anghenion y trigolion yn gyntaf. Drwy ddilyn yr egwyddor o roi "pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym ni'n ei wneud " rydym wastad yn chwilio am ffyrdd newydd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau. O safbwynt darparu gwasanaethau Cymraeg, a'n hymrwymiad i'r Safonau, yr her fwyaf yw sut i sicrhau cydymffurfiaeth heb i'r ymdrech a'r angen i gofnodi a chreu systemau fynd yn groes i ymdrechion a dyhead i normaleiddio'r Gymraeg a chynnig gwasanaethau dwyieithog mewn modd cwbl naturiol a rhagweithiol.

Cynghorydd Mair Rowlands

Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet gyda Chyfrifoldeb dros y Gymraeg

**CYFLWYNIAD**

Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan roi'r un statws a dilysrwydd i'r ddwy iaith, gyda'r nod o sicrhau fod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith gyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safon yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Pwrpas y safonau yw:

- ei gwneud hi'n eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Mae'r Mesur yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru bennu safonau yn y meysydd canlynol:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 30 Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Yn sgil ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r iaith Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r safonau a osodwyd arno trwy weithrediad ei Gynllun Iaith, ac yn wir, roedd y Cynllun hwn yn mynd ymhellach na safonau'r Gymraeg mewn sawl maes.

Ystyriwyd na ddylid gwanhau ymrwymiad presennol y Cyngor tuag at y Gymraeg trwy gyfyngu'r ymrwymiad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn unig, ac o ganlyniad, datblygwyd Polisi Iaith o'r newydd.

Mae'r Polisi Iaith hwn yn gyfuniad o'r Cynllun Iaith, Safonau'r Gymraeg y mae'r Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, ynghyd ag ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Fe fabwysiadwyd y Polisi Iaith hwn gan y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2016, a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2016.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei gymeradwyo gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg). Yn ogystal, bu'r adroddiad gerbron Pwyllgor Iaith y Cyngor ar 4 Gorffennaf 2017, yn sgil y ffaith fod swyddogaethau penodol y Pwyllgor fel a ganlyn:

- goruchwylio gweithrediad Cynllun Iaith[1] Cyngor Gwynedd

- Pennu cyfeiriad strategol a chydymffurfiaeth mewn ymateb i'r Safonau Iaith a osodir gan Gomisiynydd y Gymraeg gan roi sylw i waith y Cyngor ac unrhyw waith partneriaeth neu gydweithio

- Derbyn gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn unol â'r angen

- Gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y sir gan wneud argymhellion i'r Cabinet yn ôl yr angen.

Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a bydd ar gael ymhob un o Siopau Gwynedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

[1] Polisi Iaith

**SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH**

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gydymffurfio â 70 o safonau cyflenwi gwasanaeth, a 6 o safonau atodol cyflenwi gwasanaeth. Yn sgil ymrwymiad hanesyddol Cyngor Gwynedd i'r Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes yn gweithredu'n unol neu thu hwnt i ofynion nifer o'r safonau hyn pan y gosodwyd hwy ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

| **SAFON** | **CYNNWYS Y SAFON** | **GWEITHRED** |
|---|---|---|
| 1+4+5+6+30+31+72+72A+75+ 77A+80 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â gohebiaeth a gwahoddiadau | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |
| 8+9+10+12+13+ 15+16+17+18+20+22 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â'r ffôn | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |
| 7+14+21+30+32 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â gofyn i unigolyn a ydynt yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg neu ddatgan ein bod yn croesawu cyswllt yn Gymraeg | Yn sgil Polisi Iaith ac ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r Gymraeg, y mae'r defnydd o'r Gymraeg wedi ei normaleiddio ac mae ymwybyddiaeth uchel ymysg y cyhoedd y gallent gyrchu gwasanaethau a gohebu gyda'r Cyngor yn Gymraeg. O ganlyniad, nid oes galw ar y Cyngor i ddatgan neu ofyn i berson a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, oherwydd digwydd hynny'n gwbl naturiol. |
| 23+25+27A+27CH+28+33+73+ 78+ | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â chynnal cyfarfodydd a chyfweliadau | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |
| 34+37+38+69+70+76+77+81 +82+87 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â deunydd arddangos, cyhoeddusrwydd, hybu a hysbysebu, a chyhoeddiadau | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |
| 35+36 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â digwyddiadau cyhoeddus | Drwy Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn<br><br>Gwaith datblygol hefyd wedi ei wneud yn y maes hwn. |
| 40+48+49+50+50A+50B+51+71 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â dogfennau a ffurflenni | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |
| 52+55+56+57+58+59+60 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â'r wefan, apiau, cyfryngau cymdeithasol, a pheiriannau hunan-wasanaeth | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Er hyn, mae Cyngor Gwynedd yn wynebu rhai rhwystrau y tu hwnt i'w reolaeth yng nghyd-destun apiau gan nad yw cwmniau wedi cynllunio a datblygu apiau mewn modd sydd yn trosglwyddo'n hwylus i fod yn ddwyieithog. O ganlyniad, rydym yn delio gyda phob achos ynglŷn ag apiau yn unigol, gan geisio dylanwadu ar gwmnïau, gan gyfleu'r achos busnes, fod pob Awdurdod Lleol yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Er yr ymdrechion hyn, nid yw'n bosib dylanwadu bob amser, ac er bod y Cyngor yn gwneud popeth yn ei alluogi i sicrhau gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd, cydnabyddir nad yw hynny'n bosib drwy gyfrwng apiau bob amser, ac felly rhaid darparu a hyrwyddo'r gwasanaethau hynny drwy wefan y Cyngor. |
| 61+62+63 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud ag arwyddion | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |
| 64+67+68+ | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â'r dderbynfa | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |
| 83 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |
| 84 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â chynnig cwrs addysg | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |
| ATODOL<br>155+156+157+158+159+160 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth sydd yn ymwneud â threfniadau cydymffurfio gyda'r Safonau Cyflewni Gwasanaeth | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn.<br><br>Dilynir y drefn gwynion gorfforaethol wrth ymdrin â chwynion iaith, ac mae'r drefn honno ar wefan y Cyngor.<br><br>Llunir a chyhoeddir adroddiad |

| | | |
|---|---|---|
| | | blynyddol gan y Cyngor yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. |

**SAFONAU LLUNIO POLISI**

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gydymffurfio â 10 o safonau llunio polisi, a 6 o safonau atodol llunio polisi. Eto, roedd y Cyngor eisoes yn gweithredu'n unol neu y tu hwnt i ofynion nifer o'r safonau hyn pan y'u gosodwyd ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

| SAFON | CYNNWYS Y SAFON | GWEITHRED |
|---|---|---|
| 88+89+90+94 | Safonau Llunio Polisi yn ymwneud ag ystyried yr effaith ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn.<br><br>Mae'r Gymraeg yn gyfrifoldeb i bob aelod o staff y Cyngor, ac mae brwdfrydedd wrth roddi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth lunio polisi – digwydd hynny gwbl naturiol, neu ceisir cyngor a barn arbenigol gan y Swyddog Iaith. |
| 91+92+93 | Safonau Llunio Polisi yn ymwneud â chyhoeddi dogfen ymgynghori a cheisio barn siaradwyr Cymraeg | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn.<br><br>Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn rhan o'r Asesiad Effaith ar gyfer polisïau newydd ers blynyddoedd, ac mae'r broses o asesu effaith yn mynnu ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Cafodd templed a chyfarwyddiadau'r asesiad effaith ei ddiweddaru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gwneud yr anghenion o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Mesurau Iaith yn fwy eglur yn ysgrifenedig. |
| 95+96+97 | Safonau Llunio Polisi yn ymwneud â chomisiynu neu wneud gwaith ymchwil | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |

**SAFONAU GWEITHREDU**

| SAFON | CYNNWYS Y SAFON | GWEITHREDU |
|---|---|---|
| 98 | Safonau Llunio Polisi yn ymwneud â datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. | Iaith weinyddol fewnol y Cyngor yw'r Gymraeg. Mabwysiadwyd Polisi Iaith gan y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2016, a daeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2016. |
| 105+106+107+108+109+110+111 | Safonau Gweithredu yn ymwneud a iaith cyhoeddi polisïau | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn.<br><br>Iaith weinyddol fewnol y Cyngor yw'r Gymraeg. |
| 112+112A+113+115+116+ 116A+117+119+ | Safonau Gweithredu yn ymwneud a'r weithdrefn cwynion a disgyblu staff | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn.<br><br>Iaith weinyddol fewnol y Cyngor yw'r Gymraeg. |
| 120+121+124+126+134+135 | Safonau Gweithredu yn ymwneud a defnydd o'r Gymraeg ar gyfrifiaduron, a'r mewnrwyd | Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn. |
| 127+136+136A+ | Safonau Gweithredu yn ymwneud ag asesu sgiliau iaith ein cyflogeion | Mae'r Cyngor yn casglu gwybodaeth flynyddol gan bob adran i bennu nifer y staff sydd yn siaradwyr Cymraeg.<br>Mae'r angen i siarad Cymraeg wedi cael ei osod fel sgil hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor, sydd yn golygu bod angen rhyw lefel o allu a dealltwriaeth ar gyfer pob swydd.<br>Caiff pob swydd ei hysbysebu yn ddwyieithog, ac os bydd unigolyn yn cael ei benodi heb y sgiliau Cymraeg angenrheidiol (fel a ddigwydd yn achlysurol oherwydd trafferthion recriwtio mewn rhai meysydd arbenigol) bydd ymrwymiad i ddysgu a chynllun datblygu yn cael ei gytuno gyda'r tîm Dysgu a Datblygu. |

| | | |
|---|---|---|
| 128+129+130+131+132+133+ | Safonau Gweithredu yn ymwneud ag hyfforddiant cyffredinol, hyfforddiant iaith ac ymwybyddiaeth | Caiff pob modiwl hyfforddiant corfforaethol ei gyflwyno yn Gymraeg. |

**ADRODD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU GWEITHREDU YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170**

***Safon 170 - (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg***

Mae'r data canlynol yn adrodd ar nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg, gan roi dadansoddiad o lefel y sgiliau fesul gwasanaeth:

| ADRAN | UNED | ARDAL | NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL | NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT | NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amgylchedd** | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd:<br>• Cynllunio (yn cynnwys Pridiannau Tir)<br>• Gwarchod y Cyhoedd | | <br>23<br>43 | <br><br>1 | |
| | Trafnidiaeth a Chefn Gwlad | Arfon<br>Meirion<br>Dwyfor | 37<br>1<br>8 | <br>1 | |
| | Eiddo | Arfon<br>Meirion<br>Dwyfor | 32<br>7<br>3 | 2 | |
| | | **CYFANSWM** | **154** | **4** | |

| ADRAN | UNED | ARDAL | NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL | NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT | NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid** | Archwilio Mewnol | Arfon | 6 | 0 | 0 |
| | Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys | Arfon | 3 | 0 | 0 |
| | Cyflogau | Arfon | 10 | 0 | 0 |
| | Cyllid a Chyfrifeg | Arfon | 34 | 0 | 0 |
| | Pensiynau | Arfon | 15 | 1 | 0 |
| | Incwm / Arianwyr | Arfon | 10 | 0 | 0 |
| | Taliadau Credydwyr | Arfon | 5 | 2 | 0 |
| | Trethi | Arfon | 18 | 0 | 0 |
| | | Meirionydd | 5 | 0 | 0 |
| | Budd Daliadau | Arfon | 10 | 0 | 0 |
| | | Dwyfor | 17 | 0 | 0 |
| | | Meirionydd | 4 | 0 | 0 |
| | Risg ac Yswiriant | Arfon | 2 | 0 | 0 |
| | Rheoli | Arfon | 6 | 0 | 0 |
| | Technoleg Gwybodaeth | Arfon | 52 | 1 | 0 |
| | | **CYFANSWM** | **197** | **4** | **0** |

| GWASANAETH | UNED | ARDAL | NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL | NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT | NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | Tîm Rheoli<br>Gweinyddol | Traws sirol | 8<br>1 | | |
| | ADY a Chynhwysiad:<br>• Staff gweinyddol<br>• Staff gweinyddol CBAAA<br>• Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu<br>• Unedau Anhwylderau Iaith<br>• Uned Awtistiaeth<br>• Addysg i Blant Sâl<br>• Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig<br>• Cynnal Ymddygiad<br>• Cynhwysiant Uwchradd<br>• Gwasanaeth Lles<br>• Diogelu<br>• Asesu Risg<br>• Seicolegwyr Addysg<br>• Athrawon Arbenigol<br>• Cwnselwyr<br>• TRAC<br>• Uned Data | Traws sirol | <br>2<br>5<br>10<br>9<br>2<br>4<br>4<br>9<br>6<br>9<br>1<br>1<br>12<br>10<br>5<br>8<br>1 | | |
| | Cyflogau a Chontractau Ysgolion | Arfon | 5 | | |
| | Llywodraethwyr | Traws Sirol | 2 | | |
| | Gwasanaethau Ategol:<br>• Arlwyo a glanhau<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Gwybodaeth<br>• Gweinyddol | Traws Sirol | <br>6<br>1<br>1<br>1 | | |
| | Swyddfa Ardal:<br>• Swyddogion Busnes a Gwasanaethau | Traws Sirol | <br>3 | | |
| | Uned Gefnogi Addysg | Arfon/Dwyfor | 10 | | |
| | Tîm Moderneiddio | Traws Sirol | 6 | | |
| | Y Gymraeg:<br>• Canolfannau Iaith<br>• Siarter Iaith Cynradd<br>• Strategaeth Iaith Uwchradd | Traws Sirol | <br>10<br>1<br>1 | | |
| | | **CYFANSWM** | **154** | | |

| | | | NIFER SIARADWYR | NIFER DYSGWYR / | NIFER SYDD DDIM YN |
|---|---|---|---|---|---|

| ADRAN | UNED | ARDAL | CYMRAEG RHUGL | GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT | SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | Caffael | | 4 | 0 | 0 |
| | Cyfathrebu ac Ymgysylltu | | 11 | 0 | 0 |
| | Cefnogi Busnes y Cyngor | | 19 | 0 | 0 |
| | Cyswllt Cwsmer a Chofrestru | | 44 | 0 | 0 |
| | Datblygu'r Sefydliad | | 3 | 0 | 0 |
| | Dysgu a Datblygu | | 10 | 0 | 0 |
| | Cefnogol | | 31 | 0 | 0 |
| | Democratiaeth | | 14 | 0 | 0 |
| | Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol | | 11 | 0 | 0 |
| | Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant | | 13 | 0 | 0 |
| | Gwasanaethau'r Gymraeg | | 11 | 0 | 0 |
| | Rheoli Gwybodaeth | | 5 | 0 | 0 |
| | Ymchwil a Dadansoddeg | | 6 | 0 | 0 |
| | Cefnogaeth Gorfforaethol (Canolog) | | 8 | 0 | 0 |
| | | **CYFANSWM** | **190** | **0** | **0** |

| GWASANAETH | UNED | ARDAL | NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL | NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT | NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Economi a Chymuned** | | | | | |
| | Cefnogi Busnes | Arfon | 5 | 0 | 0 |
| | Rhaglenni Datblygu Economaidd | Arfon<br>Dwyfor (½)<br>Meirionnydd (½) | 14 | 0 | 0 |
| | Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau | Arfon | 6 | 0 | 0 |
| | Morwrol a Pharciau Gwledig | Gwynedd | 20 | 1 | 1 |
| | Adfywio Cymunedol | Gwynedd | 16 | 0 | 0 |
| | Ieuenctid | Gwynedd<br>Arfon<br>Dwyfor<br>Meirionnydd | 4<br>54<br>19<br>37 | <br>1<br><br>4 | <br><br><br>2 |
| | Llyfrgelloedd | Gwynedd | 52 | 2 | 0 |
| | Archifau | Gwynedd | 11 | 0 | 0 |
| | Amgueddfeydd a'r Celfyddydau | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirionnydd<br>Anhysbys | 7<br>21<br>7<br>6 | 0 | 2<br>0<br>0<br>0 |
| | Canolfannau Hamdden a Byw'n Iach | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirionnydd | 73<br>17<br>11 | 1<br>4<br>5 | <br><br>1 |
| | Rhaglenni Byw'n Iach | Gwynedd | 17 | 2 | 0 |
| | | **CYFANSWM** | **382** | **20** | **6** |

| ADRAN | UNED | ARDAL | NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL | NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT | NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oedolion Iechyd a Llesiant** | Staff Canolog<br>Tîm Rheoli a staff Datblygu Gweithlu | | 5 | | 0 |
| | Gweithwyr Cymdeithasol a gwasanaethau iechyd perthynol | | 123 | | 0 |
| | Staff mewn ysbytai neu glinigau | | 5 | | 1 |
| | Gwasanaeth gofal cartref | | 414 | | 69 |
| | Cartrefi Gofal –<br>Pobl hŷn<br>Anableddau Dysgu | | <br>240<br>47 | | <br>38<br>1 |
| | Gwasanaethau Dydd a Chymunedol<br>Pobl hŷn<br>Anableddau corfforol<br>Anableddau dysgu | | <br><br>13<br>4<br>59 | | <br><br>0<br>0<br>0 |
| | | | | | |
| | | **CYFANSWM** | **1017** | | **108** |

| ADRAN | UNED | ARDAL | NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL | NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT | NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | Tîm Rheoli | | 4 | 1 | 0 |
| | Gweinyddol (Tîm Rheoli) | | 1 | 0 | 0 |
| | Tîm Plant | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirionnydd | 18<br>6<br>6 | <br>1<br>3 (GC,HR,SB) | 0 |
| | Derbyn Cyfeiriadau Plant | | 9 | 0 | 0 |
| | Maethu | | 11 | 2 | 0 |
| | Mabwysiadu<br>(Heb gynnwys staff NWAS) | | 3 | 0 | 0 |
| | 16+ | | 12 | 0 | 0 |
| | Derwen<br>• Staff cyflogedig y Cyngor<br>• Gweithwyr Cefnogol | | <br>28<br>89 | <br>0<br>2 | <br>0<br>2 |
| | Tîm Cefnogol | | 26 | 3 | 0 |
| | Trothwy Gofal | | 13 | 0 | 0 |
| | Uned Diogelu ac Ansawdd<br>• Amddiffyn<br>• Amddiffyn (gweinyddu)<br>• Adolygu (IRO)<br>• Adolygu (gweinyddu)<br>• Data a perfformiad<br>• Cwynion<br>• Tîm Nos<br>• Data Dechrau'n Deg | | <br>1<br>2<br>4<br>2<br>2<br>1<br>5<br>1 | <br><br><br><br><br><br><br><br>1 | |
| | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | | 16 | 2 | 1 |
| | Gyda'n Gilydd | | 7 | 0 | 0 |
| | Dechrau'n Deg | | 58 | 0 | 0 |
| | | **CYFANSWM** | **325** | **14** | **4** |

| ADRAN | UNED | ARDAL | NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL | NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT | NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Comisiynu | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 10 | 0 | 0 |
| | Fflyd | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 9<br>9<br>7<br>5 | 0 | 0 |
| | Gwaith Bwrdeistrefol | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 107<br>72<br>82<br>75 | 2<br>1<br>8<br>0 | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Gwaith Priffyrdd | Môn<br>Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 2<br>20<br>17<br>25<br>19<br>25 | -<br>1<br>-<br>3<br>-<br>- | 0 |
| | Trin Gwastraff | Arfon<br>Meirion<br>Anhysbys | 2<br>10<br>5 | 0<br>1<br>0 | 0 |
| | Uned Rheoli | Arfon<br>Anhysbys | 5 | 0 | 0 |
| | | **CYFANSWM** | **506** | **16** | **0** |

| ADRAN | UNED | ARDAL | NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL | NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT | NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth (YGC) | Adeiladu | Arfon<br>Meirionnydd<br>Dwyfor | 12 | | 1 |
| | Cyflawni Prosiectau | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirionnydd | 17<br>1<br>1 | 2<br>1 | |
| | Uned Fusnes | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirionnydd | 10 | 1 | |
| | Uned Dechnegol | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirionnydd | 21<br>2 | 4 | |
| | Rheolaeth Adeiladu | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirionnydd | 9<br><br>4 | | |
| | Dŵr ac Amgylchedd | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirionnydd | 9<br>9<br>1 | 3 | |
| | Uned Rheoli | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirionnydd | 3 | | |
| | | **CYFANSWM** | **99** | **11** | **1** |

***Safon 170 - (b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);***

***(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);***

Caiff y teitlau hyfforddi mewnol i gyd eu cynnig yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, gyda mwyafrif yr hyfforddiant a gynigiwyd yn ystod y cyfnod dan sylw yn hyfforddiant mewnol.

Yr unig achlysur lle y bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig yw pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol lle mae diffyg hyfforddwyr cymwys Cymraeg. Ni chynigir unrhyw un o gyrsiau craidd y Cyngor yn Saesneg yn unig. Bydd y tîm Dysgu a Datblygu yn rhoi pob cefnogaeth ac anogaeth i hyfforddwyr allanol er mwyn eu hwyluso i allu cynnig elfennau (yn enwedig elfennau ysgrifenedig fel deunyddiau darllen) o'r hyfforddiant yn ddwyieithog. Byddwn yn asesu pob sefyllfa yn unigol ac yn ystyried sut orau i sicrhau bod staff y Cyngor yn derbyn eu holl hyfforddiant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

CYFANSWM TEITLAU**: 364**

NIFER MYNYCHWYR**: 3132**

CANRAN A FYNYCHODD HYFFORDDIANT CYMRAEG NEU DDWYIEITHOG – **81.7%**

Cyfnod Ebrill 1af 2016 - Mawrth 31ain 2017

| TEITLAU | NIFER | CANRAN TEITLAU | MYNYCHWYR |
|---|---|---|---|
| Cymraeg | 275 | 75.5% | 2186 |
| Saesneg | 51 | 14.0% | 571 |
| Dwyieithog | 38 | 10.4% | 375 |

- Mae'r ffigyrau uchod yn cyfrif mai un unigolyn sydd wedi mynychu bob digwyddiad - nid yw y ffigwr yn adlewyrchu niferoedd staff unigol a allai fod wedi mynychu mwy nag un cwrs yn ystod y flwyddyn
- Mae'r niferoedd yn cynnwys staff a chynghorwyr
- Mae'r niferoedd yn cynnwys pob math o hyfforddiant - wyneb i wyneb, sesiynau drwy webinar, sesiynau datblygu sgiliau TG, sesiynau dros gyfnod o wythnosau a gweithdai

***Safon 170 - (ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –***
***(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol***
***(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,***
***(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu***
***(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);***

| | |
|---|---|
| Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol | **465** |
| Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd | **0** |
| Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol | **0** |
| Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol | **0** |

***Safon 170 - (d) nifer y cwynion a dderbyniwyd***

Derbyniwyd 2 ohebiaeth ynghylch methiant honedig y Cyngor i gydymffurfio efo Safonau'r Gymraeg. Yn y 2 achos, cadarnhawyd nad oedd gan y Cyngor gyfrifoldeb uniongyrchol mewn perthynas â'r gwyn.

Yn ogystal, derbyniwyd 9 cwyn yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor a'i Bolisi Iaith. Gellir dosbarthu'r cwynion hynny i'r Adrannau perthnasol fel a ganlyn:

| ADRAN | NIFER CWYNION |
|---|---|
| Amgylchedd | 2 |
| Cyllid | 2 |
| Economi a Chymuned | 5 |
| Ymgynghoriaeth | 1 |

Roedd y cwynion yn erbyn Polisi Iaith y Cyngor yn ymwneud â:

- gohebiaeth a dderbyniwyd yn Saesneg yn unig (3),
- cyfrwng iaith hysbysebion (2)
- arwyddion (2)
  - (i) arwyddion stryd dwyieithog yn hytrach na rhai Cymraeg yn unig
  - (ii) arwyddion uniaith Saesneg
- defnydd priodol o'r Gymraeg (1)
- diffyg defnydd o enwau llefydd Cymraeg (1)
- hyfforddwr yn cyfathrebu yn Saesneg (1)

Roedd sail nifer o'r cwynion yn erbyn Polisi Iaith y Cyngor yn deillio o gamgymeriadau, ac wrth drafod gyda'r Adrannau perthnasol, ceisiwyd sicrwydd fod trefniadau cadarn mewn lle er sicrhau na fyddai'r camgymeriadau hynny yn digwydd eto.

**Adroddiad Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2016- 2017**

Yn ystod y cyfnod yma cynigiwyd cefnogaeth i staff i wella eu sgiliau iaith ar bob lefel ieithyddol, gan ddefnyddio'r trefniant isod:

- Cyrsiau dwys (wythnos neu fwy – yn y Prifysgolion neu Nant Gwrtheyrn)
- Cyrsiau dros gyfnod hir (dysgwyr yn mynychu unwaith neu ddwywaith yr wythnos yn y gymuned)
- Cyrsiau achlysurol – e.e. *Cymraeg yn y Gweithle* - dau ddiwrnod
- Cyrsiau Gloywi Iaith unwaith yr wythnos dros gyfnod o 8 – 10 wythnos
- Sesiynau unigol gyda thiwtor mewnol ar gais unigolion

Cynhelir un dosbarth yn fewnol: Dosbarth lefel Uwch 2 - un bore'r wythnos a gweddill y ddarpariaeth yn allanol.

Mae'r newidiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i strwythur a threfniadau Cymraeg i Oedolion, a sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i arwain, cydlynu, cryfhau a sefydlu cysondeb o ran safon y ddarpariaeth yn y maes, wedi hwyluso'r gwaith o drefnu yn fawr, gan mai gydag un darparwr yn unig y mae'n rhaid trafod bellach, gydag ambell eithriad, e.e. staff NMWTRA sy'n derbyn hyfforddiant yn y canolbarth, ac yn dod o dan Aberystwyth. Pe byddai staff angen cwrs yn y gogledd ddwyrain, yna Popeth Cymraeg fyddai'r darparwr.

**Crynodeb**:

| Cwrs | Lleoliad a Dyddiad | Nifer unigolion |
|---|---|---|
| Cymraeg yn y Gweithle | 2 ddiwrnod Mehefin 2016, Prifysgol Bangor | 4 |
| Ysgol Haf Aberystwyth | Prifysgol Aberystwyth | 1 |
| Ysgol Galan Meirionnydd 2017 | Glan –Llyn (Prifysgol Bangor) | 1 |
| Cymraeg Clir – cyrsiau diwrnod x2 | Canolfan Bedwyr, Bangor Mawrth 2017 | 6 |
| Gloywi Iaith – dros gyfnod o wythnosau | Prifysgol Bangor x 3 cwrs: Cychwyn Ionawr 2017 | 24 |
| Gloywi Iaith – cwrs tridiau | Nant Gwrtheyrn, Mawrth 2017 | 1 |
| Cwrs Mewnol – Lefel Uwch 2 (Cwrs Meistroli) | Boreau Mercher, Ystafell Mawddach, Y Ganolfan Ddysgu | 5 |
| Cyrsiau ar lefelau *Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch* | Amrywiol safleoedd sy'n gyfleus i'r dysgwyr ar draws y sir | 41 |
| Tiwtorial unigol gydag unigolion | Ar gais unigolion mae'n bosib trefnu tiwtorial gyda'r cyd-gysylltydd iaith i fynd dros ddarn o waith a derbyn arweiniad ar bwyntiau penodol sy'n achosi dryswch i'r unigolyn. Mae hyn yn amodol ar amser ac argaeledd ystafell wrth gwrs. Gall hyn fod ar unrhyw lefel ieithyddol. | Amrywio yn ôl y galw |

**Ble mae'r dysgwyr? (ddim yn cynnwys gloywi i siaradwyr rhugl)**

| Adran | Nifer dysgwyr |
|---|---|
| Oedolion a Phlant | 25 |
| Addysg | 2 |
| Cyllid | 1 |
| Rheoleiddio | 3 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1 |
| Ymgynghoriaeth | 6 |
| Cefnffyrdd | 3 |
| ***Cyfanswm*** | ***41*** |

**Elfennau datblygol:**

**Datblygu cyrsiau newydd**

Cafodd cwrs newydd ei ddatblygu yn dilyn cais penodol gan Reolwr, a bydd 4 cwrs hanner diwrnod, Gwella Cymraeg Gwaith, yn cael ei dreialu gyda staff Canolfan Alwadau ym mis Ebrill a Mai 2017.

Mae angen hefyd wedi ei adnabod yn ystod y flwyddyn i ddatblygu a darparu cyrsiau newydd fydd yn mynd i'r afael a hyder siaradwyr Cymraeg ac i wella sgiliau ysgrifenedig, ac felly bydd rhaglen newydd o hyfforddiant iaith yn cael ei datblygu yn ystod 2017-18.

**Gwobr Goffa Dafydd Orwig 2016 – 2017**

Yn draddodiadol, mae'r wobr hon, a gaiff ei chyflwyno fel rhan o seremoni wobrwyo flynyddol y Cyngor, wedi cydnabod ymdrechion dysgwyr newydd, ond gwnaed newid yn y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn ceisio adlewyrchu'r pwys a roddir ar hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ac ar arwain drwy esiampl.

Gwobrwywyd dau unigolyn sydd wedi cyfrannu at hybu a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sefydliad drwy wneud penderfyniad bwriadol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle eleni, sef:

- Will Stockford – Harbwrfeistr Aberdyfi (Economi a Chymuned)
- Owen Duncan – Peiriannydd Technegol (Ymgynghoriaeth Gwynedd)

Mae'r ddau yma'n perthyn i garfan o bobl sy'n "siaradwyr Cymraeg dihyder", wedi dysgu Cymraeg ers blynyddoedd at ryw bwynt, yn hytrach na dysgwyr sy'n mynychu gwersi Cymraeg ar hyn o bryd. Maent wedi newid eu harferion ac wedi cael eu canmol am eu dyfalbarhad gan eu rheolwyr a'u cydweithwyr.

**Fframwaith Iaith**

Cafodd Fframwaith Iaith newydd ei datblygu gan y Swyddog Datblygu Gweithlu/Cyd-gysylltydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyd-fynd gyda'r gwaith o addasu'r modd y mae'r Cyngor yn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu swyddi, ac felly cafodd taflen wybodaeth ei

pharatoi ar gyfer rheolwyr, sydd yn egluro mewn manylder beth yw ystyr pob lefel, a beth y gellir ei ddisgwyl o'r lefelau hynny. Dylai hyn wneud y wybodaeth ar y fframwaith yn fwy ystyrlon.

**Gwaith datblygol ychwanegol yn ystod y flwyddyn:**

**Ymwybyddiaeth Iaith (perthnasol i Safonau 132, 133)**

Datblygwyd e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith ar y cyd gyda'r adran Dysgu a Datblygu. Mae'r modiwl hwn ar gael i holl staff y Cyngor, a bydd gwaith cyson yn cael ei wneud i dynnu sylw ato a chael staff i'r gwblhau.

Mae rhaglen o sesiynau ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb hefyd wedi ei chychwyn yn ystod y flwyddyn, gyda **12** o sesiynau yn cynnwys tua **85** aelod o staff wedi eu cynnal hyd yma. Mae'r sesiynau hyn yn cael eu cynnal fel rhan o raglen tymor hir, ac wedi bod yn canolbwyntio ar adrannau penodol. Byddant yn cael eu hymestyn ar draws y cyngor maes o law.

**Pencampwyr Iaith**

Mae Cynllun Pencampwyr Iaith yn cael ei ledaenu ar draws y Cyngor, i'w ddefnyddio mewn adrannau lle y bernir y byddai yn fuddiol. Hyd yma, mae pencampwyr wedi eu dewis yn y gwasanaeth Hamdden (gan ailsefydlu'r Cynllun a fu'n rhedeg yno ers rhai blynyddoedd) ac yn yr adran Ymgynghoriaeth.

**Ymchwiliad Gweledds**

Cynhaliwyd ymchwiliad fel rhan o raglen waith y Pwyllgor Iaith i edrych ar wahanol elfennau o weledeedd yr iaith yng ngwasanaethau'r Cyngor.

Pwrpas yr ymchwiliad oedd ystyried y graddau y mae gweledeedd yr iaith, mewn enwau, arwyddion a hysbysiadau ar draws y sir, yn bwysig o ran statws yr iaith a hyder trigolion yn ei defnyddio fel rhan naturiol o fywyd pob dydd. Roedd hefyd yn ystyried y graddau y mae gan y Cyngor ddylanwad dros y gweledeedd hynny ac a oes angen i'r Cyngor wneud mwy.

Roedd yn edrych ar sawl maes – o amlygrwydd yr iaith yn y Cyngor ei hun i drefniadau caffael, amodau grantiau a dylanwad y cyngor ar arwyddion ar ochr strydoedd a lonydd. Rhoddwyd sylw arbennig i'r modd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn digwyddiadau hamdden ac adloniant sydd yn cael eu hariannu neu eu hyrwyddo gan y Cyngor, er mwyn gweld a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud i gynyddu defnydd, naill ai drwy gryfhau amodau iaith cytundebau neu drwy gydweithio rhwng adrannau'r Cyngor a threfnwyr y digwyddiadau. Cafodd nifer o argymhellion eu nodi sydd yn berthnasol felly i **Safonau 35 a 36**

**4. Argymhellion**

A20 Bod y Cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol ac yn defnyddio pob cyfle i hybu a dylanwadu ar weledeedd y Gymraeg a chofio am y Gymraeg bob amser gan roi blaenoriaeth i'r:
* Sgwrs gychwynnol sy'n digwydd drwy gyswllt cyntaf cwmni gyda'r Cyngor lle gellir atgoffa hefyd am y budd economaidd o wneud hyn
* Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau ac sy'n cael ei chadeirio gan y Rheolwr Digwyddiadau

A21 Y dylai adrannau'r Cyngor sydd yn dod i gyswllt â'r rhai sy'n trefnu digwyddiadau gydweithio a rhoi rhestr o ddylunwyr dwyieithog iddynt.

A22 Anfon dogfen i godi ymwybyddiaeth am yr iaith allan efo'r drwydded adloniant.

A23Defnyddio'r Fforwm Hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am y Gymraeg.

A24Gwneud newidiadau i gyflwyniad y wefan dwristiaeth (Eryri Mynyddoedd a Môr) er mwyn cryfhau'r ymdeimlad naws am le.

Mae'r uned iaith wedi bod yn gweithio'n agos gyda thîm twristiaeth yr adran Economi a Chymuned yn ystod 2016-17, er mwyn datblygu'r berthynas rhwng y ddwy uned ac i gryfhau'r dylanwad a geir ar drefnwyr digwyddiadau cyhoeddus yn y sir. Roedd amodau ieithyddol eisoes yn bodoli o fewn cytundebau ariannu, ond gwelwyd bod cyfle i ddylanwadu ymhellach, yn unol â'r argymhellion uchod, ac mae'r swyddogion wedi bod yn rhagweithiol wrth gynnig cyngor ac arweiniad i drefnwyr er mwyn sicrhau bod unrhyw ddigwyddiad y mae'r Cyngor yn gysylltiedig ag o, boed drwy ariannu ffurfiol neu drwy gynnig cefnogaeth o unrhyw fath, yn gweithredu'n ddwyieithog.

**Asesu Sgiliau Iaith (Safonau 136-137)**

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar brosiect yr adran Adnoddau Dynol i sefydlu trefn newydd ar gyfer y modd y caiff amodau iaith eu pennu mewn perthynas â swyddi. Mae'r swyddogion wedi bod yn gweithio gyda 4 adran yn benodol o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn, a hynny ar gam cyntaf y gwaith, sef adnabod lle mae swyddi presennol yn eistedd o fewn y fframwaith iaith a ddatblygwyd gan y Swyddog Datblygu Gweithlu/Cyd-gysylltydd y Gymraeg.

Bydd gweddill adrannau'r Cyngor yn mynd drwy'r broses yn ystod misoedd cyntaf 2017-18, cyn symud ymlaen i ail gam y gwaith, sef defnyddio'r fframwaith wrth recriwtio i swyddi sy'n dod yn wag a chysylltu penodiadau newydd gyda hyfforddiant fel bo'r angen.

**Cytundebau - Canllawiau Staff**

Mae'r gwaith o addasu cytundebau i adlewyrchu deddfwriaethol bresennol yn waith parhaus, a bu gwaith yn benodol yn ystod 2016-17 ar wirio a diweddaru amodau mewn cytundebau gofal, wrth i wahanol gytundebau gael eu diweddaru. Roedd hyn yn cynnwys gwaith dwys gan swyddogion y Cyngor i geisio sicrhau bod cytundebau rhanbarthol yn adlewyrchu nid yn unig y gofynion ar y Cynghorau o safbwynt y Safonau ond hefyd y disgwyliadau dan Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau. Roedd elfen gryf yn y gwaith hwn o orfod codi ymwybyddiaeth swyddogion cyfatebol yn y maes gofal a chomisiynu mewn cynghorau eraill.

Cafodd canllaw i reolwyr a staff ar osod amodau iaith mewn cytundebau ei ddrafftio yn ystod 2016-17 ond ni chafodd ei rannu gyda Rheolwyr oherwydd oedi wrth gyhoeddi canllaw gwybodaeth angenrheidiol gan y Comisiynydd. Cyhoeddwyd y Canllaw Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus: Ystyried y Gymraeg ym mis Ionawr 2017, a rhannwyd gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor.

**Mwy na Geiriau**

Mae'r Uned Iaith wedi bod yn cydweithio gydag Adran Oedolion a Llesiant y Cyngor yn ystod y flwyddyn i gydlynu'r gwaith a wneir dan ymrwymiad i Safonau'r Gymraeg a'r Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol: Mwy na Geiriau. Mae'r gwaith yma wedi canolbwyntio'n benodol ar geisio dylanwadu ar ddarparwyr gofal preifat yn y sir i ddilyn egwyddor y cynnig rhagweithiol ac i sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu bodloni. Mae gwybodaeth a chyngor wedi ei rannu drwy fforymau sirol, amodau wedi eu cryfhau o fewn cytundebau sirol a rhanbarthol a chanllawiau wedi eu paratoi ar gyfer helpu'r busnesau i asesu eu defnydd presennol o'r Gymraeg ac i lunio polisïau iaith.

**Cortynnau a Bathodynnau Iaith Gwaith**

Rydym wedi bod yn dosbarthu mwy o gortynnau gwddf gyda'r staff yn ôl y galw, ac yn parhau i annog unrhyw staff rheng flaen i'w gwisgo. Cafwyd cyflenwad o gortynnau dysgwyr hefyd, sydd ar gael ar gyfer rhai llai hyderus.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **4 GORFFENNAF 2017** |
| **TEITL:** | **SAFBWYNT Y CYNGOR AR:**<br><br>**GWIREDDU'R UCHELGAIS: YMCHWILAID I STRATEGAETH GYMRAEG NEWYDD LLYWODRAETH CYMRU** |
| **AWDUR:** | **MAIR ROWLANDS,**<br><br>**DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mae'r Pwyllgor Iaith yn meddu ar ddyletswydd i gyflawni'r rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith o fewn y sir.<br><br>Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno safbwynt y Cyngor, ar Gwireddu'r Uchelgais: Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru, gan ystyried unrhyw gyfleoen a bygythiadau a gyfyd yr argymhellion i'r Gymraeg yng Ngwynedd |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae'r Pwyllgor Iaith yn meddu ar ddyletswydd i gyflawni'r rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith o fewn y sir.

**2. DOGFEN YMGYNGHORI: *MILIWN O SIARADWYR ERBYN 2050***

2.1 Ar 1 Awst 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori: *Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr erbyn 2050*.

2.2 Roedd y ddogfen ymgynghori yn adlewyrchu gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, gan fanylu erbyn y flwyddyn 2050 y bydd: '*yr iaith Gymraeg yn ffynnu, gyda nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn. Mae'n naturiol ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd, ac ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati a gwerthfawrogiad o'i chyfraniad diwylliannol ac economaidd*.

2.3 Er mwyn gwireddu nod y strategaeth o ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn canol y ganrif, adnabu Llywodraeth Cymru 6 maes gweithredu allweddol:

1. Cynllunio a pholisi iaith
2. Normaleiddio
3. Addysg
4. Pobl
5. Cefnogi
6. Hawliau

Ceir copi o'r ddogfen ymgynghori yn Atodiad 1.

2.4 Lluniwyd ymateb gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (ar y pryd) a oedd â chyfrifoldeb am y Gymraeg i'r ddogfen ymgynghori ar ran y Cyngor. Gwelir copi o'r ymateb drafft yn Atodiad 2.

**3. GWIREDDU'R UCHELGAIS – YMCHWILIAD I STRATEGAETH GYMRAEG NEWYDD LLYWODRAETH CYMRU (MAI 2017)**

3.1 Ym mis Mai 2017, cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu a gytunodd ei bod yn amser priodol i gynnal Ymchwiliad i'r strategaeth newydd. Nod yr ymchwiliad oedd ceisio llywio'r strategaeth newydd a dylanwadu arni ar gam ffurfiannol.

3.2 Nodir fod y Pwyllgor yn llwyr gefnogi nod mentrus y polisi o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050; serch hynny, nodir hefyd mai eu prif bryder yw nad yw goblygiadau'r nod strategol wedi cael eu hystyried yn llawn eto a bod diffyg manylion ac eglurder ynghylch sut y cyflawnir y nod hwn.

3.3 Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno 23 o argymhellion, a nodir bod mwyafrif ohonynt yn ymwneud ag agweddau ymarferol ar sut y gellir gwireddu'r uchelgais hwn a'r angen am eglurder ar y mannau aros ar hyd y ffordd.

3.4 Yn y tabl isod, cyflwynir argymhellion yr ymchwiliad, ynghyd a chymharu a yw'r argymhellion yn cyd-fynd gydag ymateb y Cyngor i'r ddogfen ymgynghorol, ac unrhyw gyfleon/bygythiadau pellach a ragwelir i Wynedd:

| | ARGYMHELLIAD | CYD-FYND EFO YMATEB CG | CYFLEON / BYGYTHIADAU |
|---|---|---|---|
| **1.** | Rydym yn argymell y dylai'r Llywodraeth gyhoeddi ei thybiaethau sylfaenol am y cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg y mae'n disgwyl o'i hymyriadau arfaethedig a'i bod yn ymgynghori ymhellach ar dargedau a cherrig milltir manwl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cyn eu mabwysiadu ar gyfer y strategaeth newydd | ✓ | |
| **2.** | Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth derfynol roi sylw dyledus i bwysigrwydd meithrin defnydd iaith yn y cymunedau, mewn bywyd cymdeithasol ac mewn gweithleoedd. Dylid gwneud hyn ochr yn ochr â chaffael iaith drwy addysg cyfrwng Cymraeg, addysg blynyddoedd cynnar a gwella ansawdd addysg Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chanlyniadau Cymraeg i ddisgyblion | ✓ | **CYFLE**<br>Mae cynnal a chynyddu defnydd iaith yn y cymunedau ac mewn bywyd cymdeithasol yn allweddol i Wynedd |
| **3.** | Rydym yn argymell bod yr Asiantaeth newydd arfaethedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg yn canolbwyntio'n glir o'r dechrau ar helpu i gyrraedd y nod strategol cyffredinol o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn enwedig drwy helpu rhieni i ddeall manteision addysg ddwyieithog a dysgu Cymraeg mewn ysgolion y tu allan i'r sector cyfrwng Cymraeg. | ✗<br>✓ | **CYFLE/BYGYTHIAD**<br>Yn ymateb y Cyngor i Bil y Gymraeg, nodwyd nad oeddem yn gefnogol i sefydlu Asiantaeth newydd i hyrwyddo'r Gymraeg.<br><br>Mae argyhoeddi rhieni i ddeall a gwerthfawrogi manteision addysg ddwyieithog yn greiddiol i gynnal ac adfywio'r Gymraeg yng Ngwynedd, ac mae'n hanfodol fod y negeseuon a gyflëir yn ymateb i gyd-destun a sefyllfa leol; yn achos Gwynedd ceir agweddau negyddol, difaterwch, diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o werth yr iaith |
| **4.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi fel blaenoriaeth, a hynny ar fyrder:<br>• Ei hasesiad o faint o athrawon ychwanegol sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fydd eu hanegn er mwyn cyrraedd nod cyffredinol y strategaeth: | ✓ | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Pryd y bydd angen yr athrawon hynny<br>• Sut y bydd yn nodi, recriwtio a hyfforddi’r athrawon hynny ar gyfer yr adeg y bydd eu hangen | | |
| **5.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa help a chefnogaeth ychwanegol y mae angen iddi eu darparu i gyflogwyr yn y sector preifat a busnesau er mwyn eu galluogi i ddatblygu ac ehangu eu darpariaeth Gymraeg fel rhan o’r broses o gyrraedd nod cyffredinol y strategaeth | ✓ | |
| **6.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ar fyrder ei hasesiad o’r adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen i gefnogi’r nod strategol o gyrraedd 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Dylai hyn gynnwys proffil a ragwelir o’r gwariant dros ran gynnar y strategaeth ac asesiad o’r gost gymharol o beth fydd yr ymyriadau amrywiol angenrheidiol debygol o fod | ✓ | **BYGYTHIAD**<br>Yn sgil cymaint o bwyslais ar y sector addysg cyfrwng Cymraeg i gyflawni nod y Strategaeth Iaith, mae’r adnoddau sydd eu hangen i wireddu hynny yn sylweddol, a gall hynny gael effaith niweidiol ar yr adnoddau a roddir i gynnal a chefnogi’r Gymraeg yn y sector addysg ac yn gymunedol yng Ngwynedd. |
| **7.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn benodol i asesiad Mudiad Meithrin y bydd angen 650 o gylchoedd meithrin newydd ychwanegol i gefnogi’r strategaeth | ✓ | **CYFLE/BYGYTHIAD**<br>Mae cyfle i sicrhau mai Cymraeg fydd y ddarpariaeth 30 awr o ofal plant am ddim, fel cyfrwng i gyfrannu at wireddu nod y strategaeth. Oni wneir hynny, caiff holl hanfod y strategaeth ei danseilio. |
| **8.** | Rydym yn argymell y dylai ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar fod yn flaenoriaeth wrth ystyried cyllid ychwanegol o dan y strategaeth | ✓ | Mae angen sicrhau fod y buddsoddiad hwn yn cael ei ledaenu ar draws Cymru, nid yn unig o safbwynt ehangu’r ddarpariaeth, ond cryfhau ac atgyfnerthu’r arlwy presennol drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **9.** | Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu hyfforddiant Cymraeg am ddim i rieni sy’n rhoi eu plant i ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg | ✓ | |
| **10.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella’r wybodaeth sydd ar gael ar alluoedd ymarferwyr y blynyddoedd cynnar o ran y Gymraeg er mwyn iddi allu cynllunio’n | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | briodol i sicrhau bod gan ymarferwyr y gymysgedd gywir o sgiliau a chyfleoedd i gamu ymlaen er mwyn cefnogi amcanion y strategaeth | ✓ | |
| **11.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n fanwl sut y mae'n bwriadu symud "ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol", gan gynnwys enghreifftiau o fodelau arfer da, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y bydd yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon gan rieni a'r gymuned ehangach | ✓ | **BYGYTHIAD**<br>Nid yw'r sefyllfa hon mor berthnasol i Wynedd. |
| **12.** | Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth derfynol bwysleisio'r angen i symud i nifer fwy o ddisgyblion ar draws y continwwm iaith a sut y cyflawnir hyn ym mhob categori ysgol yng Nghymru | ✓ | **BYGYTHIAD**<br>Nid yw'r sefyllfa hon mor berthnasol i Wynedd. |
| **13.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso effeithiolrwydd ei chynllun presennol i wella lefel Cymraeg athrawon sy'n ymarfer ac yn nodi amserlen arfaethedig ar gyfer sut y gall athrawon sy'n siarad Cymraeg, nad ydynt yn addysgu yn Gymraeg ar hyn o bryd, gael eu hannog i wneud hynny gan gynnwys darparu rhagor o gyfleoedd:<br>• Iddynt i drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg<br>• I fentora a chynlluniau eraill i helpu i feithrin hyfer yn eu gallu o ran y Gymraeg | ✓ | **CYFLE**<br>Hyn yn berthnasol i weithlu Ysgolion Uwchradd Tywyn a Friars yn benodol yng Ngwynedd. |
| **14.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir:<br>• Faint o athrawon ychwanegol sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fydd eu hangen er mwyn cyrraedd nod cyffredinol y strategaeth<br>• Pryd y bydd eu hangen<br>• Faint o'r athrawon ychwanegol hyn fydd yn dod o'r gweithlu addysgu presennol a faint fydd yn dod i'r proffesiwn drwy hyfforddiant cychwynnol athrawon neu lwybrau eraill | ✓ | **CYFLE**<br>Dylid hefyd ystyried dosbarthiad daearyddol athrawon, oherwydd gall fod anawsterau recriwtio athrawon Cymraeg mewn rhai ardaloedd penodol (gan gynnwys Gwynedd) |
| **15.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall gynyddu'r cyflenwad o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n dilyn hyfforddiant cychwynnol athrawon neu lwybrau mynediad eraill i'r proffesiwn gan ystyried unrhyw oblygiadau recriwtio ehangach y | ✓ | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gallai hyn eu cael ar recriwtio athrawon yng Nghymru ac mewn cystadleuaeth â rhannau eraill o'r DU. | | |
| **16.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rôl staff cymorth dysgu o ran cefnogi amcanion y strategaeth ac yn cymryd camau, ar y cyd gydag Estyn a Chyngor y Gweithlu Addysg, i gael darlun cliriach o'u sgiliau iaith presennol i helpu i lywio'r gwaith cynllunio yn y dyfodol | ✓ | |
| **17.** | Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth newydd roi pwyslais cyfartal ar wella deilliannau yn arwyddocaol yn sgil addysgu Cymraeg ail iaith, ynghyd â chynyddu'r niferoedd sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog | ✓ | |
| **18.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir sut y bydd yn gwella'r gwaith o addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn arwyddocaol | ✓ | **BYGYTHIAD**<br>Nid yw'r sefyllfa hon mor berthnasol i Wynedd. |
| **19.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â CBAC yn adolygu'r ddarpariaeth o adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr i sicrhau nad yw myfyrwyr sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o dan anfantais | ✓ | |
| **20.** | Rydym yn argymell y dylid cynnal gwerthusiad trylwyr o'r Cynllun sabothol gan edrych yn arbennig ar ei werth am arian o ran gwella deilliannau yn yr ystafell ddosbarth ac annog mwy o athrawon i addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg | ✓ | **CYFLE**<br>Yng Ngwynedd, y rhwystr mwyaf i athrawon rhag manteisio ar y Cynllun Sabothol yw eu amharodrwydd i gael eu rhyddhau o'u lleoliad gwaith am dymor. |
| **21.** | Rydym yn argymell bod yr Asiantaeth newydd arfaethedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg, gan weithio gyda chyrff sefydledig a mentrau lleol, yn hyrwyddo a marchnata'r Gymraeg fel iaith gymunedol sydd â manteision i siaradwyr fel sgil ac yn y gweithle | ✗<br>✓ | **CYFLE/BYGYTHIAD**<br>Yn ymateb y Cyngor i Bil y Gymraeg, nodwyd nad oeddem yn gefnogol i sefydlu Asiantaeth newydd i hyrwyddo'r Gymraeg.<br><br>Serch hynny, cefnogir yr angen i hyrwyddo a marchnata'r Gymraeg fel iaith gymunedol sydd â manteision i siaradwyr fel sgil ac yn y gweithle |
| **22.** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi darpariaeth Cymraeg i Oedolion o ansawdd da sydd ar gael yn eang | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ond ei bod yn ystyried yn ofalus flaenoriaeth y maes hwn o fewn y strategaeth o gymharu â meysydd blaenoriaeth eraill | ✓ | |
| **23.** | Rydym yn argymell bod y strategaeth derfynol yn cynnwys diffiniad clir o siaradwr Cymraeg wrth werthuso a yw’r strategaeth yn llwyddo i gyrraedd ei nod o greu miliwn o siaradwyr. | ✓ | **CYFLE/BYGYTHIAD**<br>Mae’n rhaid i’r diffiniad clir o siaradwr Cymraeg ystyried y defnydd a wneir o’r iaith, oherwydd os na wneir hynny, ac yr ystyrir unrhyw lefel gallu yn y Gymraeg yn “siaradwr”; gall hyn ddibrisio holl hanfod a bwriad y Strategaeth. |

3.5 Er nad oes unrhyw argymhelliad y mae'r Cyngor yn anghytuno ag ef yn ei hanfod, gan fod y rhestr o argymhellion wedi eu seilio ar gynnwys o ddogfen ymgynghori, a oedd â phwyslais affwysol ar y sector addysg cyfrwng Cymraeg fel y cerbyd i gyflawni'r nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050; y mae'r argymhellion bron i gyd felly yn ymwneud a'r sector addysg.

3.6 Un o brif negeseuon y Cyngor wrth ymateb i'r ddogfen ymgynghori oedd yr angen i Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru gyfarch anghenion amrywiol gwahanol ardaloedd o Gymru, ac yn arbennig felly'r cadarnleoedd. Nodwyd hefyd yr angen i ganolbwyntio ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ogystal a chynyddu nifer siaradwyr. Mae hyn yn ategu'r pwyntiau a wneir fel rhan o Argymhelliad 2, ond gan mai dim ond un argymhelliad allan o 23 sydd yn cyfeirio at hyn, ni ellir pwysleisio digon mai'r argymhelliad hwn yw'r un pwysicaf o ddigon i gael ei adlewyrchu yn y strategaeth newydd.

**4. CAMAU NESAF**

4.1 Deallir fod bwriad i gyhoeddi fersiwn derfynol o'r Strategaeth Iaith yn fuan gan Lywodraeth Cymru.

**5. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r aelodau:

- drafod cynnwys yr adroddiad Gwireddu'r Uchelgais: Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru a'r Argymhellion yng nghyd-destun sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd.

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

# Gwireddu'r Uchelgais

## Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru

Mai 2017

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r dogfen hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh**
Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddDGCh**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

# Gwireddu'r Uchelgais

## Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru

Mai 2017

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Sefydlwyd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): diwylliant; y celfyddydau; yr amgylchedd hanesyddol; y Gymraeg; cyfathrebu; darlledu a'r cyfryngau.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Bethan Jenkins AC (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Hannah Blythyn AC**
Llafur Cymru
Delyn



**Dawn Bowden AC**
Llafur Cymru
Merthyr Tudfil a Rhymni



**Suzy Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Jeremy Miles AC**
Llafur Cymru
Castell-nedd



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli

---

# Cynnwys


Rhagair .... 5

Argymhellion .... 7

01. Y strategaeth ddrafft .... 11

02. Targedau a Cherrig Milltir .... 17

03. Pwyslais y Strategaeth .... 19

04. Cynllunio'r Gweithlu .... 23

05. Adnoddau ariannol .... 27

06. Darpariaeth blynyddoedd cynnar .... 29

07. Darpariaeth Addysg Statudol .... 32

08. Dilyniant .... 41

09. Uwchsgilio a hyfforddiant .... 43

10. Materion ychwanegol i'w hystyried .... 47

Atodiad A – Sesiynau tystiolaeth lafar .... 52

Atodiad B – Tystiolaeth ysgrifenedig .... 53

Atodiad C – Casglu tystiolaeth allanol .... 55

# Rhagair

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hwn yn darged uchelgeisiol a fydd, os yn llwyddiannus, bron yn dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru mewn ychydig dros genhedlaeth.

Mae'r Pwyllgor yn llwyr gefnogi nod mentrus y polisi, ac wedi nodi y bydd yn adeiladol wrth drafod agweddau ymarferol ar sut y gellir gweithredu'r polisi radical hwn yn llwyddiannus.

Clywsom dystiolaeth gan amryw o randdeiliaid drwy gyflwyniadau ysgrifenedig a sesiynau tystiolaeth lafar. Clywsom dystiolaeth hefyd drwy sesiynau ymgysylltu allanol anffurfiol gyda rhanddeiliaid a disgyblion ysgol o bob cwr o Gymru.

Mae'n amlwg, o ystyried y dystiolaeth, er mwyn cael llwyddiant bydd angen gwaith caled, adnoddau ychwanegol sylweddol a thargedau clir. Bydd hefyd angen iddo fod yn seiliedig ar gefnogaeth barhaus pobl Cymru, siaradwyr Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg fel ei gilydd.

Mae ein hargymhellion, ar y cyfan, yn ymwneud ag agweddau ymarferol ar sut y gellir gwireddu'r uchelgais hwn a'r angen am eglurder ar y mannau aros ar hyd y ffordd.

Ein prif bryder yw nad yw goblygiadau'r nod strategol wedi cael eu hystyried yn llawn eto a bod diffyg manylion ac eglurder ynghylch sut y cyflawnir y nod. Rydym eto i'n hargyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi darparu'r dystiolaeth angenrheidiol ar raddfa debygol yr adnoddau a buddsoddiad ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni'r nod hwn. Mae'r uchelgais i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yn bolisi diwylliannol, er ei fod yn un a fydd angen ei gyflawni i raddau helaeth drwy'r system addysg. Mae risg amlwg y gallai hyn gael effaith wyrdroadol ar gyflawni blaenoriaethau addysgol gan fod y system wedi'i hadlinio i fod yn gallu cyflawni'r strategaeth iaith. Felly, mae'n bwysig bod yr adnoddau a'r gallu angenrheidiol i weithredu'r polisi yn ychwanegol at y gwariant presennol ar addysg.

Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon y Comisiynydd Iaith a'r Gweinidog fod gormod o awdurdodau lleol wedi bod yn segur o ran ysgogi ac asesu galw am y cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r prif sbardun ar gyfer gallu cynyddol – y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs) – wedi cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac ymddengys nad yw nifer o awdurdodau lleol wedi bod yn ddigon uchelgeisiol o ran creu'r twf angenrheidiol. Yn rhy aml, maent yn asesu'r galw presennol yn unig, heb edrych ar sut y gellir hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn gadarnhaol fel bod y galw yn cynyddu.

Mae'r strategaeth yn sôn am symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol Yn ein barn ni, y mater allweddol yw sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn symud ar hyd y continwwm dysgu tuag at fod yn rhugl ar draws addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae yna berygl ein bod yn canolbwyntio gormod ar newid categori iaith yr ysgol yn hytrach na gwella rhuglder disgyblion ym mhob ysgol.

Gan fod saith deg pump y cant o ddisgyblion Cymru yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw'r Pwyllgor yn teimlo bod digon o sylw yn cael ei roi i ffyrdd eraill posibl o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y strategaeth.

Gyda gwell canlyniadau, gallai ysgolion cyfrwng Saesneg fod yn ffynhonnell gyfoethog o siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol. Pe bai hynny'n digwydd, mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos sut mae'n bwriadu gwella addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Os yw'r nod cyffredinol am gael ei gyflawni, nid yw'n ddigon dibynnu ar y sector addysg a gynhelir yn unig. Mae gan addysg cyn-ysgol gyfraniad hanfodol i'w wneud hefyd, yn enwedig o ran 'normaleiddio'r' iaith o oed cynnar.

Yn gyffredinol, rydym yn credu bod diffyg eglurder ynghylch barn Llywodraeth Cymru ar y cyfraniad cymharol y bydd addysg cyfrwng Cymraeg, Cymraeg mewn ysgolion eraill, cyn-ysgol a mesurau 'normaleiddio' yn ei wneud o ran cyflawni'r nod cyffredinol. Byddem hefyd yn hoffi gweld mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ar hyn, a ph'un a oes bwriad i gael ffocws gwahanol ar gyfer ymyriadau gwahanol wrth i'r strategaeth fynd rhagddi.

I gloi, os yw'r nod o filiwn o 'siaradwyr Cymraeg' i fod yn ystyrlon, rhaid i hyn olygu mwy na dim ond gallu dweud ychydig o ymadroddion yn Gymraeg.  Mae'n rhaid iddo olygu deall a chynnal sgyrsiau naturiol ar y rhan fwyaf o bynciau bob dydd. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith ar ganfod ffordd wrthrychol o fesur cynnydd sy'n cael ei dderbyn yn eang. Yn ein barn ni, y mesur hwnnw ddylai fod y nifer o bobl sy'n nodi yn y Cyfrifiad eu bod yn siarad Cymraeg.

Mae'r gostyngiad yn nifer y bobl a nododd yn y cyfrifiad diwethaf eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi bod yn rhybudd sy'n galw am ddull gwahanol o amddiffyn dyfodol yr iaith yn ein bywyd cymdeithasol. Mae'n amlwg y bydd gwneud mwy o'r un peth yn annigonol. Wrth bennu targed trawiadol ar gyfer twf, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod bwriad uchelgeisiol i atal y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg a gwrthdroi'r duedd a welwyd yn ystod y Ganrif ddiwethaf. Ond er mwyn cyflawni'r uchelgais hwnnw, bydd angen cynllun twf manwl sy'n llawn adnoddau.

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai'r Llywodraeth gyhoeddi ei thybiaethau sylfaenol am y cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg y mae'n disgwyl o'i hymyriadau arfaethedig a'i bod yn ymgynghori ymhellach ar dargedau a cherrig milltir manwl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cyn eu mabwysiadu ar gyfer y strategaeth newydd. ........................................................................Tudalen 18

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth derfynol roi sylw dyledus i bwysigrwydd meithrin defnydd iaith yn y cymunedau, mewn bywyd cymdeithasol ac mewn gweithleoedd. Dylid gwneud hyn ochr yn ochr â chaffael iaith drwy addysg cyfrwng Cymraeg, addysg blynyddoedd cynnar a gwella ansawdd addysg Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chanlyniadau Cymraeg i ddisgyblion. ..............................................................................Tudalen 21

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod yr Asiantaeth newydd arfaethedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg yn canolbwyntio'n glir o'r dechrau ar helpu i gyrraedd y nod strategol cyffredinol o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn enwedig drwy helpu rhieni i ddeall manteision addysg ddwyieithog a dysgu Cymraeg mewn ysgolion y tu allan i'r sector cyfrwng Cymraeg. ........................................................Tudalen 22

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi fel blaenoriaeth, a hynny ar fyrder:

- Ei hasesiad o faint o athrawon ychwanegol sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fydd eu hangen er mwyn cyrraedd nod cyffredinol y strategaeth;
- Pryd y bydd angen yr athrawon hynny;
- Sut y bydd yn nodi, recriwtio a hyfforddi'r athrawon hynny ar gyfer yr adeg y bydd eu hangen. ............................................................................ Tudalen 26

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa help a chefnogaeth ychwanegol y mae angen iddi eu darparu i gyflogwyr yn y sector preifat a busnesau er mwyn eu galluogi i ddatblygu ac ehangu eu darpariaeth Gymraeg fel rhan o'r broses o gyrraedd nod cyffredinol y strategaeth.
..............................................................................................................................Tudalen 26

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ar fyrder ei hasesiad o'r adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen i gefnogi'r nod strategol o gyrraedd 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Dylai hyn gynnwys proffil a ragwelir o'r gwariant dros ran gynnar y strategaeth ac asesiad o'r gost gymharol o beth fydd yr ymyriadau amrywiol angenrheidiol yn debygol o fod. ....................Tudalen 28

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn benodol i asesiad Mudiad Meithrin y bydd angen 650 o gylchoedd meithrin newydd ychwanegol i gefnogi'r strategaeth. ....................Tudalen 31

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell y dylai ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar fod yn flaenoriaeth wrth ystyried cyllid ychwanegol o dan y strategaeth. ....................Tudalen 31

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ddarparu hyfforddiant Cymraeg am ddim i rieni sy'n rhoi eu plant i ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg. ....................Tudalen 31

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella'r wybodaeth sydd ar gael ar alluoedd ymarferwyr y blynyddoedd cynnar o ran y Gymraeg er mwyn iddi allu cynllunio'n briodol i sicrhau bod gan ymarferwyr y gymysgedd gywir o sgiliau a chyfleoedd i gamu ymlaen er mwyn cefnogi amcanion y strategaeth. ....................Tudalen 31

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n fanwl sut y mae'n bwriadu symud "ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol", gan gynnwys enghreifftiau o fodelau arfer da, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y bydd yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon gan rieni a'r gymuned ehangach. ....................Tudalen 33

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth derfynol bwysleisio'r angen i symud i nifer fwy o ddisgyblion ar draws y continwwm iaith a sut y cyflawnir hyn ym mhob categori ysgol yng Nghymru. .................... Tudalen 33

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso effeithiolrwydd ei chynllun presennol i wella lefel Cymraeg athrawon sy'n ymarfer ac yn nodi amserlen arfaethedig ar gyfer sut y gall athrawon sy'n siarad Cymraeg, nad ydynt yn addysg yn Gymraeg ar hyn o bryd, gael eu hannog i wneud hynny gan gynnwys darparu rhagor o gyfleoedd:

- iddynt i drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg;
- i fentora a chynlluniau eraill i helpu i feithrin hyder yn eu gallu o ran y Gymraeg. ........................................................................................ Tudalen 35

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir:

- faint o athrawon ychwanegol sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fydd eu hangen er mwyn cyrraedd nod cyffredinol y strategaeth;
- pryd y bydd eu hangen;
- faint o'r athrawon ychwanegol hyn fydd yn dod o'r gweithlu addysgu presennol a faint fydd yn dod i'r proffesiwn drwy hyfforddiant cychwynnol athrawon neu lwybrau eraill. ..........................................................Tudalen 35

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall gynyddu'r cyflenwad o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n dilyn hyfforddiant cychwynnol athrawon neu lwybrau mynediad eraill i'r proffesiwn gan ystyried unrhyw oblygiadau recriwtio ehangach y gallai hyn eu cael ar recriwtio athrawon yng Nghymru ac mewn cystadleuaeth â rhannau eraill o'r DU. ............... Tudalen 35

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rôl staff cymorth dysgu o ran cefnogi amcanion y strategaeth ac yn cymryd camau, ar y cyd ag Estyn a Chyngor y Gweithlu Addysg, i gael darlun cliriach o'u sgiliau iaith presennol i helpu i lywio'r gwaith cynllunio yn y dyfodol. ................ Tudalen 36

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth newydd roi pwyslais cyfartal ar wella deilliannau yn arwyddocaol yn sgil addysgu Cymraeg ail iaith, ynghyd â chynyddu'r niferoedd sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. ........................................................................................... Tudalen 39

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir sut y bydd yn gwella'r gwaith o addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn arwyddocaol. .......................................................................................... Tudalen 39

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â CBAC yn adolygu'r ddarpariaeth o adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr i sicrhau nad yw myfyrwyr sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o dan anfantais. ................................................................................................ Tudalen 40

**Argymhelliad 20. Rydym yn argymell y dylid cynnal gwerthusiad trylwyr o'r Cynllun Sabothol gan edrych yn arbennig ar ei werth am arian o ran gwella deilliannau yn yr ystafell ddosbarth ac annog mwy o athrawon i addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg. ........................................................ Tudalen 46**

**Argymhelliad 21. Rydym yn argymell bod yr Asiantaeth newydd arfaethedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg, gan weithio gyda chyrff sefydledig a mentrau lleol, yn hyrwyddo a marchnata'r Gymraeg fel iaith gymunedol sydd â manteision i siaradwyr fel sgil ac yn y gweithle. ............................................................... Tudalen 48**

**Argymhelliad 22. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi darpariaeth Cymraeg i Oedolion o ansawdd da sydd ar gael yn eang ond ei bod yn ystyried yn ofalus flaenoriaeth y maes hwn o fewn y strategaeth o gymharu â meysydd blaenoriaeth eraill. ....................................................... Tudalen 51**

**Argymhelliad 23. Rydym yn argymell bod y strategaeth derfynol yn cynnwys diffiniad clir o siaradwr Cymraeg wrth werthuso a yw'r strategaeth yn llwyddo i gyrraedd ei nod o greu miliwn o siaradwyr. ....................................................Tudalen 51**

# 01. Y strategaeth ddrafft

## Cyflwyniad

**2.** Ar 1 Awst 2016, lansiodd y Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes **ymgynghoriad ar strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg** yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Hydref 2016 ac mae'r strategaeth bresennol yn dod i ben yn ffurfiol ar 31 Mawrth 2017.

**3.** Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn ôl y Cyfrifiad diweddaraf yn 2011, roedd 562,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ar y sail honno, nod y strategaeth fydd bron dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn canol y ganrif.

**4.** Cytunodd y Pwyllgor y byddai hwn yn amser priodol i gynnal Ymchwiliad i'r strategaeth newydd. Nod yr ymchwiliad oedd ceisio llywio'r strategaeth newydd a dylanwadu arni ar gam ffurfiannol.

**5.** Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith i gyfeirio at raglenni astudio gwahanol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r rhain yn dermau cyfarwydd iawn mewn cysylltiad ag addysgu Cymraeg. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â dogfen ymgynghori Llywodraeth Iaith bod angen symud i ffwrdd o'r cysyniad "Cymraeg fel ail iaith" tuag at ffordd integredig a chydlynol o ystyried yr iaith fel iaith sydd wirioneddol yn fyw.

## Strategaeth y Gymraeg

**6.** Er mwyn cyrraedd nod cyffredinol y strategaeth o sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu blaenoriaethu chwe maes allweddol ar gyfer gweithredu.

1. - **Polisi Iaith a Chynllunio**: Er mwyn i holl elfennau eraill y strategaeth hon fod yn effeithiol, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen iddi gynllunio'n synhwyrol a phwrpasol i roi'r rhaglenni priodol ar waith ar yr amser priodol. Er enghraifft, os am gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg ar y raddfa sydd ei hangen, y cam cyntaf angenrheidiol mewn unrhyw strategaeth fydd creu cyflenwad digonol o athrawon i addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

2. - **Normaleiddio**: Drwy feithrin parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg ymysg pobl sy'n ei siarad, ac ewyllys da tuag ati ymysg y rheini nad ydynt yn ei siarad, mae Llywodraeth Cymru am weld y Gymraeg yn rhan normal o fywyd bob dydd. Mae hyn yn golygu bod pobl yn teimlo'n gyfforddus yn dechrau sgwrs yn Gymraeg, y gallant ddisgwyl derbyn gwasanaethau yn Gymraeg, a bod pobl yn gyfarwydd â chlywed a gweld y Gymraeg.

3. - **Addysg**: Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar hefyd yn hanfodol, oherwydd y cynharaf y mae plentyn yn dod i gysylltiad â'r iaith, y mwyaf o gyfle sydd ganddo i ddod yn rhugl.

4. - **Pobl**: Yn ogystal ag addysg, bydd yn hollbwysig cynyddu nifer y bobl sy'n trosglwyddo'r iaith i'w plant.

5. - **Cefnogi**: Mae datblygu seilwaith cadarn a chyfoes i gefnogi'r iaith yn hanfodol er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, gwella eu hyder i wneud hynny, a hwyluso ei defnyddio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Mae adnoddau digidol, cyfryngau iach ac amrywiol, proffesiwn cyfieithu ymatebol a modern, a chorpws sy'n adlewyrchu ac yn cynnal statws y Gymraeg fel iaith fyw, yn hollbwysig, a hynny ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar bob lefel.

6. - **Hawliau**: Mae deddfwriaeth yn gosod sylfaen ddiamod i gyrff weithredu o blaid yr iaith ac i siaradwyr Cymraeg ei defnyddio. Mae angen ysgogi unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r hawliau hyn yn eu cynnig. Y nod hirdymor yw symud at sefyllfa lle mae'r hawliau hyn wedi eu gwreiddio fel rhan naturiol o wasanaethau.[1]

**7.** Nododd y Strategaeth hefyd:

**2016 – nawr a nesaf**

Mae'r weledigaeth yn glir – bod yna filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn gwireddu hynny rydym yn rhagweld bod angen i sawl peth ddigwydd: mwy o blant mewn addysg Gymraeg, gwell cynllunio ynghylch sut mae pobl yn dysgu'r iaith, rhagor o gyfleoedd i'w defnyddio a'r rheini'n hawdd eu cyrraedd, cryfhau'r seilwaith a chwyldro i wella darpariaeth ddigidol yr iaith, a newid sylweddol yn y ffordd rydym yn siarad amdani.

**8.** Mae'r Strategaeth yn nodi mai'r system addysg yw'r brif ffordd o sicrhau y gall plant ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a chreu siaradwyr newydd. Ymhellach, mae'n nodi mai sicrhau bod gweithlu sy'n diwallu'r angen am addysg a hyfforddiant Cymraeg yw'r man cychwyn ar gyfer creu mwy o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn golygu cynllunio i helpu i hyfforddi athrawon a chynorthwywyr dysgu, ehangu cynlluniau sabothol ar gyfer y gweithlu presennol, a chynyddu'n sylweddol nifer y gweithwyr yn y sectorau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.

**9.** Felly, ei hamcan cyntaf yw creu gweithlu sydd â'r sgiliau priodol i addysgu a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwriadu gwneud hyn drwy:

– Gynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, i alluogi addysg i ragor o blant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.

– Cynyddu nifer y lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg er mwyn diwallu'r angen ymysg rhieni a gofalwyr a dechrau cymaint o blant â phosibl ar y daith i gael dwy iaith.

– Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd arbenigol a gwasanaethau, fel bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r bobl sy'n eu dewis.

– Normaleiddio cynllunio iaith a sicrhau bod arweinwyr priodol yn y swyddi cywir, fel bod y Gymraeg yn rhan awtomatig o gynllunio'r gweithlu ac wrth ystyried pa sgiliau sydd eu hangen.

[1] Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – 1 Awst 2016

## Datblygiadau diweddar mewn Addysg Gymraeg

**10.** Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru y dylai pob disgybl astudio Cymraeg o 3 hyd 16 mlwydd oed, naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith. Mae oddeutu 16 y cant o ddisgyblion yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae 10 y cant arall yn mynd i ysgolion dwyieithog, dau gyfrwng, neu Saesneg gyda darpariaeth Gymraeg sylweddol. Dengys Ystadegau Llywodraeth Cymru fod 22.2 y cant o blant 7 mlwydd oed wedi'u hasesu drwy gyfrwng Cymraeg iaith gyntaf yn 2014, ac 17.1 y cant o blant 14 mlwydd oed wedi'u hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf.

**11.** Yn 2014/15, roedd 391 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghymru, ynghyd â 39 o ysgolion dwy ffrwd, 33 o ysgolion Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg, ac 862 o ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 23 o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, 27 o ysgolion dwyieithog, 9 o ysgolion Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg, a 148 o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am gategoreiddio ysgolion ar sail ieithyddol yn y Briff hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Addysg Cyfrwng Cymraeg

**12.** Lansiodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 2010. Mae'n nodi cytundeb polisi newydd gydag awdurdodau lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Gwnaed hyn yn ddyletswydd yn ddiweddarach yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**13.** Mae'r strategaeth yn nodi chwe nod strategol a nifer o amcanion ynddynt:

- Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni;
- Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus;
- Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf;
- Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, ac sy'n meddu ar sgiliau iaith uchel yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu;
- Gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg; a
- Chyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned.

**14.** Mae'r Strategaeth yn cynnwys targedau cenedlaethol ac mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Bwriad y targedau yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol yw cefnogi'r gwaith o gyflwyno targedau cyffredinol Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

**15.** Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Y Camau Nesaf, a amlinellodd ei thair prif amcan ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg dros y 12 mis canlynol:

- Yr angen i wreiddio ein prosesau ar gyfer cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg: cryfhau prosesau cynllunio strategol ar gyfer pob cyfnod o addysg a hyfforddiant yn parhau'n flaenoriaeth;
- Yr angen i wella'r modd y cynllunnir y gweithlu a chefnogaeth i ymarferwyr: sicrhau gweithlu digonol ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn hanfodol; ac
- Yr angen i sicrhau bod ein pobl ifanc yn hyderus i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg ym mhob sefyllfa yn eu bywyd: ni all addysg a hyfforddiant yn unig warantu bod siaradwyr yn dod yn rhugl yn y Gymraeg, na'u bod yn dewis defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

**16.** Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac amlinellu eu targedau i Lywodraeth Cymru. Rhoddodd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar sail statudol. Yn dilyn gweithredu'r Ddeddf, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg statudol cyntaf ar gyfer y cyfnod 2014-2017. Rhoddodd y Ddeddf ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal ymgynghoriad ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a'u cynhyrchu a'u cyhoeddi er mwyn eu cyflwyno i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo a'u monitro. Roedd yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac wedi hynny daeth y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 i rym ar 31 Rhagfyr 2013.

## Y Gymraeg fel pwnc

**17.** Yn sgil cyflwyno Deddf Diwygio Addysg 1988, cyflwynwyd y Gymraeg yn raddol fel pwnc gorfodol ar gyfer disgyblion 5-14 oed (Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3) o 1990 ymlaen. O fis Medi 1999 ymlaen, daeth Cymraeg yn orfodol ar gyfer disgyblion 14-16 oed hefyd (Cyfnod Allweddol 4). Yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn 2011, caiff Cymraeg neu Datblygu'r Gymraeg hefyd eu haddysgu i bob plentyn 3-7 oed.

**18.** Mae Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yn cynnwys pynciau craidd a sylfaen, a restrir yn Neddf Addysg 2002.

**19.** Y pynciau craidd ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1-3 yw Mathemateg; Gwyddoniaeth; Saesneg; a Chymraeg iaith gyntaf (mewn perthynas ag ysgolion Cymraeg eu hiaith, fel y nodir yn Neddf Addysg 2002).

**20.** Y pynciau sylfaen yw Technoleg; Addysg Gorfforol; Hanes; Daearyddiaeth; Celf; Cerddoriaeth; Cymraeg ail iaith (os nad yw'r ysgol yn ysgol Gymraeg, fel y nodir yn Neddf Addysg 2002); ac ar gyfer Cyfnod Allweddol 3, Iaith dramor fodern.

**21.** Y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 yw Cymraeg iaith gyntaf; Mathemateg; Saesneg; a Gwyddoniaeth. Y pynciau sylfaen yw Addysg gorfforol; a Chymraeg ail iaith.

**22.** Er ei bod yn orfodol astudio Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith fel pwnc, ysgolion sy'n penderfynu pa fath o gymhwyster i gofrestru ar ei gyfer a gwneir y penderfyniadau hynny yn lleol. Yng Nghyfnod Allweddol 4 ar hyn o bryd, mae ysgolion yn cofrestru disgyblion naill ai ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf, TGAU Cymraeg ail iaith (cwrs llawn), TGAU Cymraeg ail iaith (cwrs byr), neu ddim yn eu cofrestru ar gyfer unrhyw gymhwyster. Mae Un Iaith i Bawb: Adolygiad o Gymraeg Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 (2013) gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod Cymraeg yn bwnc gorfodol yn

y cwricwlwm cenedlaethol, ond nad yw'n orfodol i ddisgyblion sefyll arholiad TGAU nac unrhyw gymhwyster arall yn y pwnc.

**23.** Mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â CBAC a rhanddeiliaid eraill, wrthi'n datblygu model diwygiedig ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith (cwrs llawn) a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2017. Bydd y cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith yn cael ei dynnu'n ôl ar ôl i'r model cwrs llawn diwygiedig gael ei gyflwyno, gyda'r cyfle asesu olaf ar gyfer y cwrs byr yn ystod haf 2018.

**24.** Ym mis Gorffennaf 2012, sefydlodd y Gweinidog Addysg ar y pryd y Grŵp Adolygu Cymraeg Ail Iaith - i adolygu darpariaeth Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Roedd adroddiad y Grŵp, Un iaith i bawb – Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 (2013), yn tynnu sylw at nifer o faterion y teimlai'r Grŵp a oedd angen sylw i wella safonau o ran Cymraeg ail iaith, gan gynnwys:

- Nid yw disgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da wrth drosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3;
- Ni chaiff digon o amser ei neilltuo i addysgu'r pwnc, ac mewn rhai ysgolion, mae'r amser cyn lleied ag awr bob pythefnos;
- Mae diffyg hyder a gallu i addysgu Cymraeg ail iaith yn amlwg ymhlith llawer o athrawon mewn ysgolion cynradd;
- Mae gormod o'r disgyblion sy'n dilyn y cwrs byr yn cael eu cofrestru ar gyfer yr arholiad sylfaenol er bod ganddynt y gallu i gael graddau A*-B, graddau nad oes modd eu cael yn yr arholiad sylfaen;
- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion glywed nac ymarfer yr iaith y tu hwnt i wersi Cymraeg ffurfiol;
- Mewn gormod o ysgolion uwchradd, caiff y pwnc ei addysgu gan athrawon anarbenigol nad oes ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o fethodoleg addysgu ail iaith.

**25.** Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Grŵp Adolygu yn datgan y byddai'n gofyn i'r Athro Donaldson ystyried yr argymhellion hynny sy'n ymwneud â'r cwricwlwm fel rhan o'i adolygiad annibynnol o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu.

**26.** Rhoddodd y Gweinidog ar y pryd wedyn ddiweddariad pellach ar y cynnydd a wnaed tuag at weithredu'r argymhellion hyn ym mis Hydref 2015, ar ôl cyhoeddi Adolygiad Annibynnol yr Athro Donaldson o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru - Dyfodol Llwyddiannus.

**27.** Dywedodd y Gweinidog fod Dyfodol Llwyddiannus yn gwneud 10 o argymhellion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y cwricwlwm, a bod y rhain yn ymateb yn uniongyrchol i'r argymhellion allweddol a wnaed gan y Grŵp Adolygu Cymraeg Ail Iaith. Derbyniodd y Gweinidog yr holl argymhellion hyn, gan gynnwys y bydd y Gymraeg yn parhau'n orfodol mewn ysgolion hyd at 16 mlwydd oed.

**28.** Yn ôl y Gweinidog ar y pryd, dylai'r cwricwlwm newydd ganolbwyntio o'r newydd ar ddysgu Cymraeg fel ffordd o gyfathrebu yn bennaf, yn enwedig cyfathrebu a deall ar lafar. Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella'r gwerth a roddir ar y Gymraeg drwy gryfhau'r ffocws ar ei gwerth masnachol ar gyfer y farchnad swyddi, ar y manteision gwybyddol ymddangosol mewn cysylltiad â dwyieithrwydd, a'i phwysigrwydd ar gyfer galluogi plant a phobl ifanc i gael dealltwriaeth dda o fywyd diwylliannol Cymru yn y gorffennol ac yn y presennol.

**29.** Amcan cyntaf Llywodraeth Cymru yn y strategaeth ddrafft yw creu gweithlu sydd â'r sgiliau addas i addysgu a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**30.** Mae cyfran sylweddol o'r dystiolaeth a gafwyd yn canolbwyntio ar agweddau bras y strategaeth ei hun, gyda llawer yn mynegi pryderon ynghylch pwyslais y strategaeth, yr eglurder a'r manylion a ddarperir, a'r diffyg targedau a cherrig milltir a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i fesur llwyddiant y strategaeth.

**Ein barn ni**

O'r cychwyn, rydym eisiau datgan yn glir ein bod yn cefnogi uchelgais gyffredinol y strategaeth ddrafft o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2050. Fodd bynnag, er gwaethaf yr awydd i'r strategaeth lwyddo, ni fydd modd sicrhau'r lefel angenrheidiol o newid dim ond drwy ddymuno hynny. Bydd yn gofyn am waith caled, adnoddau ychwanegol sylweddol a meddwl clir os am gyrraedd nod y strategaeth.

Mae ein hargymhellion yn ymwneud yn bennaf â'r agweddau ymarferol sy'n gysylltiedig â sut y gellir gwireddu'r uchelgais.

# 02. Targedau a Cherrig Milltir

**31.** Roedd nifer o'r rhai a gyfrannodd at yr ymchwiliad yn teimlo bod y strategaeth ddrafft yn brin o dargedau a cherrig milltir a fyddai'n galluogi i gynnydd y strategaeth gael ei asesu. Awgrymodd Cymdeithas yr Iaith amrywiaeth o dargedau a cherrig milltir penodol, sy'n cael eu nodi yn ei phapur tystiolaeth cyhoeddedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Awgrymodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y dylid gosod targedau blynyddol ar gyfer nifer y graddedigion prifysgol sy'n ymgymryd â chyfran o'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**32.** Pwysleisiodd cyfranwyr eraill yr angen am gerrig milltir a thargedau mesuradwy, yn enwedig yn cwmpasu cyfnodau 5 mlynedd ers ei fabwysiadu ac roeddent yn teimlo bod y strategaeth ddrafft yn brin o dargedau a cherrig milltir clir a manwl a fyddai'n caniatáu i gynnydd y strategaeth gael ei asesu.

**33.** Ysgrifennodd Cymdeithas yr Iaith, er enghraifft, fod angen y canlynol:

> i) Is-dargedau bob degawd, neu'n ddelfrydol bob pum mlynedd, ar y ffordd i'r miliwn o siaradwyr;
>
> ii) anelu at darged uchelgeisiol erbyn 2041 sy'n rhoi hyblygrwydd i gynyddu'r targed ar gyfer 2051 ac, yn ogystal, rhoi mwy o sicrwydd bod twf yn nifer a chanran siaradwyr y Gymraeg yn ddigon i gyrraedd y miliwn erbyn 2050.

**34.** Ymddengys fod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cytuno â'r farn hon:

> Mae'n bwysig gosod cerrig milltir a thargedau clir a phwrpasol ar hyd y cyfnod amser er mwyn gallu monitro cynnydd a chyflawniad…credwn bod angen cyhoeddi cynllun gweithredu llawn i gyd-fynd â'r strategaeth newydd hon, a chredwn fod angen gosod targedau a cherrig milltir penodol ar gyfer 5, 10 a 15 mlynedd cyntaf y strategaeth er mwyn mesur cynnydd y cynlluniau a gyflwynir.

**35.** Gan gyfeirio at y weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, dywedodd Prif Arolygydd Estyn:

> Byddwn i'n dweud bod angen cynllun manwl. Dyna beth sydd ddim ar gael ar hyn o bryd. Ar lefel genedlaethol, byddai eisiau targedau clir o'r hyn a fwriedir ei gyflawni rhwng nawr a 2050.

**36.** Gofynnodd Huw O Jones gwestiynau i'r Gweinidog yn ei ymateb i'r ymgynghoriad:

> Pam bydd y cynnydd yn arafach ar gychwyn y cyfnod? Alun, a fedri di gyhoeddi graff, neu tabl, yn dangos faint o siaradwyr Cymraeg newydd y bydd angen eu creu pob blwyddyn, rhwng nawr a 2050, er mwyn cyrraedd targed o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg rhugl?

**37.** Ymddangosodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes gerbron y Pwyllgor ar 14 Medi 2016, cyn cyhoeddi'r strategaeth ddrafft. Yn ystod y sesiwn graffu, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> Mae'n rhaid bod yna dargedi'n cael eu gosod yn ystod y cyfnod, a thargedi ar gyfer yr impact yr ydym ni'n ei gael, a hefyd beth yr ydym ni'n mynd i'w wneud yn ystod y blynyddoedd nesaf ac yn ystod, dyweder, y pum mlynedd nesaf, y 10 mlynedd nesaf…So, mi fyddwch chi'n gweld targedi ac amserlen pan fyddwch yn gweld y strategaeth newydd yn y flwyddyn nesaf.[2]

**38.** Yn ystod y sesiwn graffu ar waith y Gweinidog ar 18 Ionawr 2017, ailbwysleisiodd y ffaith y bydd fframwaith o dargedau yn cael ei gyhoeddi yr un pryd â'r strategaeth.[3] Fodd bynnag, gan nad oedd targedau a cherrig milltir wedi'u cynnwys yn y strategaeth ddrafft, nid oedd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau arnynt yn ystod y broses ymgynghori nac i'r Pwyllgor graffu ar y Gweinidog ynghylch ymarferoldeb y targedau.

**Ein barn ni**

Er mai prin fydd y rhai a fydd yn gwrthwynebu nod cyffredinol y strategaeth, mae'n rhaid cael rhyw fath o asesiad o ba mor ymarferol yw'r nod hwnnw, yn enwedig os yw'n annhebygol o gael ei gyflawni heb fuddsoddiad sylweddol a newid diwylliant.

Gallwn ddeall na all targedau a cherrig milltir terfynol gael eu gosod nes bod y strategaeth ei hun ar ei ffurf derfynol. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru wedi darparu rhywfaint o asesiad cychwynnol, er enghraifft, o nifer y lleoedd ysgol a'r athrawon ychwanegol y gallai fod eu hangen. Mae diffyg unrhyw amlinelliad ystyrlon o dargedau a cherrig milltir posibl yn y drafft ymgynghorol wedi ei gwneud yn anodd i ymgyngoreion, a'r Pwyllgor, wneud asesiad hyddysg o ba mor realistig yw nod cyffredinol y strategaeth.

Yn ogystal â cherrig milltir a thargedau, byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am p'un a fwriedir cael ymyriadau a phwyslais gwahanol yn ystod cyfnodau gwahanol y strategaeth. Er enghraifft, bydd mwy o ffocws ar addysg feithrin a blynyddoedd cynnar i ddechrau neu ar uwchsgilio athrawon Cymraeg mewn ysgolion "cyfrwng Saesneg"?

Pan osodir targedau, dylent fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi ei thybiaethau, ynghylch y cynnydd dros amser y mae'n disgwyl yn nifer y siaradwyr Cymraeg newydd o ganlyniad i'w hymyriadau arfaethedig, er mwyn i randdeiliaid ymgysylltu â hynny.

Mae hyn yn awgrymu y bydd angen cyfnod pellach o ymgynghori ar ôl cyhoeddi'r strategaeth 'derfynol' fel y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r tybiaethau sy'n sail i'r strategaeth a pha mor realistig a mesuradwy yw'r targedau a'r cerrig milltir arfaethedig.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai'r Llywodraeth gyhoeddi ei thybiaethau sylfaenol am y cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg y mae'n disgwyl o'i hymyriadau arfaethedig a'i bod yn ymgynghori ymhellach ar dargedau a cherrig milltir manwl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cyn eu mabwysiadu ar gyfer y strategaeth newydd.

---

[2] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 14 Medi 2016 paragraff 182
[3] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 18 Ionawr 2017 paragraffau 142 a 143

# 03. Pwyslais y Strategaeth

**39.** At ei gilydd, roedd y rhai a gyfrannodd at yr ymchwiliad o'r farn bod y pwyslais a roddir ar addysg er mwyn galluogi'r Llywodraeth i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn rhesymol. Wedi'r cyfan, os yw Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg, yna mae'n rhesymol credu mai drwy'r llwybr hwn yw y bydd cyfran sylweddol o'r siaradwyr Cymraeg newydd yn cael eu creu.

**40.** Fodd bynnag, mynegodd nifer o gyfranwyr farn na ddylai'r pwyslais ar addysg fod ar draul meysydd eraill o ddatblygiad yr iaith Gymraeg. Nododd Prifysgol Aberystwyth, er enghraifft:

> Mae addysg yn faes a gysylltir yn bennaf â chaffael iaith a meysydd megis y gymuned, bywyd cymdeithasol a'r gweithle yn rhai a gysylltir yn bennaf â defnydd iaith. Oherwydd lefel y sylw i addysg mae lle i gasglu nad yw'r math o ymyrraethau a drafodir yn y drafft ymgynghorol o'r strategaeth yn llwyddo i daro'r cydbwysedd priodol rhwng cynyddu niferoedd siaradwyr ag ehangu defnydd o'r iaith.

**41.** Pwysleisiodd Cymdeithas yr Iaith hefyd yr angen i sicrhau nad yw cynllunio'r gweithlu a chaffael iaith yn digwydd ar draul ffactorau pwysig eraill gan ddweud:

> Mae'n bwysig nad yw'r gwleidyddion yn anghofio am eu hymrwymiad i'r ddau nod arall o ran defnydd y Gymraeg ac atal yr allfudiad.

**42.** Er bod y strategaeth yn pwysleisio llawer ar greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, roedd rhai yn holi a ddylai fod mwy o bwyslais ar **greu galw** am addysg cyfrwng Cymraeg. Gwnaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) y pwyntiau a ganlyn:

> **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**
> O ran targedau ehangach er mwyn normaleiddio'r Gymraeg yn yr holl gyfundrefn addysg, dylid ystyried targedau a fyddai nid yn unig 'ymateb i'r galw', ond hefyd arwain a chreu'r galw.

> **CLILC**
> Yn ogystal ag ateb y galw am addysg Gymraeg ac athrawon Cymraeg yn yr ysgolion Saesneg, mae angen creu galw fel y bydd miliwn o Gymry Cymraeg erbyn 2050.

**43.** Cyfeiriwyd sawl gwaith at sicrhau nad y sector addysg yn unig y canolbwyntir arno o ran cynllunio'r gweithlu. Dywedodd Swyddle, arbenigwr recriwtio Cymraeg preifat, yn ei ymateb:

> Mae pwyslais ar ddarpariaeth gweithlu addysgu yn y strategaeth ond mae angen hefyd i greu galw yn y gweithlu ehangach, gan gymell y defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Dylai unrhyw strategaeth Iaith fod ar sail diwylliannol/cymdeithasol (cyfleoedd tu allan i'r ystafell ddosbarth) ond hefyd ar sail economaidd (gwaith, gyda chymhelliad, hyrwyddwyr busnes a modelau rôl).

**44.** Nododd Mudiad Meithrin hefyd fod angen cynllunio ar draws sectorau, nid yn unig ym maes addysg:

> Nodwn yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd a gwasanaethau arbenigol. Cynigiwn yr angen i flaenoriaethu hyn, er mwyn medru darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg rhagweithiol ar draws y sector cyhoeddus ehangach ac mewn busnesau eraill.

**45.** Mynegodd rhai cyfranwyr bryderon hefyd fod y strategaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar waith Llywodraeth Cymru o ran cynllunio ieithyddol, ac yn methu â nodi cyfraniadau rhanddeiliaid a sefydliadau pwysig eraill o ran sicrhau bod amcanion y strategaeth yn cael eu cyflawni:

> **Prifysgol Aberystwyth**
> Mae peth amwysedd i'w weld yn y ddogfen ymgynghorol o ran union natur y strategaeth arfaethedig […] mae dadansoddiad manwl o gynnwys gweddill y ddogfen yn dangos mai gweithgaredd gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei drafod a'i bwysleisio yn fwy na dim arall. Prin, er enghraifft, yw'r cyfeiriadau at actorion pwysig eraill megis llywodraeth leol, cyrff trydydd sector a chyrff cymdeithas sifil.

> **CLILC**
> Mae'n hanfodol nodi sefydliadau sy'n gallu helpu'r strategaeth i lwyddo a gofalu y bydd deilliannau ac atebolrwydd eglur. Dylai ffrydiau ariannu gyd-fynd â'i gilydd a bod yn gynaliadwy dros y tymor canolig a hir.

**46.** Fodd bynnag rhoddodd rhai cyfranwyr air o rybudd ynglŷn â nod Llywodraeth Cymru:

> **Cyngor Tref Aberdaugleddau**
> Whilst it is a laudable aim to promote the Welsh language for those who are interested and who live in those parts of the country where it is widely spoken it is unrealistic to aim for almost a quarter of the total population of Wales and to promote it at a time when many main services are being savagely cut…to promote further Welsh medium education and Welsh medium schools with enhanced facilities whilst forcing the closure and/or amalgamation of English medium schools reeks of bias and favouritism.

> **CLILC**
> Bydd angen neilltuo digon o adnoddau ar gyfer y strategaeth, hefyd. Fe fydd yn hanfodol i'r strategaeth adnabod a chydnabod yr amrywio ledled y wlad ynglŷn â nifer y siaradwyr a gallu pob ardal i gynyddu nifer neu ganran y Cymry Cymraeg yn ei phoblogaeth.

> **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
> The Council is realistic in that this is a hugely ambitious aim and is concerned that without proper, sustained and thorough planning at a national level that it may not be achieved.

**Ein Barn Ni - Rôl Addysg Gymraeg**

Mae'r strategaeth ddrafft yn gosod yr her ganolog o gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn deg ar ysgwyddau'r sector addysg cyfrwng Cymraeg. Ar y cyfan, roedd y rhai a gyfrannodd at ein hymchwiliad yn cytuno bod hwn yn ddull rhesymol. Rydym yn rhannu'r farn y bydd angen i unrhyw strategaeth lwyddiannus bwyso'n drwm ar y system addysg Gymraeg i gynhyrchu nifer sylweddol o'r siaradwyr Cymraeg newydd y bydd eu hangen er mwyn cyrraedd y targed. Fel cam cyntaf yn hyn, mae'n hanfodol bod lefel bresennol y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hateb.

Mynegodd rhai bryder fodd bynnag. Fel y nododd Prifysgol Aberystwyth, mae angen taro cydbwysedd priodol rhwng cynyddu nifer y siaradwyr a chynyddu defnydd o'r iaith. Yn ein barn ni, er bod addysg cyfrwng Cymraeg wedi dangos ei bod yn llwyddiannus iawn o ran cynhyrchu siaradwyr Cymraeg newydd, mae perygl y gall gorddibyniaeth ar y system addysg beri i'r iaith gael ei chyfyngu i fod yn iaith addysg, a allai fod yn wrthgynhyrchiol. Nid ydym yn argyhoeddedig bod dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru wedi taro'r cydbwysedd hwn.

Nid ydym yn argyhoeddedig ychwaith mai ysgogi galw pellach am addysg cyfrwng Cymraeg yw'r unig ymyrraeth a all lwyddo neu sydd ei angen. Mae angen pwyso a mesur y pwsylais ar y sector hwn o ran y cydbwysedd ynghyd ag ymyriadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddi yn y Cylchoedd Meithrin ac ymestyn y gweithlu i addysg Cymraeg i safon uchel mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu pa ymyriadau sy'n gwneud y cyfraniad gorau i gyflawni nodau'r strategaeth a blaenoriaethu adnoddau yn unol â hynny.

Yn fwy na hynny, os oes uchelgais wirioneddol i sicrhau bod miliwn o bobl nid yn unig yn siarad Cymraeg, ond yn ei defnyddio yn eu cymunedau, yna mae angen i ni sicrhau bod amrywiaeth o bolisïau, yn ychwanegol at y maes addysg, sy'n cefnogi pobl i ddefnyddio'r iaith yn gymunedol ac yn gymdeithasol. Ni all hyn ddibynnu ar ymyrraeth y Llywodraeth yn unig. Mae angen i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys llywodraeth leol a sefydliadau'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a busnesau preifat fod yn gefnogol ac ymrwymo i'r nodau strategaeth a chyflwyno'r ymrwymiadau mwyaf uchelgeisiol y maent yn teimlo y gallant wneud, tuag at eu cyflawni - fel eu bod nhw'n atebol hefyd.

Dylai fod, felly, ochr yn ochr â'r pwyslais ar addysg Gymraeg, bwyslais clir iawn yn y strategaeth derfynol ar bolisïau cymunedol, bywyd cymdeithasol a'r gweithlu sy'n helpu i annog defnydd byw a bywiog o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd modern yng Nghymru.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth derfynol roi sylw dyledus i bwysigrwydd meithrin defnydd iaith yn y cymunedau, mewn bywyd cymdeithasol ac mewn gweithleoedd. Dylid gwneud hyn ochr yn ochr â chaffael iaith drwy addysg cyfrwng Cymraeg, addysg blynyddoedd cynnar a gwella ansawdd addysg Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chanlyniadau Cymraeg i ddisgyblion.

**Ein Barn Ni - Hyrwyddo'r Gymraeg**

Rydym yn trafod cyllido yn fwy manwl yn ddiweddarach. Fodd bynnag, beth bynnag yw'r cydbwysedd terfynol rhwng caffael iaith a defnydd iaith, mae'n werth nodi bod yr adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn debygol o fod yn sylweddol os ydym am gyrraedd y targed.

Ar wahân i'r adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen, her arall y bydd angen ei goresgyn yw gwrthwynebiad posibl gan gymunedau i ehangu o'r fath mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n anodd gweld sut y gellir cyflawni newid diwylliannol mor sylweddol heb gymorth gweithredol rhieni a chymunedau a dadl gyhoeddus ehangach am flaenoriaethau gwariant cyhoeddus cymharol.

Mae angen, felly, ymestyn allan at y rhai nad ydynt yn ymgysylltu â'r iaith neu amcanion y strategaeth ar hyn o bryd. Bydd yn bwysig darbwyllo cymunedau - yn enwedig rhieni newydd - a phobl ifanc o fanteision addysg ddwyieithog. Bydd gan yr Asiantaeth newydd arfaethedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg ran amlwg i'w chwarae yn y maes hwn, a bydd yn bwysig bod ganddi ffocws clir ar helpu i gyflawni'r strategaeth ar ôl ei sefydlu.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod yr Asiantaeth newydd arfaethedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg yn canolbwyntio'n glir o'r dechrau ar helpu i gyrraedd y nod strategol cyffredinol o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn enwedig drwy helpu rhieni i ddeall manteision addysg ddwyieithog a dysgu Cymraeg mewn ysgolion y tu allan i'r sector cyfrwng Cymraeg.

# 04. Cynllunio’r Gweithlu

**47.** O ran yr ymchwiliad hwn, gellid rhannu cynllunio’r gweithlu yn dair ffrwd, hynny yw:

- cynllunio’r gweithlu o ran athrawon ac ymarferwyr sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- cynllunio’r gweithlu o ran adnabod sectorau penodol ar gyfer sgiliau Cymraeg;
- cynllunio’r gweithlu ar lefel genedlaethol - gofyn am archwiliadau sgiliau iaith ar draws yr holl sectorau yng Nghymru.

## Athrawon ac ymarferwyr

**48.** Gan fod yr ymchwiliad yn pwysleisio’n benodol ar y gweithlu addysg, nid yw’n syndod bod y sawl a gyfrannodd at yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar gynllunio’r gweithlu ar draws y sector addysg:

> **Cymwysterau Cymru**
> Cam pwysig o’r cychwyn fydd i Lywodraeth Cymru gael dealltwriaeth lawn o’r capasiti a’r gallu sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â sgiliau Cymraeg mewn ysgolion.

> **Cyngor Sir y Fflint**
> The Welsh Government need to have a robust action plan to support the development of the future Welsh medium teaching workforce. Continuing in the same way will not produce the changes needed. There will need to be a radical re-think about how this can be achieved.

> **Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru - UCAC**
> Gellir dadlau bod y broblem o gynllunio’r gweithlu addysg yn broblem systemig hir dymor. Mae gormod yn cael ei adael i hap a damwain ar hyn o bryd…Mae’n bwysig defnyddio dull effeithiol, hwylus o gasglu data angenrheidiol ac i wneud hyn cyn gynted â phosib.

## Cynllunio’r gweithlu - sectorau eraill

**49.** Fodd bynnag, dadleuodd rhai cyfranwyr y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar dargedu sectorau penodol lle bydd angen sgiliau Cymraeg yn y dyfodol.

> **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
> Credwn bod angen dwysáu a chyflymu’r broses o adnabod anghenion gweithlu’r dyfodol mewn gwahanol feysydd, gan ystyried pa lefel ac ystod o sgiliau Cymraeg a dwyieithog y bydd eu hangen mewn meysydd penodol ymhen degawd a mwy.

> **Popeth Cymraeg**
> Mae’n amlwg mai’r system addysg i blant yw’r llwybr pwysicaf o ran creu

> siaradwyr Cymraeg…gall maes Cymraeg i Oedolion, fodd bynnag, wneud gwaith eithriadol o bwysig o safbwynt targedu sectorau penodol.

**50.** Awgrymwyd hefyd gan rai y dylai cynllunio ieithyddol gael ei wneud ar lefel genedlaethol, ar draws pob sector, ac wrth wneud hynny, ymgysylltu â chyflogwyr ar draws Cymru ynglŷn â datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu.

> **Colegau Cymru**
> Engage with employers - across all sectors to talk about their Welsh language skills needs.

> **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
> Mae angen datblygu gweithlu â sgiliau dwyieithog cadarn ym mhob maes o wasanaeth, a dylid ceisio gosod targedau penodol o ran nifer y gweithwyr a all weithio'n ddwyieithog ar draws y sectorau.

> **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
> The Council is prepared and willing to work towards increasing the number of bilingual children and young people but would welcome a commitment from the Welsh Government that its efforts will be rewarded and that the planning for future bilingual jobs is done on a national level across the whole range of sectors.

**51.** Roedd rhai cyfranwyr o'r farn bod mwy o angen am weithio gyda'r sector preifat, ymgysylltu â busnesau a darparu cefnogaeth i gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg/dwyieithog.

> **Swyddle**
> Mae gan yr Iaith Gymraeg gyfle lawer yn well i esblygu a goroesi mewn byd sy'n globaleiddio drwy ddod yn Iaith busnes a masnach. Mae gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd (2014) wedi rhoi rywfaint o sail ar gyfer cynllun strategol. Fe soniodd ymateb Llywodraeth Cymru am iaith fel "mantais ychwanegol a fydd yn eu helpu i achub y blaen ar eu cystadleuwyr" ond byddai o fudd i strategaethau marchnata hefyd bwysleisio gwerth ychwanegol yr Iaith.

> **Colegau Cymru**
> Must engage a new audience strategically – work with private sector (provider of services), retail, tourism and hospitality, business representative bodies – FSB, CBI, IOD [Ffederasiwn Busensau Bach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Sefydliad y Cyfarwyddwyr] - what skills are they looking for, and respond to these needs.

**52.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, roedd y Gweinidog o'r farn bod angen annog a galluogi busnesau i ddatblygu ac ehangu eu gallu yn yr iaith Gymraeg, y dull 'moronen' yn hytrach na'r ffon.

> My inclination is always that we should cajole, sometimes persuade, encourage, enable—'enable' is the most powerful, of course; 'enable' is always the most powerful—help people. You know, the role of Government could well be, for example, to help a small business owner to produce bilingual signs, signage and the rest of it; it could be to provide a larger business with support in delivering what would be a bilingual proposition to potential customers.[4]

**53.** Disgrifiodd y Gweinidog ei obeithion hefyd am ddatblygu'r Gymraeg o fewn y sector preifat.

> I hope that, as we normalise, if you like, the use of the Welsh language in other parts of the society and the community, business itself will feel able to be a part of that. It is not my intention to simply use compulsion at every opportunity…As a Welsh speaker, I know that the bilingual policies that work easiest for me are bilingual policies that are delivered by people who care and are doing it because they think it's the right [thing] to do, because it's part of their business model, it's part of who they are, rather than somebody who's just compelled to put up a bilingual sign.[5]

**54.** Dim ond dau bapur tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r ymchwiliad gan fusnesau yn y sector preifat.

**Ein barn ni - Athrawon ac Ymarferwyr**

Yn gynharach amlinellwyd ein barn bod angen rhoi pwyslais priodol yn y strategaeth i feithrin y defnydd o'r iaith mewn meysydd heblaw addysg cyfrwng Cymraeg. Ond, nid oes fawr o amheuaeth, os am sicrhau bod y strategaeth yn cyrraedd ei nod cyffredinol, y bydd angen ehangu'n sylweddol y rhai sy'n cael addysg ddwyieithog a'r gweithlu addysg sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn gwneud argymhellion penodol pellach yn y maes hwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig bod gan Lywodraeth Cymru wybodaeth ddigon cadarn am faint y dasg a sut y gellid mynd i'r afael â hi. Mae'n annhebygol y bydd y math o ehangu sydd ei angen o ran y ddarpariaeth yn cael ei gyflawni heb gael syniad clir o:

- Nifer yr athrawon ychwanegol ac ymarferwyr eraill y bydd eu hangen yn y dyfodol i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Faint ohonynt a fydd eisoes yn rhan o'r gweithlu a faint o recriwtiaid newydd y bydd eu hangen;
- Y gofynion hyfforddi, gan gynnwys amseroedd cyflwyno;
- A yw'r ysgogiadau polisi i annog y math hwn o ehangu ar waith ar hyn o bryd.

Yn ddi-os, bydd angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o gwestiynau eraill, nid lleiaf yr adnoddau ariannol sydd eu hangen. Fodd bynnag, y cam cyntaf yw i Lywodraeth Cymru nodi'n glir yr hyn y mae'n credu yw'r gofynion ychwanegol a sut y mae'n bwriadu diwallu'r anghenion hyn**.

[4] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 18 Ionawr 2017 paragraff 314
[5] Ibid – paragraff 308

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi fel blaenoriaeth, a hynny ar fyrder:

- Ei hasesiad o faint o athrawon ychwanegol sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fydd eu hangen er mwyn cyrraedd nod cyffredinol y strategaeth;
- Pryd y bydd angen yr athrawon hynny;
- Sut y bydd yn nodi, recriwtio a hyfforddi'r athrawon hynny ar gyfer yr adeg y bydd eu hangen.

**Ein Barn Ni - Sectorau eraill**

Fel yr ydym wedi dweud eisoes, er mai'r system addysg yw elfen bwysicaf y strategaeth o bosibl, nid oes fawr o ddiben cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg os nad ydynt yn defnyddio'r iaith. Mae iaith gymunedol fywiog yn gofyn am gyfleoedd i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd Cymru, yn enwedig mewn gweithleoedd.

Yn y sector cyhoeddus, mae'r gofynion statudol ym Mesur y Gymraeg 2011 yn debygol o olygu y bydd angen i gyflogwyr gael mwy siaradwr Cymraeg er mwyn cyrraedd y safonau gwasanaeth sy'n ofynnol o dan y Mesur.

Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r sector cyhoeddus megis y gweithlu gofal cymdeithasol lle y gall fod angen dull mwy rhagweithiol.

Os am sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei gweld fel dim ond iaith addysg a'r sector cyhoeddus, yna mae angen helpu busnesau yng Nghymru i ddefnyddio'r iaith. Soniodd y Gweinidog am alluogi a helpu busnesau i ddatblygu ac ehangu eu gallu yn yr iaith Gymraeg; dull y foronen yn hytrach na'r ffon. Rydym yn cytuno â'r farn hon. Er y bydd angen gorfodi safonau penodol ar rai busnesau mwy o faint o bosibl, rydym yn credu y dylid annog busnesau a'u helpu i ddefnyddio ac ehangu eu defnydd o'r Gymraeg. Dylai rhan allweddol o'r strategaeth, felly, ganolbwyntio ar yr help a'r cymorth ymarferol y gellir eu darparu'n ganolog i helpu busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa help a chefnogaeth ychwanegol y mae angen iddi eu darparu i gyflogwyr yn y sector preifat a busnesau er mwyn eu galluogi i ddatblygu ac ehangu eu darpariaeth Gymraeg fel rhan o'r broses o gyrraedd nod cyffredinol y strategaeth.

# 05. Adnoddau ariannol

**55.** Roedd adnoddau ariannol yn thema drwy gydol y sesiynau tystiolaeth lafar ac yn y papurau tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd. Ar lefel gyffredinol, roedd y cyfranwyr yn credu, er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, y byddai angen i Lywodraeth Cymru ddarparu'r adnoddau ariannol ychwanegol sydd eu hangen. Nododd y cyfranwyr yr angen am adnoddau ychwanegol i gynyddu capasiti o fewn y sector addysg Gymraeg, ond hefyd adnoddau ar gyfer cynllunio ieithyddol yn y cyd-destun ehangach.

> **Un Llais Cymru**
> One Voice Wales recognises that this ambition will be extremely difficult to realise without a significant injection of resources.

> **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
> In order for the Welsh Government to achieve its aim, the Council considers that this will not be possible without proper investment over the lifetime of the project…additional money is already being put aside in order to implement the Welsh Language Standards and Welsh medium Education.

> **Cymwysterau Cymru**
> Er mwyn gwireddu'r targed uchelgeisiol o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd yn rhaid i'r strategaeth iaith Gymraeg fod wedi'i chynllunio'n ofalus a bydd rhaid sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar ei chyfer.

> **Cymdeithas yr Iaith**
> Er mwyn i'r strategaeth lwyddo, mae'n rhaid cael buddsoddi digonol…fel cyfanswm, credwn fod angen, dros amser, dros £100 miliwn y flwyddyn er mwyn rhoi cynlluniau digonol ar waith yn iawn.

**56.** Galwodd Cyngor Sir y Fflint am adnoddau ariannol ychwanegol neu benodol mewn ardaloedd lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn isel:

> Welsh Government should consider providing additional financial support to Local Authorities, particularly in those areas where there are low numbers/ percentages of Welsh speakers to ensure their successful implementation.

**57.** Fodd bynnag, awgrymodd Prifysgol De Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, er mwyn gwneud cynnydd sylweddol bod angen:

> Buddsoddi'n sylweddol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae galw a'r potensial i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn sylweddol.

**58.** Mewn ymateb i gwestiwn yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor ar yr adnodd ariannol sydd ar gael i gyflawni'r strategaeth, dywedodd y Gweinidog ei fod yn fodlon ar yr arian sydd ar gael:

> Rwy'n fodlon ar y sefyllfa bresennol, ac yr ydym yn cael trafodaethau wythnosol a misol gyda Gweinidogion eraill i drafod y sefyllfa ariannol a chyllidebau yn y dyfodol…rwy'n hyderus bod gennym ni'r adnoddau sydd eu hangen arnom ni.[6]

**Ein barn ni**

Yn ei thystiolaeth mae Cymdeithas yr Iaith Cymraeg yn galw am dros £100 miliwn y flwyddyn i roi'r cynlluniau perthnasol ar waith. Mae angen i Lywodraeth Cymru asesu a fydd angen cyllid ychwanegol ar y raddfa hon ond mae'n anodd gweld sut y gellir cyrraedd nod y strategaeth heb arian newydd sylweddol neu aildrefnu blaenoriaethau gwario presennol neu'r ddau. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried p'un a oes ganddi'r cydbwysedd cywir a ragwelodd rhwng hyrwyddo caffael iaith ac ariannu gwasanaethau Cymraeg yn y sector cyhoeddus

Nid ydym mewn sefyllfa i amcangyfrif faint yn union o arian ychwanegol y bydd ei angen ond nid yw'n annhebygol y bydd angen gwariant ychwanegol sylweddol iawn yn ystod oes y strategaeth. Yn ogystal, os yw'r strategaeth i lwyddo efallai y bydd angen defnyddio'r gyfran helaethaf o'r adnoddau ychwanegol ymlaen llaw er mwyn caniatáu amser i'r arian sicrhau canlyniadau.

Mae enghraifft gan Mudiad Meithrin yn dangos maint yr adnoddau y gall fod eu hangen. Mae'n amcangyfrif y bydd angen 650 o grwpiau meithrin ychwanegol i gefnogi'r strategaeth. Mae pob grŵp yn costio tua £17,000 i'w sefydlu a £40,000 arall y flwyddyn i'w redeg. Mae hynny oddeutu £11 miliwn o ran cyfanswm y costau sefydlu a chostau rhedeg blynyddol a fydd yn cyrraedd £26 miliwn. Mae'n bosibl iawn bod y ffigurau hyn wedi'u goramcangyfrif. Serch hynny, maent yn dangos maint posibl y gwariant y gall fod ei angen i gefnogi dim ond un agwedd ar y strategaeth.

Byddai ymateb y Gweinidog, ei fod yn hyderus bod ganddo'r adnoddau angenrheidiol, yn tawelu meddyliau pe bai wedi'i ategu gan asesiad clir o ba adnoddau y bydd eu hangen a phryd. Hyd yma, nid ydym wedi gweld asesiad o'r fath nac unrhyw ymrwymiad y bydd yr adnoddau i gyflawni'r strategaeth hon yn ychwanegol at y gwariant presennol ar Addysg, fel na fydd yn effeithio ar flaenoriaethau addysgol eraill.

Os yw hyder y Gweinidog yn seiliedig ar ffigurau mewnol Llywodraeth Cymru, yna nawr yw'r amser i gyhoeddi'r ffigurau hynny er mwyn cael trafodaeth briodol ar lefel y cyllid y bydd ei hangen a pha mor realistig yw hynny.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ar fyrder ei hasesiad o'r adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen i gefnogi'r nod strategol o gyrraedd 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Dylai hyn gynnwys proffil a ragwelir o'r gwariant dros ran gynnar y strategaeth ac asesiad o'r gost gymharol o beth fydd yr ymyriadau amrywiol angenrheidiol yn debygol o fod.

[6] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 18 Ionawr 2017 paragraff 317

# 06. Darpariaeth blynyddoedd cynnar

**59.** Mae llawer o'r cyfranwyr o'r farn bod y sector gofal rhag-statudol yn sector allweddol o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd a datblygu sgiliau a hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Hwn yw'r sector sy'n gyfrifol am ddarparu gofal i blant o dan bump oed – oedran pan fydd plant yn caffael iaith yn gyflym ac yn naturiol. Mae gwaith ymchwil[7] yn dangos bod cynifer ag 11 y cant o'r holl siaradwyr Cymraeg wedi dysgu'r iaith mewn meithrinfa, gyda 50 y cant o'r siaradwyr hynny'n rhugl. Mae'r ganran hon yn fwy na'r ganran sy'n rhugl ymhlith rhai sy'n dysgu'r iaith yn yr ysgol gynradd, yr ysgol uwchradd neu rywle arall heblaw am y cartref.

**60.** I lawer o gyfranwyr, mae'r sector hwn yn gofyn am dargedu adnoddau mewn modd priodol. Ymddengys fod yr iaith a'r sgiliau a ddysgir yn y cyfnod cynnar hwn yn hanfodol wrth i blant symud trwy'r system addysg ac i addysg bellach neu uwch, ac yn y pen draw i'r gweithle.

> **Estyn**
> Mae sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn hanfodol bwysig…Derbynnir po gynharaf y daw plentyn i gyswllt â'r iaith, y mwyaf tebygol ydyw o ddod yn rhugl.

> **Mudiad Meithrin**
> Croesawn y gydnabyddiaeth sydd yn y strategaeth ddrafft fod y blynyddoedd cynnar yn gyfnod hanfodol yn nhaith plentyn tuag at ruglder yn y Gymraeg…cynigiwn yr angen i flaenoriaethu cynyddu nifer y plant sydd yn derbyn gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg fel rhan o feysydd datblygu'r strategaeth hon.

> **Comisiynydd y Gymraeg**
> Os am greu mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n medru hyfforddi a chymhwyso yn y dyfodol i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sector addysg a sectorau cyflogaeth eraill, bydd rhaid yn gyntaf gynyddu'r ddarpariaeth gofal cyfrwng Cymraeg.

**61.** Yn strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru, nodir y byddai angen 331 o ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ychwanegol i gefnogi gweledigaeth y strategaeth. Fodd bynnag, rhoddodd Mudiad Meithrin, sydd â 501 Cylch Meithrin yng Nghymru ar hyn o bryd, amcangyfrif o sawl Cylch newydd fyddai ei angen:

> Mae Mudiad Meithrin yn amcangyfrif y byddai angen sefydlu dros 650 o gylchoedd meithrin newydd i sicrhau twf cyfatebol yn y ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru.

**62.** Byddai hyn yn gofyn am adnoddau ychwanegol sylweddol o fewn y sector - fel yr amlygodd Mudiad Meithrin yn ei sesiwn dystiolaeth:

---

[7] Defnydd y Gymraeg yng Nghymru, 2013-15. Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Iaith (t.52)

> Rŷm ni hefyd wedi gwneud gwaith costio—beth ydy cost sefydlu cylch meithrin newydd? Mae cost sefydlu cylch oddeutu £17,000; mae cost rhedeg cylch meithrin sydd ag un arweinydd a chwech cynorthwyydd, sydd yn cynnig 12 a hanner awr yr wythnos, o gwmpas y £40,000 y flwyddyn.[8]

**63.** Fel y nodwyd yn gynharach, mae hyn yn awgrymu, i gael 650 o grwpiau ychwanegol, tua £11 miliwn o gostau cychwynnol a bydd y costau rhedeg blynyddol yn cyrraedd £26 miliwn.

**64.** Wrth ymateb i gwestiwn am asesiad Mudiad Meithrin y byddai angen 650 yn ychwanegol o gylchoedd meithrin newydd, ar ben y 500 sydd ar gael ar hyn o bryd i gyd-fynd â'r twf yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol, dywedodd y Gweinidog:

> We do need to have in place sufficient provision to reach our targets. We don't have, at the moment—I completely accept that. I hope that the strategy we put in place will contain the targets that you've described.[9]

**65.** Cadarnhaodd y Gweinidog[10] hefyd yn ystod sesiwn y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ehangu'r cynllun hyfforddi cenedlaethol ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar sydd am weithio mewn cylchoedd meithrin a dosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ledled Cymru a buddsoddi yn y cynllun hwnnw. Caiff y cynllun ei weinyddu gan Mudiad Meithrin drwy is-gwmni, sef 'Cam wrth Gam'.

**Ein barn ni**

Yn yr adran flaenorol, defnyddiwyd yr enghreifftiau a ddyfynnir uchod er mwyn dangos maint posibl y costau a allai fod yn gysylltiedig ag ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar o ansawdd da drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid bod peth amheuaeth ynghylch a yw ehangu'r ddarpariaeth i'r lefel a awgrymwyd gan Mudiad Meithrin yn bosibl, yn sicr heb wariant ychwanegol sylweddol iawn. Nid oeddem yn glir ychwaith i ba raddau y bydd unrhyw estyniad mewn darpariaeth yn ychwanegol i ddarpariaeth Saesneg bresennol neu yn lle'r ddarpariaeth honno.

Fodd bynnag, roeddem yn argyhoeddedig y bydd yn bwysig buddsoddi mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar ychwanegol er mwyn i'r strategaeth lwyddo. Dylai'r maes hwn, felly, fod yn flaenoriaeth wrth ystyried yr angen am adnoddau ychwanegol. Ochr yn ochr â hynny, o ystyried effaith gadarnhaol ar gefnogaeth gyffredinol a chadw iaith sy'n debygol, dylid ystyried hefyd rhoi hyfforddiant Cymraeg am ddim i rieni sy'n rhoi eu plant mewn darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn deall bod diffyg data ar gael ar sgiliau Cymraeg ymarferwyr y blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â blaenoriaethu'r sector ar gyfer adnoddau ychwanegol, bydd hefyd yn bwysig gwella'r wybodaeth sydd ar gael am sgiliau ymarferwyr y blynyddoedd cynnar er mwyn i'r penderfyniadau ynghylch ymarferoldeb ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fod yn benderfyniadau mwy gwybodus.

---

[8] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 24 Tachwedd 2016 paragraff 191
[9] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 18 Ionawr 2017 paragraff 249
[10] Ibid – paragraff 208

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ehangu'r cynllun "Cam wrth Gam", neu fuddsoddi ynddo, i wella ac ehangu hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried anghenion prosiectau a darparwyr eraill yn y sector blynyddoedd cynnar sy'n cefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg, megis dechrau'n deg.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn benodol i asesiad Mudiad Meithrin y bydd angen 650 o gylchoedd meithrin newydd ychwanegol i gefnogi'r strategaeth.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar fod yn flaenoriaeth wrth ystyried cyllid ychwanegol o dan y strategaeth.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ddarparu hyfforddiant Cymraeg am ddim i rieni sy'n rhoi eu plant i ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella'r wybodaeth sydd ar gael ar alluoedd ymarferwyr y blynyddoedd cynnar o ran y Gymraeg er mwyn iddi allu cynllunio'n briodol i sicrhau bod gan ymarferwyr y gymysgedd gywir o sgiliau a chyfleoedd i gamu ymlaen er mwyn cefnogi amcanion y strategaeth.

# 07. Darpariaeth Addysg Statudol

## Symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol

**66.** Nododd rhai cyfranwyr yn ystod y sesiwn rhanddeiliaid yr her enfawr o symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol. Dywedodd un rhanddeiliad y byddai cam o'r fath yn gofyn am newid enfawr o ran meddylfryd ar bob lefel ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg. Mae 26 y cant o ysgolion yng Nghymru (cynradd ac uwchradd) ar hyn o bryd yn rhai cyfrwng Cymraeg, a 7.3 y cant o ysgolion yn rhai dwyieithog neu rai dwy ffrwd.

**67.** Byddai symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol yn gofyn am gryn gynllunio ac adnoddau sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn ôl rhai cyfranwyr:

> **UCAC**
> Mae angen sicrhau cefnogaeth i ysgolion gynllunio ar gyfer symud ar hyd y continwwm - o newid ethos ysgol i ychwanegu at weithgareddau a dysgu cyfrwng Cymraeg; cynllunio'r gweithlu a chyfathrebu gyda rhieni.

> **Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau**
> If the adventure is successful, then you would, presumably, get to a position where the schools in Wales would either be Welsh-medium schools or bilingual schools, rather than the category of English medium school…that's a 30 year Process.[11]

> **Estyn**
> You're not shifting from no Welsh at all to completely Welsh medium; you're shifting all the system up a little bit. But I agree there would be a huge amount of resources involved.[12]

**68.** Eglurodd y Gweinidog i'r Pwyllgor[13] ei fod ar hyn o bryd yn ystyried y mater o gategoreiddio ysgolion, ac yn derbyn bod angen gofal mawr yn y broses o symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol. Roedd yn bendant, fodd bynnag, ei fod yn disgwyl bod plant neu bobl ifanc sy'n cyrraedd 16 oed naill ai'n ddwyieithog-yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg-neu o leiaf â gafael dda ar y Gymraeg. [paragraff 268]

**Ein barn ni**

Dywed strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru ei bod am "gynyddu'n sylweddol nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog er mwyn creu rhagor o siaradwyr." Un o'r ffyrdd y mae'n dweud y bydd hyn yn cael ei gyflawni yw drwy 'symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol er mwyn cynyddu'r cyflenwad o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg'. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn rhoi enghreifftiau o arfer da a modelau ar gyfer symud ysgolion ar hyd y continwwm

---

[11] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 24 Tachwedd 2016 paragraff 101
[12] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 14 Rhagfyr 2016 paragraff 82
[13] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 18 Ionawr 2017 paragraff 267-8

categoreiddio. Ble mae hyn wedi gweithio'n dda ac a ddylai Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio fel model mewn meysydd eraill?

Roedd y Gweinidog yn cydnabod y sensitifrwydd yn y maes hwn a bod angen cryn ofal wrth symud ymlaen. Rydym yn cytuno â'r farn honno. Yn ein barn ni, dylai'r strategaeth ganolbwyntio i ddechrau ar ddeilliannau i ddisgyblion fel yr awgrymodd y Gweinidog.

Serch hynny, bydd angen cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog os am gyrraedd y nod strategol. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn debygol o ofyn am symud rhai ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol, gan gynyddu nifer yr ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, i ni, er bod ailgategoreiddio ysgolion yn angenrheidiol mewn rhai achosion, ni ddylai fod yn ddiwedd ar ei ben ei hun. Mae'n llawer pwysicach ein bod yn gweld nifer gynyddol o ddisgyblion yn symud ar draws y continwwm iaith tuag at bod yn rhugl yn y Gymraeg. Nid yw'r strategaeth ddrafft fel y mae yn darparu eglurder na manylion ynghylch sut y gellid cyflawni hyn na sut y bydd yr angen i ymgysylltu â rhieni a chymunedau yn cael ei wneud.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n fanwl sut y mae'n bwriadu symud "ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol", gan gynnwys enghreifftiau o fodelau arfer da, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y bydd yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon gan rieni a'r gymuned ehangach.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth derfynol bwysleisio'r angen i symud i nifer fwy o ddisgyblion ar draws y continwwm iaith a sut y cyflawnir hyn ym mhob categori ysgol yng Nghymru.

## Recriwtio a chadw

**69.** Un maes sy'n peri pryder ymhlith y rhai a ddarparodd dystiolaeth oedd recriwtio a chadw athrawon ac ymarferwyr sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac sy'n gallu addysgu Cymraeg fel pwnc.

**UCAC**
Rwy'n credu bod prinder. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ei ffeindio hi'n anodd i recriwtio. Maen nhw'n ei ffeindio hi'n anodd darganfod athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg.[14]

**Cymwysterau Cymru**
Pryder penodol y clywn amdano'n aml yw'r prinder athrawon sy'n gymwys ac sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol i addysgu'r pwnc.

**Estyn**
Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod 'ychydig o ysgolion, yn enwedig ysgolion Cymraeg a'r ysgolion hynny sydd mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd dan anfantais economaidd, yn cael anhawster dod o hyd i athrawon cyflenwi addas'.

[14] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 24 Tachwedd 2016 paragraff 47

**70.** Mynegodd un sir ar y ffin hefyd bryderon gyda recriwtio athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei ardal:

> **Cyngor Sir y Fflint**
> There is a significant shortage of teachers able to work through the medium of Welsh, for example, physics and chemistry. The local Welsh medium secondary school has found a lack of suitably qualified teachers in core subjects over the last three years.

**71.** Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn derbyn bod gwaith sylweddol i'w wneud o ran cynyddu'r gronfa dalent mewn addysg Gymraeg:

> Welsh language and Welsh medium—it's always been more difficult to get the numbers. So, you're absolutely right. With that target of 2050 in mind, the first thing we need to do is to try and get that talent pool larger, because it's always been harder to get Welsh-speaking teachers.[15]

**72.** Mae'r broblem yn ymwneud â chadw staff hefyd yn arbennig o ddifrifol yn y sector blynyddoedd cynnar yn ôl y rhai sy'n gweithio o fewn y sector:

> **Mudiad Meithrin**
> Yr her i ni weithiau ydy: rydym ni'n cael unigolion gwych, maen nhw'n uwchsgilio, yn meddu ar gymwysterau uwch, ond wedyn maen nhw'n symud ymlaen i'r sector statudol.

> **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
> Nid oes unrhyw amheuaeth bod angen cynlluniau penodol i gynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n medru'r Gymraeg, ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith.

**73.** Yn ôl data Cyngor y Gweithlu Addysg, mae tua 33 y cant o athrawon yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, ond dim ond 27 y cant sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn awgrymu y gallai tua 5-6 y cant o athrawon sydd o fewn y system ar hyn o bryd gael eu hannog neu eu cynorthwyo i symud i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gymharol gyflym.

**Ein barn ni**

Cawsom neges gyson fod prinder athrawon sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n gallu addysgu Cymraeg fel pwnc. Efallai y bydd y 5-6 y cant o'r athrawon presennol sy'n siarad Cymraeg ond nad ydynt yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn adnodd cymharol barod a all gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y tymor byr. Er nad yw'r gronfa hon o athrawon yn ateb i bob problem, efallai y bydd yn fan cychwyn cadarn ar gyfer helpu i ddiwallu'r galw ychwanegol sy'n debygol o godi os am gyrraedd y nod cyffredinol o ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, rydym yn mynegi ein hamheuon ynghylch effeithiolrwydd y 'cynllun sabothol', sydd i fod i helpu cynyddu cyflenwad yr ymarferwyr a all addysg drwy gyfrwng y

[15] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 30 Tachwedd 2016 paragraff 186

Gymraeg.  Mae angen gwerthuso'r cynllun hwn cyn gallwn fod yn siŵr o'r cyfraniad y gallai wneud yn y dyfodol.

Bydd angen mynd i'r afael â gofynion y tymor canolig i'r tymor hir drwy gynyddu'r cyflenwad o athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n barod i wneud hynny.  Efallai y bydd angen i hyn gynnwys gwella cyfleoedd hyfforddiant mewn swydd ac annog mwy o athrawon i ddysgu Cymraeg i safon lle y gallant addysgu'r iaith eu hunain, o leiaf fel ail iaith.  Fodd bynnag, mae'r galw cynyddol a awgrymir gan nod cyffredinol y strategaeth yn awgrymu bod angen canfod ffyrdd eraill o ateb y galw hwnnw.

Os am ateb y galw, yna efallai y bydd angen cynyddu'n sylweddol nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n dilyn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.  Mae hyn yn cyferbynnu â'r gostyngiad n nifer y cofrestriadau blwyddyn gyntaf ar gyrsiau HCA yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf pan mae'r polisi oedd lleihau nifer y newydd-ddyfodiaid. Nid yw'n glir sut y gellir cyflawni hyn ond mae'n amlwg yn fater y mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef os am sicrhau bod y strategaeth yn llwyddiant.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso effeithiolrwydd ei chynllun presennol i wella lefel Cymraeg athrawon sy'n ymarfer ac yn nodi amserlen arfaethedig ar gyfer sut y gall athrawon sy'n siarad Cymraeg, nad ydynt yn addysg yn Gymraeg ar hyn o bryd, gael eu hannog i wneud hynny gan gynnwys darparu rhagor o gyfleoedd:

- iddynt i drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg;
- i fentora a chynlluniau eraill i helpu i feithrin hyder yn eu gallu o ran y Gymraeg.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir:

- faint o athrawon ychwanegol sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fydd eu hangen er mwyn cyrraedd nod cyffredinol y strategaeth;
- pryd y bydd eu hangen;
- faint o'r athrawon ychwanegol hyn fydd yn dod o'r gweithlu addysgu presennol a faint fydd yn dod i'r proffesiwn drwy hyfforddiant cychwynnol athrawon neu lwybrau eraill.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall gynyddu'r cyflenwad o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n dilyn hyfforddiant cychwynnol athrawon neu lwybrau mynediad eraill i'r proffesiwn gan ystyried unrhyw oblygiadau recriwtio ehangach y gallai hyn eu cael ar recriwtio athrawon yng Nghymru ac mewn cystadleuaeth â rhannau eraill o'r DU.

## Staff Cymorth Dysgu

**74.** Gwnaeth Cyngor y Gweithlu Addysg ymhlith eraill hefyd amlygu'r angen i ystyried y gweithlu addysg cyfan, gan gynnwys staff cymorth dysgu. Mae staff cymorth dysgu yn cyfrif am ychydig o dan hanner y staff addysg yng Nghymru gyda 28,839 o staff cymorth dysgu cofrestredig mewn ysgolion o 31 Awst 2016. Mae 35,450 o athrawon ysgol wedi'u cofrestru yng Nghymru ar hyn o bryd:

**Cyngor y Gweithlu Addysg**
As the demand for learning support staff grows, we would urge policy makers to take into account the composition of the entire workforce.

**75.** Ar hyn o bryd, ychydig a wyddys am sgiliau Cymraeg staff cymorth dysgu – roedd llawer o'r rhanddeiliaid o'r farn y byddai deall sgiliau ieithyddol y sector hwn yn hanfodol wrth lywio a datblygu'r strategaeth.

**76.** Er mwyn cefnogi amcanion y strategaeth, mae'n bwysig gwneud addysgu yn gyffredinol, ac yn arbennig o ran y strategaeth hon, addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mor ddeniadol â phosibl i staff cymorth dysgu ac eraill sy'n ystyried gyrfa ym myd addysg, a pheidio â gelyniaethu'r gweithlu wrth wneud hynny:

**Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau**
We have said in here that if you're going to embark upon this process, then it needs to be considered to be an adventure, rather than a crusade, because if it's a crusade, you can look at it and say you are forcing people to do this, and I don't think that that would be a reasonable way forward on this.[16]

**UCAC**
Felly, mae yna gap gyda ni man hyn rhwng bobl sydd yn dweud, 'Rwy'n gallu siarad Cymraeg', a phobl sydd yn dweud, 'Rwy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg'. Efallai, gyda bach o anogaeth, y byddai'r ganran yna o gap yn dweud, 'Wel, byddwn i'n awyddus i gyfrannu at newid ethos fy ysgol i, sy'n gyfrwng Saesneg, i'w gwneud ychydig yn fwy Cymreigaidd'.[17]

**Ein barn**

Mae bron hanner y gweithlu addysg yng Nghymru yn staff cymorth dysgu ac ni ddylid tanamcangyfrif eu rôl o ran cyflawni'r strategaeth. Byddant yn hanfodol os am sicrhau bod y strategaeth yn llwyddiant ac mae'n rhaid rhoi'r pwyslais cywir yn y strategaeth ar yr angen i gael digon o staff cymorth i gefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg.

Yn anffodus, mae'n ymddangos bod prinder gwybodaeth am sgiliau ieithyddol presennol y grŵp hwn o staff. Bydd yn bwysig mynd i'r afael â'r bwlch gwybodaeth hwn os am ddefnyddio sgiliau'r staff profiadol hyn yn y ffordd orau o fewn y strategaeth.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rôl staff cymorth dysgu o ran cefnogi amcanion y strategaeth ac yn cymryd camau, ar y cyd ag Estyn a Chyngor y Gweithlu Addysg, i gael darlun cliriach o'u sgiliau iaith presennol i helpu i lywio'r gwaith cynllunio yn y dyfodol.

---

[16] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 24 Tachwedd 2016 paragraff 7
[17] Ibid paragraff 26

## Addysg Cymraeg ail iaith

**77.** Un mater a godwyd yn ystod yr ymchwiliad oedd yr angen i wella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn holl ysgolion Cymru, gan gyfeirio'n benodol at y ddarpariaeth Cymraeg ail iaith. Mae'r cymhwyster Cymraeg ail iaith presennol wrthi'n cael ei ddiwygio:

> **Cyngor y Gweithlu Addysg**
> Fel y bydd y pwyllgor yn ymwybodol yn dilyn ein llythyr[18] at Aelodau Cynulliad Cymru yn gynharach eleni, rydym wedi diwygio'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2017. Pan gaiff ei gyflwyno, bydd y ddarpariaeth cwrs llawn a chwrs byr presennol yn dod i ben. Bydd y cymhwyster newydd yn gwneud y canlynol:
>
> – cryfhau'r ffocws ar siarad a gwrando er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr y sgiliau Cymraeg bob dydd y bydd eu hangen arnynt ar gyfer y byd go iawn;
>
> – dileu'r ddibyniaeth ar eirfa a phynciau â diffiniad cul a all gyfyngu ar ddysgu a chyrhaeddiad yn yr iaith;
>
> – cadarnhau'r disgwyliad y dylai'r oriau addysgu fod yr un peth â chyrsiau TGAU eraill."Cymwysterau Cymru

**78.** Mae deall sut y bydd y cymhwyster newydd yn gwella ansawdd addysg Cymraeg ail iaith a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn hanfodol os am gyflawni amcanion y strategaeth.

**79.** Mae rhwystrau mawr i Lywodraeth Cymru a'r rhai sy'n gweithio yn y sector eu goresgyn os am sicrhau bod addysg Cymraeg ail iaith yn gwella ar draws ysgolion yng Nghymru, a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau ar gyfer y gweithle yn y dyfodol. Mae un o'r rhwystrau hynny yn ymwneud â nifer y myfyrwyr ysgol sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch, fel iaith gyntaf ac ail iaith.

> **Estyn**
> Mae cyfran y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg mamiaith mewn Safon Uwch a Chymraeg ail iaith mewn Safon Uwch, o gymharu â'r nifer sy'n astudio eu pynciau TGAU unigol, wedi gostwng er 2011. Ni fodlonwyd targedau Llywodraeth Cymru yn 2015 ar gyfer y ddau gymhwyster Safon Uwch. Mae nifer yr ymgeisiadau ar gyfer Cymraeg mamiaith mewn Safon Uwch wedi amrywio rhwng tua 250 a 300 er 2011. Mae nifer yr ymgeisiadau ar gyfer Cymraeg ail iaith mewn Safon Uwch wedi gostwng yn sylweddol dros yr un cyfnod.

**80.** Rhwystr arall i'w oresgyn yw'r prinder athrawon sy'n meddu ar y sgiliau i addysgu Cymraeg fel pwnc. Yn ôl Cymwysterau Cymru, ni ddylid tanamcangyfrif yr her i Lywodraeth Cymru ac i bawb sy'n ymwneud â'r sector:

> Pryder penodol y clywn amdano'n aml yw'r prinder athrawon sy'n gymwys ac sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol i addysgu'r pwnc. Fel y soniwyd gennym eisoes, rydym yn ystyried y newidiadau rydym wedi'u cyflwyno i'r cymhwyster hwn fel cam interim cychwynnol tuag at gael gwared â'r gwahaniaeth rhwng

---

[18] http://qualificationswales.org/media/2064/llythyr-agored-i-ac-am-tgau-cai-cym.pdf

> addysg a chymwysterau Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith. Ni ellir tanbrisio maint yr her o ran gwella sgiliau ac ehangu'r gweithlu addysg.

**81.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, roedd y Gweinidog yn glir, er bod angen newid o ran addysg Cymraeg ail iaith, nid yw'n bosibl gwneud newidiadau ar raddfa eang ar unwaith:

> Mae rhai wedi dadlau bod yn rhaid i ni gael gwared ar yr holl fusnes 'ail iaith' yma, a newid yn syth ac yn glou. Ond, nid ydym yn teimlo ein bod ni'n gallu gwneud hynny. Nid ydym ni'n teimlo bod y gweithlu mewn lle i'n galluogi ni i wneud hynny. A dyna pam rydym ni yn ei wneud y ffordd rydym ni'n ei wneud.[19]

**Ein barn ni**

Mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i bron bob disgybl yng Nghymru o'r adeg pan fyddant yn dechrau'r ysgol gynradd hyd lefel TGAU. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn cael eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Dylai cyfran sylweddol o'r disgyblion hyn, felly, fod yn gadael yr ysgol yn hyfedr yn y Gymraeg, gan allu cyfathrebu yn Gymraeg mewn llawer o sefyllfaoedd o ddydd i ddydd, os nad ym mhob sefyllfa o'r fath. Yn anffodus, nid yw hyn yn cael ei ategu gan brofiadau go iawn. Yn aml, bydd disgyblion yn gadael yr ysgol yn 16 oed heb lawer o hyder na gallu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd.

Ymwelodd aelodau'r Pwyllgor ag Ysgol yr Esgob Gore yn Abertawe ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn y Fflint i siarad â disgyblion am eu profiad o ddysgu Cymraeg ail iaith. Yn y ddwy ysgol, canfuwyd athrawon ymrwymedig a brwdfrydig a disgyblion ymgysylltiedig ac abl a siaradodd yn onest â ni am eu profiad o ddysgu Cymraeg.

Mynegodd llawer o'r disgyblion falchder yng Nghymru ac roeddent yn gadarnhaol ynglŷn â phwysigrwydd yr iaith i Gymru. Nid oedd unrhyw farn neu agweddau 'gwrth Gymraeg' amlwg. Ond soniwyd hefyd am ymddieithrio oddi wrth y pwnc, a'i fod braidd yn amherthnasol i'w bywydau bob dydd gyda gormod o bwyslais ar strwythur yr iaith yn hytrach na'i defnyddio o ddydd i ddydd. Roeddent yn frwdfrydig o ran cynnig ffyrdd y gellir gwneud y Gymraeg yn fwy perthnasol a diddorol i'w grŵp oedran. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn lleoliadau mwy anffurfiol.

Mae gennym rywfaint o bryderon y gallai'r newidiadau i'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith, a amlinellwyd gan Gymwysterau Cymru, annog disgyblion i beidio â'i ddilyn mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a fyddant yn ei chael hi'n anoddach cyrraedd y graddau uwch. Serch hynny, rydym yn croesawu'r newidiadau, a fydd yn cael eu cyflwyno o fis Medi 2017. Yn benodol, rydym yn croesawu'r pwyslais ar sgiliau bob dydd ar gyfer y byd go iawn a chael gwared ar yr opsiwn cwrs llawn a chwrs byr. Yn y tymor hwy, mae angen sicrhau bod gennym ddigon o athrawon gyda'r sgiliau i sicrhau bod y cymhwyster Cymraeg unedig newydd yn cael ei addysgu i safon uchel mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg - mae hwn yn nod uchelgeisiol ac mae hi dal i fod yn aneglur pa mor realistig ydyw a beth yw'r goblygiadau o ran adnoddau ac amseru.

---

[19] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 18 Ionawr 2017 paragraff 236

Yn amlwg, nid yw'n bosibl gwerthuso'r newidiadau hyn nawr. Fodd bynnag, rydym yn argyhoeddedig y bydd angen i addysgu Cymraeg ail iaith chwarae rhan allweddol os am ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Felly, mae'n rhaid rhoi cymaint o bwyslais ar drawsnewid y ddarpariaeth Cymraeg ail iaith a'r deilliannau ag ar gynyddu'r niferoedd sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg neu addysg ddwyieithog.

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth newydd roi pwyslais cyfartal ar wella deilliannau yn arwyddocaol yn sgil addysgu Cymraeg ail iaith, ynghyd â chynyddu'r niferoedd sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir sut y bydd yn gwella'r gwaith o addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn arwyddocaol.

## Darparu Adnoddau i Ddysgwyr

**82.** Un mater a amlygwyd gan rai cyfranwyr drwy gyflwyniadau ysgrifenedig oedd yr angen i ddarparu adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr. Gall y sefyllfa anghyfartal hon, yn ôl rhai, gael effaith niweidiol ar ddeilliannau dysgu ar gyfer disgyblion a hefyd ar y gweithlu sy'n gorfod cyfieithu deunydd ar gyfer gwersi:

> **Cymwysterau Cymru**
> Mae cymwysterau a gaiff eu hastudio gan ddysgwyr yng Nghymru yn unig yn sylweddol llai atyniadol i gyhoeddwyr masnachol…O ganlyniad, mae'r adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru wedi lleihau. Mae'r effaith yn waeth ar gyfer adnoddau cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad, mae angen system fwy effeithiol ac effeithlon o ran ymateb y Llywodraeth er mwyn sicrhau na fydd dysgwyr yng Nghymru dan anfantais.

> **UCAC**
> Mae angen mwy sylfaenol na hynny - am yr adnoddau sydd yn hanfodol ar gyfer addysgu cyrsiau TGAU /UG/U newydd. Ni ddylai'r gweithlu fod yn cyfieithu adnoddau oherwydd nid yw'r gwerslyfrau Cymraeg yn barod erbyn cychwyn addysgu'r manylebau newydd.

> **Comisiynydd y Gymraeg**
> Bydd aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol o'r sylw cyhoeddus diweddar i ddiffyg gwerslyfrau Cymraeg i gefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg, i effeithiau andwyol hynny ar ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r pwysau ychwanegol ar athrawon o orfod cyfieithu gwerslyfrau Saesneg i'r Gymraeg eu hunain.

**Ein barn ni**

Mae'n destun pryder y gallai darparu adnoddau i ddysgwyr Cymraeg effeithio ar allu athrawon i addysgu ac ar allu disgyblion i ddysgu. Yn amlwg, os yw am lwyddo, bydd angen i unrhyw strategaeth ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sicrhau bod adnoddau addysgu o ansawdd uchel ar gael ar gyfer pob dysgwr pan fydd eu hangen.

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â CBAC yn adolygu'r ddarpariaeth o adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr i sicrhau nad yw myfyrwyr sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o dan anfantais.

# 08. Dilyniant

**83.** Un thema a gafodd ei chrybwyll ar sawl achlysur oedd dilyniant ieithyddol, hynny yw, gallu plentyn i symud ymlaen yn ddi-dor drwy'r gwahanol gyfnodau addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn y pen draw i'r gweithle gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol.

**84.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno un continwwm dysgu ar gyfer yr iaith Gymraeg, a chroesawyd hyn yn gyffredinol gan y rhai a gyfrannodd at yr ymchwiliad:

> **Cymwysterau Cymru**
> Cefnogwn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gael gwared â'r gwahaniaeth rhwng Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith fel rhan o'r diwygiadau i'r cwricwlwm, yn seiliedig ar gontinwwm sengl ar gyfer caffael a datblygu'r iaith Gymraeg.

> **Prifysgol De Cymru**
> Gallai weledigaeth sy'n cwmpasu pob cyfnod o addysg sicrhau parhad, cysondeb a sicrhau continwwm iaith a allai fynd i'r afael â'r gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng pob cyfnod addysg.

> **Estyn**
> Mae cynnal parhad a dilyniant yn hollbwysig hefyd, a dylai unrhyw gynllunio strategol geisio lleihau nifer y plant nad ydynt yn parhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg hyd orau eu gallu pan fyddant yn trosglwyddo ar draws y cyfnodau addysg allweddol.

**85.** Un agwedd allweddol ar lwyddiant y continwwm yw'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cynlluniau Strategol). Yn ôl Estyn, mae rhai awdurdodau lleol wedi ymrwymo i ddatblygiad addysg cyfrwng Cymraeg ond nid eraill. Roedd Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn onest yn ei dadansoddiad o dair blynedd gyntaf y Cynlluniau Strategol.

> **Comisiynydd y Gymraeg**
> Felly, profiad, fuaswn i'n dweud, y tair blynedd gyntaf oedd: ni welsom ni dwf, ac mae'r ffigurau gyda ni—rydym ni wedi mesur hynny—ac nid oes twf wedi bod. Yr hyn sydd ddim yn dderbyniol, rydw i'n credu, ydy caniatáu i hynny ddigwydd yr eildro. Mae angen canllawiau cryfach oddi wrth y Llywodraeth ac mae angen hwyluso awdurdodau lleol i gasglu data a rhoi targedau rhesymol yn eu lle.[20]

**86.** Mae'r Gweinidog ei hun yn derbyn y bydd pob un o'r 22 o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd yn amrywio'n sylweddol, gyda rhai cynlluniau yn well nag eraill. Fodd bynnag, mae hefyd yn pwysleisio bod gan bob awdurdod lleol bwysau gwahanol ar ei adnoddau. Mae'r Gweinidog yn credu bod y Cynlluniau Strategol yn arf pwysig, fodd bynnag, o ran sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru yn cael yr un cyfle i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.[21]

---

[20] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 14 Rhagfyr 2016 paragraffau 324 a 325
[21] Tystiolaeth Lafar: 18 Ionawr 2017 paragraff 218

**Ein barn ni**

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r cysyniad o un continwwm ar gyfer dysgu'r iaith. Nid yw caffael iaith a gallu ieithyddol yn gyflwr deuaidd syml. Gall llawer sy'n dweud nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg honni bod ganddynt fwy o allu mewn ieithoedd eraill er mai yr un yw eu hyfedredd.

Fodd bynnag, mae angen eglurder ar frys arnom ynghylch manylion ymarferol cyflwyno continwwm iaith unedig a chymhwyster unigol, yn ogystal â'r galw o ran adnoddau ac amserlenni er mwyn cael y gweithlu sydd ei angen. Rydym hefyd yn pryderu am y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Rydym yn rhannu pryder y Comisiynydd y Gymraeg, Estyn ac eraill am y diffyg cynnydd ymddangosiadol ar ôl tair blynedd ac am yr amrywioldeb o fewn y cynlluniau. Nodwn fod y Gweinidog, mewn datganiad ysgrifenedig ar 14 Mawrth, yn rhannu'r pryder hwn ac nad oedd yr uchelgais yr oedd wedi gobeithio ei weld yn y Cynlluniau Strategol mor amlwg ag yr oedd wedi'i ddisgwyl.

Nodwn fod y Gweinidog wedi penodi'r cyn arweinydd awdurdod lleol a chyn Aelod o'r Cynulliad, Aled Roberts, i gynnal 'adolygiad cyflym' o'r system bresennol ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg. Rydym yn croesawu hyn ac yn edrych ymlaen at weld ei gasgliadau.

# 09. Uwchsgilio a hyfforddiant

**87.** Un maes hollbwysig y dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr y mae angen rhoi sylw iddo ar unwaith yw uwchsgilio athrawon ac ymarferwyr i allu addysgu a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn gofyn am fuddsoddiad ac adnoddau sylweddol i ganiatáu i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gael mynediad at gyrsiau hyfforddi i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

## Hyfforddiant a'r Cynllun Sabothol

**88.** Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad, yn ôl data Cyngor y Gweithlu Addysg, mae tua 33 y cant o athrawon yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, ond dim ond 27 y cant sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn awgrymu bod tua 5-6 y cant o athrawon yn y system sydd o fewn cyrraedd yn hawdd y gellid eu cynorthwyo i uwchsgilio ar unwaith:

> **UCAC**
> Mae'n debygol byddai'r 2000+ o athrawon hyn nad ydynt yn teimlo'n hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, yn awyddus i wella'i sgiliau fel bod modd iddynt wneud cyfraniad at naill ai Gymreigio ethos eu hysgol neu wneud ychydig o addysgu cyfrwng Cymraeg.

**89.** Fodd bynnag, yn ôl Cymdeithas yr Iaith Gymraeg[22] er bod tua 27 y cant o athrawon yn dweud y gallant addysgu yn Gymraeg, mae canran sylweddol llai o athrawon yn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwirionedd; cyn lleied â 18 y cant yn y sector uwchradd. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod cronfa fwy sylweddol o athrawon a all addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gymharol gyflym gyda buddsoddiad mewn hyfforddiant.

**90.** Yn ôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, dylid ystyried datblygu sgiliau Cymraeg athrawon yn rhan o ddisgwyliadau mynediad a DPP ar gyfer y proffesiwn:

> **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
> Yn ein barn ni, yr hyn sy'n allweddol, yw sicrhau bod hyfedredd ieithyddol, a'r angen i ddatblygu sgiliau uchel yn y Gymraeg yn cael ei weld fel rhan naturiol o ddisgwyliad mynediad, a datblygiad proffesiynol pob athro neu athrawes yng Nghymru.

**91.** Eto, fel y crybwyllwyd yn gynharach, nid yw hyn yn gyfyngedig i'r proffesiwn addysgu yn ôl rhai, ond dylai hefyd gynnwys ymarferwyr y blynyddoedd cynnar ac ymarferwyr ym maes Addysg Bellach a Dysgu seiliedig ar Waith:

> **Cymdeithas yr Iaith**
> O ran y blynyddoedd cynnar, mae'n rhaid ehangu cynllun 'Cam wrth Gam' a gwneud y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer ymarferwyr yn y maes fel bod modd, dros amser, symud at ddarpariaeth uniaith Gymraeg.

**92.** Un agwedd ar hyfforddiant y mae'n ofynnol ei deall ymhellach yw'r Cynllun Sabothol, sef cynllun a ddatblygwyd fel cynllun peilot yn 2005 fel rhan o Strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru, 'Iaith Pawb', i gynyddu'r cyflenwad o ymarferwyr sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hwn

---

[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 5.4.

yn gwrs dwys ar gyfer athrawon ac ymarferwyr sy'n dymuno datblygu eu sgiliau addysgu, eu hyder a therminoleg arbenigol yn y Gymraeg. Mae'r cwrs ei hun yn agored i athrawon cynradd ac uwchradd, ymarferwyr dysgu yn y gwaith ac Addysg Bellach. Mae'r cyfleoedd i staff cyflenwi a darlithwyr Addysg Uwch yn gyfyngedig, ac ar hyn o bryd nid ydynt ar gael i staff cymorth dysgu.

**93.** Roedd y farn ynghylch effeithiolrwydd y cynllun sabothol ymhlith cyfranwyr yn gymysg, er roedd amryw o dystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y cynllun wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan:

**Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
Mae llwyddiant y Cynllun Sabothol, a'r ystod o raglenni a ddarperir drwy'r cynllun hwn yn gosod sail gadarn i'r gwaith hyn.

**UCAC**
Mae'r Cynllun Sabothol wedi cael cryn lwyddiant…a dylid edrych ar opsiynau ar gyfer ei ymestyn, gan gynnwys ar y cyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

**Cyngor Sir y Fflint**
Sabbatical schemes have proven to be successful and have had a significant impact.

**Cymwysterau Cymru**
Rydw i'n credu, yn ogystal â hyfforddiant cychwynnol, fod angen rhywbeth ynglŷn ag adeiladu ar lwyddiannau'r cynllun sabothol.[23]

**94.** Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod angen mwy o werthusiad o lwyddiant hirdymor y cynllun a'i ddatblygiad yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru a chyrff perthnasol.

**Cyngor y Gweithlu Addysg**
In recent years, various strategies (for example, the Welsh language sabbatical scheme) have been employed to improve Welsh language ability of people in the workforce in Wales; however data from the register of practitioners suggests that this is having limited impact upon the number of Welsh speakers in the education workforce, with negligible change noted since 2007.

**Estyn**
Mae yna adroddiad eithaf manwl wedi cael ei wneud gan Arad ar y gwahanol gyrsiau sabothol, ac maen nhw'n dod i'r casgliad bod yna dystiolaeth bod athrawon yn llawer mwy hyderus yn defnyddio'r Gymraeg ar ôl bod ar y cwrs…Lle nad oes digon o dystiolaeth…beth yw effaith hynny ar allu'r plant yn yr ysgolion hynny.

---

[23] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 14 Rhagfyr 2016 paragraff 24

**95.** Un o wendidau penodol y cynllun yn ôl rhai yw'r diffyg adnoddau sydd ar gael i ganiatáu ar gyfer cyfleoedd hyfforddi megis y Cynllun Sabothol a chyrsiau datblygiad personol eraill er mwyn gwella sgiliau Cymraeg.

**Cyngor y Gweithlu Addysg**
It is recognised that it is often difficult for practitioners to access professional development opportunities, since if these are within ordinary work hours, this requires back fill to cover absence from.

**UCAC**
Prif wendid y Cynllun Sabothol fu'r anhawster i ryddhau athrawon o'r ysgolion, a hynny er bod telerau'r cynllun yn hael o ran tâl ar gyfer cyflenwi.

**Colegau Cymru**
It might be worth looking and re-evaluating the flexibility of the sabbatical scheme with providers and practitioners on what would work and increase participant levels from FE.

**Estyn**
Mae'r adroddiad yn canfod fod 'bron pob ysgol wedi cael anhawster o ran gwneud trefniant cyflenwi addas ar gyfer athrawon dosbarth sy'n absennol. Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, mae ysgolion yn aml yn cael eu cyfyngu o ran dewis ac ansawdd athrawon cyflenwi sydd ar gael. Prinder yn nifer yr athrawon cyflenwi sy'n siarad Cymraeg sydd i gyfrif am hyn.

**96.** Er mwyn i athrawon ac ymarferwyr ymgymryd â chynlluniau fel hyn, mae angen buddsoddiad a chyllid sylweddol.

**ATL Cymru**
Without clear funding commitment for Continued Professional Development for current teachers, lecturers and support staff, the current workforce will not be able to learn or improve their Welsh language skills.

**Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**
Mae'n gynllun drud [Cynllun sabothol], mae'n gynllun uchelgeisiol, ond mae'n gynllun sy'n gweithio.

**Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
Ond, bydd angen cynyddu'r adnoddau a ddarperir i gynlluniau o'r fath [Cynlluniau Sabothol] er mwyn sicrhau cynnydd digonol yn y nifer o athrawon sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg dros y degawdau nesaf.

**97.** Yn ystod y sesiwn graffu ar y gyllideb, cyhoeddodd y Gweinidog y bydd rhywfaint o'r £5 miliwn o arian ychwanegol sydd yng nghyllideb 2017-18 yn cael ei ddefnyddio i ehangu'r cynllun sabothol.[24]

**98.** Cadarnhaodd datganiad a ryddhawyd gan y Gweinidog ar 25 Ionawr 2017[25] y byddai £3 miliwn o'r arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gyda'r prif ffocws y buddsoddiad ar "sicrhau bod cyfleoedd i unigolion wella neu ddysgu Cymraeg, yn y sector cyhoeddus yn y lle cyntaf, gan ganolbwyntio ar ddysgu dwys".

**Ein barn ni**

Roedd y dystiolaeth a gawsom am y Cynllun Sabothol yn gymysg. Yn sicr, mynegodd nifer o dystion y farn ei fod wedi bod yn llwyddiannus er ymddengys bod y dystiolaeth yn anecodtaidd ar y cyfan. Dywedwyd bod athrawon yn llawer mwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl bod ar y cwrs. Mae'r sgoriau gwerthuso ar gyfer y cwrs gan y rhai a gymerodd ran hefyd yn dangos lefelau uchel o foddhad.

Fodd bynnag, roedd yn ymddangos nad oedd fawr o dystiolaeth, os o gwbl, bod canlyniadau dilyn cyrsiau wedi dod i'r amlwg yn yr ystafell ddosbarth, o ran gwell deilliannau i ddisgyblion nac o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu addysg. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn nodi'n benodol mai newid bach iawn a welwyd er 2007.

Yn ein barn ni, mae angen gwerthusiad llawer mwy trwyadl o lwyddiant y cynllun yn awr, gyda phwyslais arbennig ar ganlyniadau yn yr ystafell ddosbarth a pha mor llwyddiannus yw'r cynllun o ran annog rhagor o athrawon i addysgu Cymraeg fel pwnc neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn olaf, nid oedd y sail resymegol i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ganolbwyntio'n benodol ar y sector cyhoeddus yn glir i ni ac mae angen eglurhad pellach yn hynny o beth.

**Argymhelliad 20.** Rydym yn argymell y dylid cynnal gwerthusiad trylwyr o'r Cynllun Sabothol gan edrych yn arbennig ar ei werth am arian o ran gwella deilliannau yn yr ystafell ddosbarth ac annog mwy o athrawon i addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

[24] Trawsgrifiad y Pwyllgor: 2 Tachwedd 2016 paragraff 329
[25] Datganiad Ysgrifenedig 25 Ionawr 2017 - Cyhoeddi Cynllun Cymraeg Gwaith

# 10. Materion ychwanegol i'w hystyried

**99.** Penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r ymchwiliad hwn ganolbwyntio ar addysg gan fod y strategaeth ddrafft ei hun wedi nodi mai'r system addysg yw'r brif ffordd o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae'r strategaeth ddrafft hefyd yn dweud y dylai sicrhau bod gweithlu sy'n diwallu'r angen am addysg a hyfforddiant Cymraeg fod yn fan cychwyn ar gyfer creu mwy o siaradwyr.

**100.** Fodd bynnag, amlygwyd agweddau eraill ar gynllunio ieithyddol yn ystod yr ymchwiliad. Mae goblygiadau'r agwedd aml-haenog hon ar gynllunio ieithyddol yn golygu bod angen myrdd o weithgareddau ar sawl lefel er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd.

## Hyrwyddo'r Gymraeg

**101.** Codwyd hyrwyddo'r iaith yn ystod y sesiynau tystiolaeth lafar ac mewn cyflwyniadau ysgrifenedig fel mater y mae angen i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff perthnasol fynd i'r afael ag ef. Nododd cyfranwyr yr angen i hyrwyddo a marchnata'r iaith o nifer o safbwyntiau, er enghraifft:

- hyrwyddo a marchnata'r Gymraeg fel sgil;
- hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg i rieni;
- hyrwyddo manteision yr iaith o fewn y gweithle; ac
- hyrwyddo'r iaith o fewn teuluoedd a chymunedau.

**102.** Yn ôl Cymwysterau Cymru, mae angen ymgyrch bwerus a chyson i hyrwyddo'r iaith ac i ennyn cefnogaeth gan y cyhoedd a chymunedau. Mae eraill hefyd yn rhannu barn debyg:

> **Mudiad Meithrin**
> Gan gydnabod pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar i 'greu' siaradwyr Cymraeg newydd, teimlwn fod angen ymgyrch cenedlaethol i hyrwyddo'r manteision hyn i bob rhiant newydd a darpar riant yng Nghymru.

> **Cyngor Sir y Fflint**
> Targeted campaigns are needed to encourage Welsh speakers to take pride in their language skills and continue to develop their skills.

> **Colegau Cymru**
> It's time to adapt operations of some Welsh language promotion bodies – to engage with a new audience.

**103.** Yn ôl rhai cyfranwyr, gallai fod angen newid mewn diwylliant a meddylfryd o fewn cymunedau a'r gymdeithas ddinesig ehangach. Ar fwy nag un achlysur, nododd cyfranwyr yr angen am 'agwedd wahanol' a'r angen i farchnata manteision dysgu dwy iaith ac argyhoeddi cymunedau ohonynt. Mae'n bwysig estyn at gymunedau lle nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan o wead y gymuned, er mwyn newid agweddau tuag at yr iaith a'i gwneud yn berthnasol i'w bywydau.

**104.** Mae Safonau'r Gymraeg newydd bellach yn gosod dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo'r iaith yn eu cymunedau eu hunain:

> **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
> In line with its Welsh Language Standards the Council has produced a five-year promotion strategy, which aims to raise the profile of the Welsh language in the County Borough, increase its use and encourage more people to choose to use the Welsh language in their everyday lives.

**Ein barn ni**

Cytunwn y bydd angen cynnydd sylweddol yn y gweithgareddau i hyrwyddo a marchnata'r iaith ac y dylai hyn fod yn un o brif elfennau'r strategaeth os yw am fod yn llwyddiannus. Dylai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau lleol a helpu i sicrhau y gall pobl ledled Cymru gefnogi amcanion y strategaeth. Argymhellwyd yn gynharach y dylai'r Asiantaeth newydd arfaethedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg ganolbwyntio'n glir o'r cychwyn ar helpu rhieni i ddeall manteision addysg ddwyieithog. Mae angen iddi hefyd ganolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymunedol a'r manteision a ddaw yn ei sgil a'i hyrwyddo yn y gweithle. Wrth wneud hynny mae angen iddi weithio gyda chyrff sefydledig sydd â phrofiad yn y maes megis y Mentrau Iaith a chyda mentrau lleol fel Tŷ'r Gwrhyd ym Mhontardawe.

**Argymhelliad 21.** Rydym yn argymell bod yr Asiantaeth newydd arfaethedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg, gan weithio gyda chyrff sefydledig a mentrau lleol, yn hyrwyddo a marchnata'r Gymraeg fel iaith gymunedol sydd â manteision i siaradwyr fel sgil ac yn y gweithle.

## Archwilio sgiliau Cymraeg

**105.** Roedd rhai cyfranwyr at yr ymchwiliad yn credu bod diffyg tystiolaeth o sgiliau Cymraeg presennol y gweithlu yng Nghymru, ac er mwyn meithrin gallu ar draws y sectorau, bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal archwiliad systematig o sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu cyfan:

> **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
> Credwn bod angen dwysáu a chyflymu'r broses o adnabod anghenion gweithlu'r dyfodol mewn gwahanol feysydd, gan ystyried pa lefel ac ystod o sgiliau Cymraeg a dwyieithog y bydd eu hangen mewn meysydd penodol ymhen degawd a mwy.

> **UCAC**
> Mae recriwtio'r niferoedd cywir a'r bobl gyda'r sgiliau sydd angen arnom i'r swyddi amrywiol hyn yn holl bwysig. Er mwyn gallu gwneud hyn yn effeithiol mae angen cael gwybodaeth drylwyr am natur y gweithlu presennol.

> **Cymwysterau Cymru**
> Cam pwysig o'r cychwyn fydd i Lywodraeth Cymru gael dealltwriaeth lawn o'r capasiti a'r gallu sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â sgiliau Cymraeg

mewn ysgolion. Bydd angen i hyn fwrw rhaglen bendant o waith yn ei blaen i feithrin y capasiti a'r gallu hwnnw dros y blynyddoedd i ddod.

**106.** Clywodd y Pwyllgor hyd yn oed pan gynhelir archwiliadau sgiliau iaith cynhwysfawr, nid yw hyn o reidrwydd yn arwain at gynllunio gwell. Nododd Estyn fod pob awdurdod lleol wedi cynnal archwiliad sgiliau iaith y gweithlu addysgu er enghraifft, ond mai:

> **Estyn**
> Rhai awdurdodau lleol yn unig sy'n defnyddio'r dystiolaeth o'r archwiliad medrau ieithyddol, wrth ystyried eu prosiectau trefniadaeth ysgolion a chynllunio ar gyfer darpariaeth dros y tymor hwy.

**107.** Dylid cyflymu'r broses o adnabod anghenion ieithyddol y gweithlu yn ôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae rhai sectorau eisoes yn asesu anghenion ieithyddol y gweithlu, er enghraifft gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn rhagweithiol.

> **Cyngor Gofal Cymru**
> Since their introduction, degree programmes in social work have been required to develop their provision for social work students to be able to learn and be assessed through the medium of Welsh. The latter includes the need for all programmes to audit the Welsh language skills of students, which has enabled us to identify their learning and assessment needs.

**Ein barn ni**

Er ein bod yn derbyn bod diffyg data cyson ar sgiliau Cymraeg y gweithlu yn genedlaethol, nid ydym yn argyhoeddedig bod hwn yn faes y dylid rhoi blaenoriaeth iddo. Gallai hwn fod yn ymarfer drud a llafurus ac mae'n bosibl mai prin fydd y manteision pendant. Yn ein barn ni, byddai'n well canolbwyntio ar feysydd allweddol o'r gweithlu lle mae posibilrwydd amlwg y bydd gwell gwybodaeth yn allweddol i gyflawni'r strategaeth gyffredinol, megis staff cymorth dysgu neu weithlu'r blynyddoedd cynnar.

## Cymraeg i Oedolion

**108.** Yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth, cyfeiriwyd sawl gwaith at y maes Cymraeg i Oedolion, o ran cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg, a'r gwaith y bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg newydd yn ei gydgysylltu.

> **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
> Mae'n bwysig bod adnoddau digonol yn cael eu clustnodi i waith y Ganolfan er mwyn cyflwyno rhaglenni newydd i ddysgu Cymraeg yn y gweithle.

> **CLILC**
> Rhaid ystyried ffyrdd o gynnig rhagor o gyfleoedd i oedolion ddysgu neu wella, hefyd.

> **Prifysgol Aberystwyth**
> Mae lle i fabwysiadu dehongliad mwy cynhwysfawr o addysg nag a wneir yn y

ddogfen ymgynghorol. Y duedd ar hyn o bryd yw i bwysleisio'r sector addysg statudol, ac yn sgil hynny prin yw'r sylw yn y ddogfen i addysg ymhlith oedolion ac i hyfforddiant ieithyddol mewn cyd-destunau penodol, er enghraifft yn y gweithle.

**109.** Er bod llawer o'r farn ei bod yn bwysig rhoi cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg, boed hynny drwy'r gweithle neu yn eu hamser eu hunain, nid yw'r gyfradd llwyddiant yn ddigon arwyddocaol ym marn y Pwyllgor er mwyn iddo gael ei ystyried yn ffordd ganolog ymlaen yng nghyd-destun nodau ac amcanion y strategaeth, sef cynyddu'n sylweddol nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Er enghraifft, gostyngodd nifer y dysgwyr a wnaeth arholiadau Cymraeg i Oedolion o 1,797 yn 2010 i 1,452 yn 2015.[26]

**110.** Er gwaethaf toriadau i'r rhaglen Cymraeg i Oedolion yn y blynyddoedd diwethaf, mae hyd yn oed y rhai sydd o'i phlaid yn glir eu barn mai drwy'r system addysg ysgolion yn bennaf y bydd y nifer ofynnol o siaradwyr Cymraeg yn cael eu creu:

**Popeth Cymraeg**
Gyda'r cyllid cyfyngus sydd ar gael ar hyn o bryd i faes Cymraeg I Oedolion a'r ffaith fod llai na 1,000 o oedolion yn genedlaethol yn croesi'r trothwy i ruglder bob blwyddyn (mae'r ffigwr cenedlaethol o 15,000 o ddysgwyr yn cynnwys dysgwyr ar bob lefel) mae'n amlwg mai'r system addysg i blant yw'r llwybr pwysicaf o ran creu siaradwyr Cymraeg.

**111.** Serch hynny, pwysleisiodd Popeth Cymraeg fod gan y maes Cymraeg i Oedolion rôl bwysig o hyd o ran datblygu sgiliau Cymraeg oedolion a hyrwyddo'r iaith.

**Popeth Cymraeg**
Gall maes Cymraeg i Oedolion, fodd bynnag, wneud gwaith eithriadol o bwysig o safbwynt targedu sectorau penodol a phoblogeiddio'r Gymraeg yn gyffredinol. Gall hyn greu effaith domino gydag oedolion yn dewis danfon eu plant i ysgolion Cymraeg hyd yn oed os nad ydynt yn rhugl eu hunain.

**112.** Roedd Cymdeithas yr Iaith yn credu bod angen y targedau ar gyfer cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg dros oes y strategaeth, gyda thargedau pum mlynedd, deng mlynedd a hyd yn oed dri deg mlynedd.

- Ymhen pum mlynedd – Sicrhau bod Cymraeg i Oedolion yn creu o leiaf 4,000 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn.
- Ymhen deng mlynedd – Sicrhau bod Cymraeg i Oedolion yn creu o leiaf 7,000 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn.
- Ymhen ugain mlynedd – Sicrhau bod Cymraeg i Oedolion yn creu o leiaf 10,000 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn.
- Ymhen tri deg mlynedd – Sicrhau bod Cymraeg i Oedolion yn creu o leiaf 13,000 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn.

---

[26] Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015: Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg, tudalen 145

**Ein barn ni**

Mae darpariaeth Cymraeg i Oedolion parod o ansawdd da yn rhan bwysig o'r 'ecosystem' gyffredinol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'n arbennig o bwysig o ran helpu i hyrwyddo'r iaith a helpu rhieni sydd am chwarae mwy o ran yn addysg eu plant. Fodd bynnag, efallai na fydd y gyfradd llwyddiant yn ddigon arwyddocaol i hyn gael ei ystyried yn ffordd ganolog ymlaen yng nghyd-destun nodau ac amcanion y strategaeth.

**Argymhelliad 22.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi darpariaeth Cymraeg i Oedolion o ansawdd da sydd ar gael yn eang ond ei bod yn ystyried yn ofalus flaenoriaeth y maes hwn o fewn y strategaeth o gymharu â meysydd blaenoriaeth eraill.

## Materion eraill

**113.** Cododd nifer o themâu eraill yn ystod yr ymchwiliad, ond i raddau llai. Roedd y rhain yn cynnwys materion megis Dysgu Cymraeg yn y gweithle, Mudo, Hawliau iaith, Arweinyddiaeth a diwylliant, Trosglwyddiad, Normaleiddio, Hyder, a'r hyn y mae 'siaradwr Cymraeg' yn ei olygu mewn gwirionedd.

**Ein barn ni**

Diben ein Hymchwiliad oedd tynnu sylw ar gam cynnar at rai o'r materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy yn y strategaeth derfynol. Mae ein hargymhellion a phrif ran yr adroddiad hwn wedi canolbwyntio ar rai o'r cwestiynau amlwg y mae angen rhoi sylw iddynt. Nid yw hynny i ddweud nad yw'r materion eraill a nodir uchod yn bwysig neu na fydd angen rhoi ystyriaeth fwy manwl iddynt yn ystod oes y strategaeth. Fel Pwyllgor, rydym yn bwriadu dychwelyd at rai o'r materion hyn wrth i ni gyflawni ein gwaith yn ystod y Cynulliad hwn.

Mae un mater yn amlwg i ni, sef beth yn union yw ystyr 'siaradwr Cymraeg'. Mae'r syniad nad yw bod yn siaradwr Cymraeg yn gyflwr deuaidd a bod continwwm ar gyfer caffael iaith a gallu ieithyddol yn apelio atom. Serch hynny, os yw'r nod o filiwn o "siaradwyr Cymraeg' i fod yn ystyrlon, rhaid i hyn olygu mwy na dim ond gallu dweud ychydig o ymadroddion yn Gymraeg.

Yn ein barn ni, siaradwr Cymraeg yw rhywun sy'n 'rhugl' yn yr ystyr ei fod yn gallu deall a chynnal sgyrsiau ar y rhan fwyaf o bynciau bob-dydd heb ymdrech ac mewn ffordd a fyddai'n naturiol a diddorol i unrhyw siaradwr Cymraeg arall. Fodd bynnag, gan mai man cychwyn y strategaeth i bob golwg yw nifer y bobl sy'n nodi yn y Cyfrifiad eu bod yn siarad Cymraeg, yna efallai mai dyma'r ffordd fwyaf cyson o farnu a yw'r strategaeth yn llwyddo.

Yr hyn sy'n bwysig, fodd bynnag, yw bod y strategaeth derfynol ei hun yn cynnwys diffiniad clir o siaradwr Cymraeg wrth werthuso ei nod o greu miliwn o siaradwyr.

**Argymhelliad 23.** Rydym yn argymell bod y strategaeth derfynol yn cynnwys diffiniad clir o siaradwr Cymraeg wrth werthuso a yw'r strategaeth yn llwyddo i gyrraedd ei nod o greu miliwn o siaradwyr.

# Atodiad A – Sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae modd gweld trawsgrifiadau o bob sesiwn tystiolaeth lafar yn:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15157

Mae'r darllediadau ar gael i'w gwylio yn: www.senedd.tv

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 24 Tachwedd 2016 | UCAC<br>Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)<br>Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)<br>Mudiad Meithrin<br>Colegau Cymru<br>Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| 30 Tachwedd 2016 | Prifysgol Cymru y Ddrindod Dewi Sant<br>Prifysgol Fetropolitan Caerdydd<br>Cyngor y Gweithlu Addysg |
| 14 Rhagfyr 2016 | Estyn<br>Cymwysterau Cymru<br>CBAC<br>Cyngor Gofal Cymru<br>Comisiynydd y Gymraeg |
| 18 Ionawr 2017 | Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes |

## Sesiwn i Randdeiliaid

| | |
|---|---|
| 16 Tachwedd 2016 | Cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar 16 Tachwedd 2016. |

# Atodiad B – Tystiolaeth ysgrifenedig

Cafwyd tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor drwy gydol yr ymchwiliad. Cynhaliwyd ymgynghoriad y Pwyllgor rhwng 3 Tachwedd 2016 a 30 Tachwedd 2016. Mae'r deunydd a gyflwynwyd ar yr ymgynghoriad i'w weld yn: **http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=232**

| **Cyfeirnod** | **Enw a Sefydliad** |
|---|---|
| WLS01 | Prifysgol Aberystwyth |
| WLS02 | ATL Cymru (Saesneg yn Unig) |
| WLS03 | Cyngor Tref y Barri (Saesneg yn Unig) |
| WLS04 | Cyngor Gofal Cymru (Saesneg yn Unig) |
| WLS05 | Chris Sully (Saesneg yn Unig) |
| WLS06 | Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| WLS07 | ColegauCymru (Saesneg yn Unig) |
| WLS08 | Cymdeithas Cyfeithwyr Cymru |
| WLS09 | Cymdeithas yr Iaith |
| WLS10 | Cyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru (Saesneg yn Unig) |
| WLS11 | Estyn |
| WLS12 | Dafydd Roberts |
| WLS13 | Glenys M Roberts |
| WLS14 | Huw O Jones |
| WLS15 | Michael Williams (Saesneg yn Unig) |
| WLS16 | Cyngor Tref Aberdaugleddau (Saesneg yn Unig) |
| WLS17 | Mudiad Meithrin |
| WLS18 | Un Llais Cymru (Saesneg yn Unig) |
| WLS19 | Popeth Cymraeg |
| WLS20 | Cymwysterau Cymru |
| WLS21 | UCAC |
| WLS22 | Urdd Gobaith Cymru |
| WLS23 | Comisiynydd y Gymraeg |
| WLS24 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| Cyfeirnod | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| WLS25 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Saesneg yn Unig) |
| WLS26 | Cyngor Sir y Fflint (Saesneg yn Unig) |
| WLS27 | Swyddle |
| WLS28 | Prifysgol De Cymru |
| WLS29 | Cylch yr Iaith |

# Atodiad C – Casglu tystiolaeth allanol

Ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor â'r ysgolion a ganlyn ar 8 Rhagfyr 2016:

– Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

– Ysgol Bishop Gore

– Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

Gwnaed gwaith allgymorth ychwanegol yn yr ysgolion a'r fforymau ieuenctid a ganlyn:

– Ysgol Bishop Gore

– Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

– Ysgol Sant Richard Gwyn

– Ysgol Maes Garmon

– Ysgol Bodedern

– Ysgol Maes y Gwendraeth

– Ysgol Bro Pedr

– Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin

– Fforwm Ieuenctid Iau Caerffili.

Uned y Gymraeg
Is-Adran y Gymraeg
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk

27 Medi 2016

Annwyl Syr / Madam,

Mae Cyngor Gwynedd yn gwerthfawrogi ac yn diolch am y cyfle i gyflwyno'r sylwadau canlynol ar y ddogfen ymgynghori ' Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'. Cyflwynir y sylwadau hyn mewn ysbryd cadarnhaol, gyda'r gobaith y byddent o gymorth i Uned y Gymraeg wrth fynd ati i lunio'r ddogfen derfynol.

**Sylwadau Cyffredinol**

Croesewir y ffaith mai bwriad y strategaeth hon yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; a chredir fod gosod uchelgais ar gyfer y strategaeth yn hollbwysig. Serch hynny, mae gosod uchelgais, sef targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050, yn nod cyffredinol iawn sydd wedi ei leoli mor bell yn y dyfodol, fel y byddai'n gwbl amherthnasol, ac na fyddai neb yn atebol amdano. Nid oes ychwaith gerrig milltir ar gyfer asesu cynnydd a thwf dros gyfnod mor faith.

Gwyddwn eisoes, gan y Swyddfa Ystadegol Gwladol ar sail symudedd poblogaeth bresennol - ymhen 70 mlynedd y bydd yna fwy o fewnfudwyr na Chymry yn byw yng Nghymru, a chwestynir felly arwyddocâd y miliwn, yng nghyd-destun cyfanswm poblogaeth tebygol Cymru erbyn 2050. Mewn geiriau eraill, os ceir miliwn o siaradwyr Cymraeg beth fydd y ffigwr a'r canran cyfatebol fydd ddim yn gallu siarad Cymraeg? Rhaid cysoni ac ystyried hefyd gwerth cyfri'r holl 'siaradwyr' Cymraeg os ydynt yn bodoli mewn cymunedau rhithwir a gwagle ar draws y byd.

Mae'r strategaeth yma'n wahanol i *Iaith Fyw: Iaith Byw* gan ei bod yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar addysg, a thwf addysg Gymraeg, fel y prif gyfrwng i wireddu'r uchelgais. Canlyniad hyn yw y gellir ystyried y ddogfen fel strategaeth addysg ar gyfer y de ddwyrain yn unig. Mae'r newid pwyslais yma hefyd yn dibrisio cyfraniad allweddol ardaloedd daearyddol sydd yn gadarnleoedd traddodiadol i'r iaith – ardaloedd y rhoddwyd ffocws a chydnabyddiaeth iddynt am eu cyfraniad i gynnal y nifer siaradwyr hyd yma yn *Iaith Fyw; Iaith Byw*. Yn sicr, mae twf addysg Gymraeg yn *un* cyfrwng i wireddu'r uchelgais, ond mae risg sylweddol i ganolbwyntio'n ormodol ar gynyddu *niferoedd*, heb bwysoli hynny gyda'r **nifer** sydd yn *defnyddio'r* Gymraeg bob dydd ac ardaloedd lle mae **dwysedd** siaradwyr Cymraeg yn golygu mai dyma yw priod iaith mwyafrif o drigolion y gymuned, a'r iaith yn ei thro yn rhan o wead y cymunedau hynny. Yn ddiau, mae angen i ymyriadau cynllunio ieithyddol hefyd ffocysu ar ardaloedd sy'n parhau'n gadarnleoedd i'r Gymraeg megis cymunedau yng Ngwynedd a Môn ac Uwch Aled yng Nghonwy, er mwyn cynnal iechyd ieithyddol cymunedau ac atal dyfodiad patrwm o ddirywiad ieithyddol sydd eisoes ar waith mewn nifer eang o ardaloedd ledled Cymru.

Ar wahân i'r newid pwyslais yma tuag at addysg, y mae'r strategaeth hon yn gyffredinol yn adlewyrchu yr hyn sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru yn y maes cynllunio ieithyddol, gan adlewyrchu rhai o'r meysydd traddodiadol hynny y gweithredir ynddynt eisoes.

Y mae'r ddogfen hefyd yn adlewyrchu'r meysydd sydd gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Llywodraeth gyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt. Dengys hyn nad yw'r strategaeth yn sicrhau fod y Gymraeg a chyfrifoldeb am hyrwyddo'r iaith a gwireddu'r uchelgais wedi ei brif-ffrydio drwy holl ystod gwaith ac adrannau'r Llywodraeth ei hun, meysydd megis: busnes a'r economi, diwylliant a chwaraeon, iechyd a gofal cymdeithasol, tai ac adfywio, pobl a chymunedau, a chynllunio. Heb gyplysu'r meysydd creiddiol hyn beth sydd yma yw strategaeth addysg fel peirianwaith creu miliwn o siaradwyr Cymraeg heb gyd-berthynas a chatalyddion allweddol sy'n cyfrannu at hynny, megis cyfleoedd cyflogaeth mewn swyddi lle mae angen sgiliau Cymraeg a dwyieithog, tai ayyb.

Ar wahân i uchelgais y strategaeth, digon amwys yw'r disgwyliadau a nodir, ac mae prinder manylu ar ddulliau o fesur effaith a chynnydd yn erbyn gofynion a gweledigaeth y strategaeth yn gwneud y dasg o sicrhau y caiff yr uchelgais ei wireddu yn anodd iawn. O ystyried mai ymgynghoriad ar sut i gyflawni'r uchelgais yw'r ddogfen, un o wendidau sylfaenol y strategaeth yw diffyg gwybodaeth ac ymrwymiad cadarn sydd yn egluro'r 'sut' hwnnw. Yn wir, gellir dadlau fod peidio cynnwys cerrig milltir tymor byr a chanol yn wendid sylweddol o ystyried y targedau uchelgeisiol tymor hir a nodir yn y strategaeth. Mae'n allweddol felly i gynnwys gofynion a mesurau cadarn ynghlwm ag unrhyw gynllun gweithredu a lunir i gyd-fynd gyda'r strategaeth yma, er mwyn sicrhau y gwireddir y weledigaeth. Er hyn, y mae'r hyn sydd ei wir angen i gyflawni'r uchelgais o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 yn ddim llai na chwyldro!
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw seiliau rhagamcanion cynllunio niferoedd yn y Strategaeth sy'n arwain at gasglu bod y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn un dilys na chyraeddadwy. Ymhellach, yng ngolueni canfyddiadau ieithyddol Cyfrifiad 2011, lle gwelwyd lleihau yn y niferoedd a chanrannau o siaradwyr Cymraeg, a methu cyflawni nifer o'r targedau yn Iaith Pawb; teg gofyn beth yw'r seiliau dros osod targed mor uchelgeisiol i'r dyfodol?

**Maes datblygu 1: Cynllunio a pholisi iaith**
Cydnabyddir fod prif-ffrydio'n hollbwysig, ac yn allweddol o safbwynt hyrwyddo'r Gymraeg, gan ei fod yn ddull hynod o effeithiol o wreiddio cynllunio ieithyddol fel rhan annatod o nifer o gynlluniau, polisïau, a strategaethau; ond cydnabyddir nad dyma'r unig gyfrwng o gynllunio ieithyddol.

Er bod cyfleoedd y gellir manteisio arnynt i ledaenu'r neges am y Gymraeg a manteisio ar weithlu ehangach i hyrwyddo'r iaith, y mae risg amlwg gyda prif-ffrydio hefyd, gan y bydd y Gymraeg yn eilradd i briod waith unrhyw alwedigaeth y prif-ffrydir y Gymraeg iddo; e.e: bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd, cynlluniau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

Un o'r negeseuon a ddaeth yn gyson o drafodaethau gydag unigolion proffesiynol a chynrychiolwyr cymunedau wrth lunio Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 oedd pwysigrwydd y berthynas rhwng yr economi, tai, a'r iaith Gymraeg. Mae gan Lywodraeth Cymru, trwy ei arweiniad polisi yn y maes economaidd, cynllunio a thai, rôl allweddol i'w chwarae wrth hyrwyddo'r Gymraeg a phrif-ffrydio'r iaith i gynlluniau cenedlaethol. Fodd bynnag, dengys rhai o raglenni economaidd mawr y gorffennol, megis Amcan 1 a Chydgyfeiriant na fu'r Llywodraeth ar y pryd yn flaengar yn rhoi lle canolog i'r Gymraeg yn y meysydd hyn. Er mwyn gwireddu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg bydd rhaid sicrhau nad yw cyfleoedd tebyg i'r dyfodol yn colli cyfle.

Er mwyn sicrhau llwyddiant prif-ffrydio, mae angen gosod disgwyliadau clir a sicrhau cyfundrefn atebolrwydd gadarn er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn ganolog i bob datblygiad, prosiect a rhaglen.

DRAFT

Nid yw cynnwys cymalau megis 'ystyriaeth i'r Gymraeg', 'dylanwadu ar' yn gosod cyfarwyddyd a gweledigaeth ddigon cadarn i'r strategaeth, gan arwain at ddisgwyliadau amwys, drws agored i bobl beidio rhoi lle canolog i'r Gymraeg, ynghyd â thanseilio'r uchelgais heriol a chadarn o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Mae parhau i gynnal a chomisiynu ymchwil cynhwysfawr safonol i gynyddu ein dealltwriaeth o'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y Gymraeg yn allweddol, ac mae angen sicrhau buddsoddiad sylweddol yn y maes hwn er sicrhau fod yr ymyraethau a weithredir yn addas i bwrpas.

**Maes datblygu 2: Normaleiddio**

Croesewir y weledigaeth fod y Gymraeg yn rhan hollol normal o fywyd bob dydd, a bod yna ewyllys da tuag at yr iaith yn ogystal ag ewyllys i ddefnyddio'r iaith. Serch hynny, mae'r camau y bwriedir eu cymryd tuag at wireddu'r weledigaeth yn yr adran hon yn amwys iawn, a gellir dadlau y byddai'r elfennau hynny sydd yn ymwneud â chyrchu a defnyddio gwasanaethau yn Gymraeg yn plethu'n well i faes datblygu 6: Hawliau, gan fod argaeledd gwasanaethau Cymraeg, yr hawl i wasanaethau Cymraeg, a'r defnydd a wneir ohonynt yn mynd law yn llaw. Gellir dadlau hefyd mai thema llorweddol neu nod yw normaleiddio yn hytrach na maes datblygu.

Croesewir y bwriad a'r ymrwymiad i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n dylanwadu ar agweddau a dewisiadau ieithyddol, gan ganolbwyntio i ddechrau ar hunaniaeth ieithyddol a seicoleg defnyddio'r Gymraeg. Cynigir Gwynedd fel sampl perthnasol a difyr gogyfer â'r ymchwil yma.

At hyn, mae cynllunio ieithyddol ar sail tystiolaeth yn hollbwysig yn yr hinsawdd bresennol ble mae gofyn blaenoriaethu ymdrechion ar y pethau hynny fydd yn gwneud gwir wahaniaeth i sefyllfa'r Gymraeg, a'r defnydd o wneir o'r iaith.

**Maes datblygu 3: Addysg**

Croesewir y bwriad o gryfhau prosesau cynllunio strategol ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau twf mewn addysg Gymraeg. Serch hynny, dylid cyfeirio at addysg ddwyieithog yn y cyswllt yma hefyd, er mwyn cydnabod gwerth polisi addysg megis Gwynedd sydd a'r nod o *'sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.'* Onid dyma, yn wir, ddylai amcan yr adran hon o'r strategaeth fod?

Croesewir hefyd y bwriad o symud i ffwrdd oddi wrth y cysyniad o 'ail-iaith', ac er mwyn gwireddu hynny yn yr ardaloedd a ystyrir yn gadarnleoedd i'r iaith Gymraeg, y mae'n hanfodol sicrhau ymrwymiad i fuddsoddiad sylweddol mewn cynlluniau trochi, a darpariaeth i hwyrddyfodiaid cynradd ac uwchradd. Bydd hynny'n gwbl hanfodol er mwyn cyflawni'r nod o sicrhau cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, gan sicrhau nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn cael ei wanychu gan fewnlifiad, sydd yn ôl y Swyddfa Ystadegol Gwladol yn mynd i gynyddu dros oes y Strategaeth hon a thu hwnt.

O safbwynt datblygu Cwricwlwm newydd i Gymru, a gwreiddio rhai o hanfodion y Siarter Iaith yn gadarn yn y Cwricwlwm hwnnw, y mae'n allweddol sicrhau fod ymwybyddiaeth iaith ar gyfer pob cyfnod addysg yn dod yn rhan greiddiol o'r cwricwlwm newydd. Digwydd hynny orau drwy gyfrwng y Fframwaith Llythrennedd; dinasyddiaeth byd eang; ABCh; neu'r fagloriaeth Gymreig.

DRAFT

Gwyddys nad yw sicrhau darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ynddo'i hun yn mynd i arwain at y twf angenrheidiol yn y niferoedd sydd yn dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, bydd angen cynllun cynhwysfawr i gymhell dysgwyr i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog; yn arbennig yn Addysg Bellach ac Addysg Uwch, cyffelyb i'r bwrsariaethau a gynigir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a rhai Prifysgolion, er sicrhau dilyniant ieithyddol priodol drwy holl ystod y gyfundrefn addysg a hyfforddiant.

Byddai hyn yn fodd o wyrdroi'r tuedd o gwymp sylweddol yn y niferoedd sydd yn dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog rhwng pob cyfnod allweddol, ac ymlaen i addysg bellach ac uwch. Teimlir fod angen sicrhau fod addysg bellach ac uwch yn cael eu cynnwys fel rhan allweddol o'r ymrwymiadau a wneir yn yr adran hon. Mae argaeledd cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn allweddol i normaleiddio'r Gymraeg a sicrhau llwybr naturiol Gymraeg a dwyieithog o addysg i waith. Dylid cysylltu hyn hefyd â byd gwaith, hyfforddiant, prentisiaethau a chyflogadwyaeth er mwyn cynllunio cadwyn dilyniant ieithyddol o addysg statudol i fyd gwaith fydd wedyn yn gallu dylanwadu fwyfwy ar iaith oedolion, a fydd maes o law yn rieni newydd.Yn y cyd-destun yma mae amwysedd ynglŷn â sut bydd Llywodraeth Cymru'n mynd ati i wireddu eu hamcan i wella cyfraddau dilyniant, yn arbennig yng nghyd-destun y canlynol: *'Datblygu cyfleoedd arloesol er mwyn galluogi dysgwyr i fod yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn gymdeithasol ac o fewn y teulu.'*

Mae angen cynnwys targedau ac amserlen fanwl i wireddu hyn, os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynglŷn â chyflawni'r uchelgais o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. O safbwynt dulliau i fesur effaith hynny, awgrymir y mesurau canlynol fel man cychwyn:

- Nifer ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Nifer a % dysgwyr sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Nifer a % dysgwyr Bl2 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg
- Nifer a % dysgwyr sydd yn dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector uwchradd
- Nifer a % dysgwyr sydd yn dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn addysg bellach
- Nifer a % dysgwyr sydd yn dilyn cyrsiau cyfrwng Cymareg a dwyieithog yn addysg uwch

O safbwynt annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol a chymdeithasol, gwerthfawrogir ymrwymiad a buddsoddiad y Llywodraeth i ledaenu'r Siarter Iaith yn genedlaethol - cynllun a ddatblygwyd ar gyfer ysgolion Gwynedd yn y lle cyntaf. Rydym yn hynod falch o'r berthynas yma gyda Llywodraeth Cymru, ac yn hyderus y bydd yr ymrwymiad yn parhau, gan fod cyfraniad y Siarter Iaith yn allweddol yn yr her o drosi dysgwyr sydd yn derbyn addysg Gymraeg/dwyieithog yn siaradwyr.

Serch hynny, gellir dadlau fod yr amcan a nodir yn y rhan yma o'r strategaeth yn gyfyngedig i sefydliadau addysg, ac er sicrhau fod y buddsoddiad mewn addysg yn creu siaradwyr, mae'n allweddol fod Canolfannau Hamdden, darpariaethau ieuenctid, a chlybiau chwaraeon yn yr un modd yn dod yn rhan o'r strategaeth hon. Cyfyd hyn gwestiwn ehangach am berthynas y strategaeth yma gyda'r gofyn sydd ar yr Awdurdodau Lleol eu hunain i lunio strategaethau hybu'r Gymraeg.

At hyn, gyda nifer o Awdurdodau Lleol yn allanoli gwasanaethau megis hamdden ac ieuenctid, ac amwysedd a yw ymddiriedolaethau a sefydlir i'r pwrpas hwn yn dod o dan y Safonau Iaith ai peidio, mae'n bwysicach nac erioed fod y meysydd hyn, sydd â chymaint o ddylanwad ar iaith anffurfiol plant a phobl ifanc yn gynwysiedig yn y strategaeth, a'u bod yn atebol am hynny. Yn y cyd-destun hwn mae gan y Mentrau Iaith rôl allweddol i'w chwarae yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol hefyd.

**Maes datblygu 4: Pobl**

Credir y dylai'r adran hon gynnwys rhagor o ffocws ar rôl rhieni a'r teulu fel sffer allweddol ar gyfer trosglwyddo iaith.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, dangoswyd bod 90% o blant 3-4 oed Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg pan fydd 2 riant yn siarad Cymraeg yn y cartref. Gwelir y ganran yn gostwng i 82% mewn cartrefi gyda rhiant sengl yn siarad Cymraeg; ac yn gostwng ymhellach i 63% pan mai dim ond un o ddau riant sydd yn siarad Cymraeg; a gwelir gostyngiad pellach i 35% mewn cartrefi ble nad oes siaradwyr Cymraeg o gwbl. Mae'r canrannau uchod yn cyfleu yr angen am ymyrraeth uniongyrchol a sylweddol i drosglwyddiad iaith mewn ardaloedd sydd yn gadarnleoedd i'r Gymraeg fel Gwynedd.

Er bod bwriad i brif-ffrydio elfennau o faes gwaith TWF i fydwragedd ac ymwelwyr iechyd; y mae cyfleoedd y tu hwnt i hynny i ddylanwadu ar drosglwyddiad iaith, a hynny yn y maes gofal plant, ac fel rhan o raglenni cenedlaethol megis Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, ynghyd â fel rhan o'r gyfundrefn addysg i dargedu darpar rieni. Rhaid sicrhau fod hyrwyddo'r Gymraeg a negeseuon am fanteision magu plant yn ddwyieithog wedi ei wreiddio fel cyfrifoldeb graidd y rhaglenni ymyrraeth yma, gyda ffyrdd o fesur hynny mewn lle.
At hyn, mae'r cyfraddau trosglwyddo iaith mewn ardaloedd fel Gwynedd hefyd yn cyfleu'r potensial mwyaf i gynyddu nifer y siaradwyr, gan fod aelwydydd gydag un o ddau riant yn siarad Cymraeg, ac aelwydydd gyda rhiant sengl yn siarad Cymraeg eisoes yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg, ond nad ydynt yn dewis eu defnyddio. Mae rôl allweddol i'r Fenter Iaith (yn absenoldeb TWF a Chymraeg i Blant) i gynllunio ymyrraeth benodol mewn ymateb i hyn.

Cydnabyddir fod yr hyn a ystyrir yn 'gymuned' bellach wedi newid, ymestyn, ac yn gysyniad anodd i'w ddiffinio, ond rhaid gochel rhag dibrisio gwerth ac arwyddocâd cymuned 'ddaearyddol' sydd yn dod â phobl ynghyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yma, y caiff seiliau hunaniaeth a gwerthoedd siaradwyr Cymraeg eu gosod, arweinwyr cymunedol eu meithrin, yma y rhoddir cyfle i arfogi siaradwyr Cymraeg i gynnig arlwy o weithgareddau a digwyddiadau cyfoes a deniadol sydd yn gwneud y Gymraeg fel norm mewn cyd-destun anffurfiol braf. Mewn geiriau eraill, byw bywyd yn bennaf trwy'r Gymraeg.

Arwyddocâd arall i gymuned 'ddaearyddol' sydd yn hanfodol i hyfywedd yr iaith yw gwead y gymuned Gymraeg ei hiaith sydd wedi eu lleoli yng nghadarnleoedd yr iaith ledled Cymru. Yn yr ardaloedd yma y cynhyrchir niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg; sydd yn ei dro wedi bod yn gyfrifol am dwf yn nifer y siaradwyr mewn ardaloedd eraill o Gymru megis Caerdydd. Mae pwysigrwydd yr ardaloedd hyn - a oedd mor amlwg yn *Iaith Fyw: Iaith Byw* - wedi ei golli yn llwyr yn y strategaeth newydd. Ni ellir pwysleisio digon fod cadarnleoedd yr iaith Gymraeg yn allweddol bwysig i sicrhau hyfywedd yr iaith i'r dyfodol. I ategu hyn, mae nifer o arbenigwyr cynllunio ieithyddol ar draws y byd yn cydnabod arwyddocâd cymunedau gyda dros 70% o'r boblogaeth yn siarad yr iaith. Dyma pam y credwn bod angen i'r Strategaeth hon osod targedau, ffocws a phwyslais ar gynllunio ieithyddol priodol a chyfesur i'r cymunedau hyn yng Ngwynedd, Môn a Chonwy gyda'r Mentrau iaith yn arwain yn strategol a chydgordio ymyriadau ieithyddol ar lawr gwlad.

Mae angen strategaeth benodol a buddsoddiad sylweddol felly i gynnal a chryfhau'r cadarnleoedd fel ardaloedd sydd yn gatalyddion ar gyfer twf y Gymraeg ledled Cymru. At hyn, mae angen i bob adran o fewn y Llywodraeth, gydnabod arwyddocâd arbennig yr ardaloedd hyn, a phrofi sut y bydd unrhyw gynlluniau sydd ganddynt yn cael effaith ar y cadarnleoedd a'r Gymraeg. I gyflawni hyn credwn y dylid dynodi'r cymunedau 70%+ fel rhai ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig.

**Maes datblygu 5: Cefnogi**

DRAFT

Croesewir bwriad y Llywodraeth i fuddsoddi, datblygu a dylanwadu er mwyn sicrhau seilwaith cadarn i'r Gymraeg ym maes corpora, geiriaduron, ac adnoddau terminoleg, ynghyd â datblygiadau technolegol a digidol er sicrhau argaeledd cyfryngau amrywiol a pherthnasol yn Gymraeg.

Mae'n bwysig iawn fod y Gymraeg yn rhan o'r datblygiadau technolegol newydd a bod lle i'r Gymraeg yn y datblygiadau hyn. Mae hyn yn allweddol, o safbwynt dylanwadu ar seicoleg a defnydd iaith plant a phobl ifanc o'r Gymraeg, ac yn fodd o wneud yr iaith yn berthnasol i holl gyd-destunau bywyd.

Serch hynny, mae angen rhagor o wybodaeth ynglŷn a pha gamau y bwriedir eu cymryd yn y tymor byr, canolig, hir er mwyn gwireddu hynny, ynghyd â beth yw lefel y buddsoddiad er mwyn cyflawni'r nod, a pha ddulliau mesur fydd mewn lle, a phwy sydd yn gyfrifol am gyflawni.

**Maes datblygu 6: Hawliau**
Mae Cyngor Gwynedd eisoes yn sefydliad sydd yn arddel y Gymraeg ac mae effaith ei bolisi iaith o safbwynt ei weinyddiaeth fewnol yn bellgyrhaeddol. Yn sgil y polisi, mae'r Gymraeg wedi ei normaleiddio fel cyfrwng gweithio naturiol, gan alluogi miloedd o staff i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg bob dydd. Sgil-effaith hyn yw fod mwyafrif trigolion y sir bellach yn cysylltu yn Gymraeg gyda'r Cyngor yn gwbl naturiol, ac mae dylanwad y Cyngor fel cyflogwr i weld yn nhwf cymunedau Cymraeg megis Llanrug.

Prawf yw hyn wrth gwrs nad drwy ddeddfwriaeth a hawliau yn unig y mae gwireddu'r uchelgais, ond yn hytrach drwy ymrwymiad, gweledigaeth wleidyddol ddiwyro, a dewrder, fel y gwelwyd wrth weithredu polisi iaith Gwynedd ers 1996, a chyn hynny yng Nghyngor Dosbarth Dwyfor. Lledaenu'r polisi iaith hwn i siroedd eraill sydd yn debygol o gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Wedi'r cyfan, yma yng Ngwynedd, y ceir y cyfle prin hwnnw, i arddel a defnyddio yn fwy cyflawn a rheolaidd yr ystod sgiliau yn y Gymraeg (siarad, darllen a deall ysgrifennu) o'r crud i'r bedd.

Drwy sicrhau cyfleoedd gwirioneddol i gynifer o bobl â phosibl allu byw a gweithio drwy'r Gymraeg y mae gwireddu'r uchelgais o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Golyga hyn, o fewn y 5 mlynedd nesaf, yr angen i Awdurdodau Lleol y Gogledd a'r gorllewin, Môn, Conwy, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro gychwyn ar y broses o lunio, mabwysiadu a gweithredu polisi sydd yn nodi mai'r Gymraeg yw iaith gweinyddiaeth fewnol y sefydliad.

Y mae peryg i'r gyfundrefn safonau presennol fod yn feichus o safbwynt ei weinyddiaeth gan ychwanegu dim mewn gwirionedd at brofiad y defnyddiwr, nac annog cydymffurfiaeth drwy broses reoleiddio yn unig. Drwy anogaeth a hyrwyddo y mae cyflawni'r nod. Cytunir felly gyda'r angen i ddatblygu cydbwysedd gwell rhwng hyrwyddo, deddfwriaeth a rheoleiddio, gan sicrhau eglurder yn rolau buddeiliaid allweddol. Serch hynny, ni fydd cyflawni hynny yn debygol o gyfrannu'n uniongyrchol at gyrraedd y miliwn. Mae angen strategaeth benodol a chynhwysfawr i gefnogi ac arfogi pobl i deimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyrchu gwasanaethau, fod y profiad ac argaeledd y gwasanaethau hynny yn annog ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ac yn ei dro fod hynny'n dod yn rhywbeth cwbl naturiol. Heb gynllunio a chyflenwi gweithlu sector cyhoeddus dwyieithog pwrpasol nid oes modd gwireddu hyn.

Ni chyfeirir o gwbl yn y strategaeth at y sector preifat a'r trydydd sector, ac efallai mai yr adran hon yw'r man mwyaf addas i'w cynnwys. Yn sicr, mae angen annog busnesau i fod yn rhagweithiol wrth

DRAFT

ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg, ac mae angen eglurder ynglŷn â rolau y Comisiynydd, y Llywodraeth, y Mentrau Iaith ac asiantaethau cefnogi busnes yn hyn o beth.

Yn sicr, mae gweld busnesau yn gwneud defnydd gweledol o'r Gymraeg yn fodd o wreiddio negeseuon allweddol am y Gymraeg a gwerth y Gymraeg yn yr isymwybod, gan ddylanwadu ar seicoleg pobl ynglŷn â'r iaith. Ond yr hyn sydd yn allweddol bwysig i'r uchelgais, wrth gwrs, yw gallu pobl i ymwneud â'i gilydd yn y gwaith, bod hynny gyda chydweithwyr neu gyda chwsmeriaid yn Gymraeg.

At hyn, mae angen rhagor o gyfleoedd i'r rheini sy'n medru'r Gymraeg i'w defnyddio yn y gwaith – yn eu hymwneud â'i gilydd, gyda'u cwsmeriaid, a gyda'u cyflogwyr. Rydym yn treulio canran helaeth iawn o'n bywydau yn y gweithle, ac felly mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn hollbwysig, ac nid yw rhoi hawl i'r unigolyn wneud hynny ar ei ben ei hun yn debygol o gyflawni'r nod. Mae angen datblygu gweithleoedd Cymraeg, gweinyddiaeth fewnol Gymraeg a normaleiddio'r iaith yn y gweithle. Bydd galluogi'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith (a hynny nid drwy hawliau yn unig) yn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol. Yn y cyd-destun hwn hefyd mae angen cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil, a chynyddu balchder y gweithlu o'r sgiliau sydd ganddynt yn y Gymraeg. Diau felly fod Strategaethau Sgiliau ieithyddol fydd yn cynllunio a chreu gweithlu dwyieithog sy'n gallu darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol a'r safonau iaith statudol yn greiddiol. Gwyddom nad felly mohoni ar hyn o bryd gyda rhelyw o gyrff cyhoeddus â chyflenwad annigonol o staff dwyieithog i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn yr hinsawdd economaidd presennol – sydd yn anorfod yn arwain at gynnydd mewn comisiynu gwasanaethau gan y sector cyhoeddus, a llai o ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol – mae'n hollbwysig fod y sector preifat yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru yn gallu ac yn gorfod ymateb yn gadarnhaol i'r galw cynyddol am rai gwasanaethau, ond hefyd eu bod yn gallu darparu'r gwasanaethau hynny yn gyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn yr un modd a'r sector preifat, bydd cyfleoedd i'r trydydd sector elwa o allanoli rhai gwasanaethau cyhoeddus, a bydd angen adnabod y prif chwaraewyr yn y cyd-destun yma, gan weithio'n ddwys gyda hwy i'w galluogi i gyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg dros gyfnod o amser. Er hynny mae'r diwylliant caffael a disgwyliadau o ran dilyn gofynion ieithyddol wedi bodoli ers Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ond bod cryn le o hyd i wella cyflenwad Cymraeg gwasanaethau a allanolir i'r sectorau hyn. Dyma pam mae angen pwysleisio rôl a chyfraniad y ddwy sector – fel cyflogwr a chyflenwr gwasanaethau - o fewn y Strategaeth hon.

**Adran 5 – Gweithredu yn y tymor byr: y pum mlynedd cyntaf**

Cydnabyddir fod y gyfundrefn addysg a sicrhau ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ***un*** dull o gynyddu'r nifer sydd yn *gallu* siarad Cymraeg. Ond nid yw'r gyfundrefn addysg ar ei phen ei hun yn debygol o gynhyrchu siaradwyr, fel y dywed *Iaith Pawb* ers lawer dydd: *Nid yw iaith sydd wedi'i chyfyngu i'r sector addysg yn iaith fyw.*[1]

O ganlyniad, rhaid gwreiddio'r Gymraeg yn y cymunedau o amgylch pob ysgol Gymraeg a dwyeithiog ar draws Cymru, er sicrhau cyfleoedd digonol i droi dysgwyr y gyfundrefn addysg yn siaradwyr, gan allu manteisio ar gyfleoedd cymdeithasol a chymunedol dwys i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol. Unwaith eto, dyma rôl allweddol i'r Mentrau Iaith a phartneriaid eraill ar draws Cymru ac mae angen strategaeth a buddsoddiad cynhwysfawr i gyflawni hyn, er sicrhau fod y buddsoddiad

[1] Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, Llywodaeryh Cynulliad Cymru 2003.

sylweddol mewn addysg Gymraeg yn dwyn ffrwyth ac yn gwireddu'r nod o gynhyrchu rhagor o *siaradwyr* Cymraeg hyfedr, all wedyn gyfrannu at wireddu'r uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Croesewir y cyfeiriad at ehangu'r Siarter Iaith i ysgolion ar draws Cymru fel cyfrwng i gefnogi'r gyfundrefn addysg Gymraeg/ddwyieithog i gynhyrchu *siaradwyr* Cymraeg. Mae dulliau o fesur effaith ymyrraeth y Siarter drwy gyfrwng y gwe iaith yn cynhyrchu data blynyddol am agweddau a defnydd iaith plant a phobl ifanc ar draws Cymru. Bydd y gwe iaith, felly, yn un arf pwysig dros y pum mlynedd nesaf (a thu hwnt) fel ffon i fesur y tebygolrwydd o allu gwireddu'r uchelgais o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Ond fel y gwyddom, mae niferoedd sylweddol yn gadael y Gymraeg fel mae'n nhw'n gadael yr ysgol yn 16 mlwydd oed ac felly heb gynnwys addysg bellach ac uwch a byd gwaith nid yw'r strategaeth yn gyflawn.

Yn sicr, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod yr her o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn canol y ganrif. Yr her fwyaf i'r Llywodraeth, (ac i bob un ohonom), yw *sut* y gwireddir hynny, a *sicrhau* y gwireddir hynny.

Diolch am y cyfle i gyflwyno'r sylwadau hyn ar y Strategaeth: Miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Gobeithir y byddent o fudd wrth fynd ati i lunio'r ddogfen derfynol.

Yn gywir,

Dyfrig Siencyn
Dirprwy Arweinydd y Cyngor

DRAFFT